



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner



Heddlu Police  
**DYFED  
POWYS**

# 2025/2026 – 2030/2031

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig

**Gan gynnwys:**

- A. Cynnig Praesept**
- B. Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn**
- C. Strategaeth Gyfalaf**



Ionawr  
2025

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

---

### Cynnwys

1. Crynodeb a Chynnig Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
2. Cyd-destun Sefydliadol a Gweithredol
3. Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu
4. Sylfaen y Dreth Gyngor
5. Tirwedd Economaidd
6. Setliad Ariannu'r Heddlu 2025/2026 a'r Cyd-destun Cenedlaethol
7. Capio'r Dreth Gyngor/Refferendwm – Cymru yn erbyn Lloegr
8. Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannol 2024/2025
9. Cynllun Gweithlu
10. Proses y Gyllideb a Gofyniad Cyllidebol 2025/2026
11. Cyllideb Tymor Canolig a Rhagolygon
12. Cynllun Arbedion / Lleihau Costau ar gyfer y Dyfodol a Rhaglen Adolygu'r Heddlu
13. Cynllun Buddsoddi Cyfalaf
14. Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn
15. Crynodeb Ariannol Tymor Canolig
16. Adran 25 a Risg Cyllidebol
17. Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn
18. Casgliad

### Atodiadau

- A. Cyllideb 2025/2026 – 2030/2031
- B. Adroddiad Adran 25 y Prif Swyddogion Cyllid
- C. Asesiad Risg o Gyllidebau Materol
- D. Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn
- E. Cronfeydd Wrth Gefn 2024/2025 – 2030/2031
- F. Strategaeth Gyfalaf
- G. Rhaglen Gyfalaf 2024/2025 – 2033/2034

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

---

- 1 **Crynodeb a Chynnig Praesept Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau**
  - 1.1 Rwyf wrth fy modd fy mod wedi cael fy ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) ar gyfer fy nhrydydd tymor. Byddaf yn parhau i weithio'n helaeth i feithrin perthynas waith agos â holl gymunedau'r ardal ddaearyddol eang y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei gwasanaethu. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws pedair ardal awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys wedi bod, ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi ac rwy'n hyderus y bydd cynnal y dull partneriaeth hwn yn arwain at well gwasanaethau i'n cymunedau.
  - 1.2 Rwy'n parhau'n ymrwymedig i roi llais cryf i'r cyhoedd wrth lunio ei wasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach yn lleol, yn rhanbarthol ac ar lefel genedlaethol.
  - 1.3 Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn rhan annatod o'n cymunedau, ac mae'r berthynas unigryw hon yn hollbwysig. Rhaid i'r cyhoedd aros wrth wraidd popeth a wnawn a phob penderfyniad a wnawn. Mae darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gweithredoedd a'n buddsoddiadau yn bwysig a thrwy harneisio'r defnydd o dechnoleg a data i lunio ein gwasanaethau, rwy'n sicr y gellir gwneud gwelliannau pellach i sicrhau diogelwch ein hardal.
  - 1.4 Rwyf wedi gosod y cyfeiriad strategol ac wedi nodi fy mlaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddau cyhoeddedig ar gyfer 2025-2029. Mae'r rhain yn parhau i fod yn sail i bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ac yn cael eu cefnogi a'u gwella ymhellach gan flaenoriaethau'r Prif Gwnstabl ar gyfer yr heddlu.
  - 1.5 Cyhoeddodd HMICFRS eu hasesiad diweddaraf o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) ym mis Tachwedd 2023. Er bod llawer o agweddau cadarnhaol wedi'u cydnabod yn yr adroddiad, mae meysydd cyflawni gweithredol lle mae angen gwelliannau. Fodd bynnag, rwyf wedi fy nghalonogi bod camau sylweddol wedi'u cymryd ac yn parhau i gael eu cymryd tuag at unioni'r rhain ers cyfnod gwaith maes yr arolygiad. Bydd fy nghynnig praesept yn caniatáu i'r Prif Gwnstabl wneud buddsoddiadau wedi'u blaenoriaethu er mwyn rhoi hwb pellach i ddarpariaeth gwasanaethau hollbwysig.
  - 1.6 Bydd fy nhîm yn canolbwyntio ar flaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddau newydd, gan gyflawni'r amrywiaeth o gyfrifoldebau gan gynnwys mwy o weithgareddau craffu ac ymgysylltu. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn parhau i adrodd am lefelau heriol a chymhleth o alw yn erbyn cefndir o gostau cynyddol darparu gwasanaethau. Er ei bod yn siomedig bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi lleihau cyllid grant dioddefwyr craidd ar gyfer 2025/26, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi gwasanaethau hanfodol a byddaf yn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar ddarpariaeth rheng flaen i ddioddefwyr ac unigolion bregus yn ein cymunedau.
  - 1.7 Un o fy nghyfrifoldebau allweddol fel eich CHTh yw gosod y praesept bob blwyddyn. Y praesept hwn yw swm y trethiant a godir drwy drethdalwyr lleol i

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

gefnogi gwasanaethau plismona. Wrth wneud hynny, ystyriaef sawl ffactor gwahanol gan gynnwys gofyniad y Prif Gwnstabl o ran adnoddau yn y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth gan drigolion ardal Dyfed-Powys a chynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

- 1.8 Mae'r trefniadau statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn datgan:
- Rhaid i mi hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu o'm praesept arfaethedig erbyn 1 Chwefror.
  - Rhaid i'r Panel Heddlu a Throseddu adolygu'r praesept arfaethedig erbyn 8 Chwefror.
  - Os bydd y Panel Heddlu a Throseddu yn rhoi feto ar y praesept arfaethedig, rhaid i mi hysbysu'r Panel Heddlu a Throseddu o'm praesept diwygiedig erbyn 15 Chwefror.
  - Rhaid i'r Panel Heddlu a Throseddu adolygu'r praesept diwygiedig erbyn 22 Chwefror.
  - Rhaid i mi osod praesept erbyn 1 Mawrth.
- 1.9 Mae'r Prif Gwnstabl yn adrodd ar berfformiad ariannol bob deufis drwy'r Bwrdd Plismona. Mae rheolaeth ariannol a chynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu goruchwyllo gan y Bwrdd Cyllid Strategol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig. Mae fy Mhrif Swyddog Cyllid yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm Cyllid Corfforaethol.
- 1.10 Mae trafodaethau manwl wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol 2024/25 mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r rhain wedi'u cynnal o fewn y strwythur llywodraethu ffurfiol, yn ogystal â chyfres o gyfarfodydd praesept a Cynllun Ariannol Tymor Canolig rhyngof i, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid a'm Prif Swyddog Cyllid. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn ystod 2024 ar 21 Hydref, 22 Tachwedd (seminar cyn cyllid), 19 Rhagfyr (ôl-setliad, a gadarnhawyd ar 17 Rhagfyr) a 9 Ionawr 2025.
- 1.11 Cynhaliodd y Prif Gwnstabl a minnau Seminar Cyllid ar 27 Tachwedd 2024 ar gyfer aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru. Diben y digwyddiad oedd rhoi cyfle i'r heddlu gyflwyno crynodeb o'r amgylchedd gweithredol y maent yn gweithio ynddo a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar eu lefelau galw a'r gofynion adnoddau dilynol ar gyfer 2025/26 a thu hwnt.
- 1.12 Roedd y seminar hefyd yn ymdrin â'r camau a gymerwyd hyd yn hyn wrth baratoi cyllideb 2025/26 a'r sefyllfa ddangosol ddrafft, gan gynnwys tybiaethau cyllidebol, pwysau, cyd-destun cyllido, arbedion, mesurau effeithlonrwydd a'r gofynion buddsoddi sylweddol sydd eu hangen yn sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona. Rhoddodd ein hymgynghorwyr rheoli'r trysorlys hefyd gyflwyniad ar ystod o ystyriaethau economaidd a lleol ariannol ehangach. Rhoddodd y seminar hon gyfle gwerthfawr i roi cyflwyniad ar yr heriau a'r cyd-destun gweithredol ac ariannol, sy'n effeithio ar fy nghynlluniau ar gyfer y praesept ar gyfer 2025/26.

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

- 1.13 Cynhaliwyd cyfarfod hefyd ag Is-grŵp Praesept Panel yr Heddlu a Throseddau ar 22 Medi i roi diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 a gofynion cyllidebol cyn y seminar cyllid. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol ar 13 Ionawr 2025 cyn cyfarfod Panel yr Heddlu a Throseddau i ystyried y cynnig praesept ar 24 Ionawr 2025.
- 1.14 Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau sylweddol yng nghyllid y llywodraeth ganolog, etifeddiaeth goblygiadau yn deillio o benderfyniadau blaenorol, ynghyd â phwysau cost sylweddol a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona, mewn tirwedd ariannol ac economaidd heriol iawn.
- 1.15 Fel y gwyddom, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau. Mae ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog, chwyddiant a chynnydd mewn costau llafur yn parhau i fod yn her yn ogystal â gofynion gweithredol a newid sefydliadol sy'n deillio o faterion byd-eang, cenedlaethol a lleol.
- 1.16 Mae effeithiau'r argyfwng costau byw yn parhau i gael eu teimlo oherwydd rhyfeloedd parhaus yn Wcráin a Gaza, canlyniad Brexit, pandemig covid-19, a'r newid diweddar yn y llywodraeth. Mae gan y rhain oblygiadau sylweddol i bob gwasanaeth cyhoeddus, gyda gwariant y llywodraeth ar lefel genedlaethol yn dal i fod mewn diffyg sylweddol er gwaethaf lefelau hanesyddol uchel o drethiant personol.
- 1.17 O ystyried hyn ac ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, cychwynnodd y Prif Gwnstabl ar Raglen Adolygu'r Heddlu yng nghanol 2022 i asesu'n feirniadol y cyfleoedd i leihau costau. Nododd yr heddlu gynllun arbedion ariannol mawr ac uchelgeisiol o £10 miliwn dros dair blynedd, gyda £6.292 miliwn o hwn yn cael ei gyflawni yn 2023/24, £2.2 miliwn yn 2024/25 gan adael balans o £1.6 miliwn i'w gyflawni yn 2025/26. Mae'r mesurau a roddwyd ar waith yn cynnwys ystod eang o fentrau a newid sefydliadol yn erbyn cefndir o angen cadw niferoedd swyddogion. Er ei bod yn braf bod arbedion wedi'u gwreiddo, cafwyd rhai effeithiau sefydliadol gan gynnwys ôl-groniadau sy'n effeithio ar rai meysydd gwaith y mae staff yr heddlu yn eu cyflawni, ond hefyd yn fwy cyffredinol ar lesiant swyddogion a staff y mae angen mynd i'r afael â hwy.
- 1.18 Mae Rhaglen Adolygu'r Heddlu yn parhau i asesu darpariaeth gwasanaeth a nodi cyfleoedd i roi arloesedd ac arferion gorau ar waith. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar strwythurau plismona gweithredol sy'n anelu at sicrhau bod arweinyddiaeth a strwythurau gweithredol yr heddlu wedi'u halinio i gyflawni meysydd blaenoriaeth. Mae prosiectau diweddar yn cynnwys:
- Gweithredu DAVRU – Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig, sy'n rhoi ymateb rhithwir prydlon i ddiodefyrwyr â phryderon cam-drin domestig risg isel.
  - Offeryn ymchwiliol seiliedig ar dystiolaeth (E-bit) ar gyfer troseddau cyfaint uchel.
  - Gweithredu Gofal Cywir Unigolyn Cywir.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

- 1.19 Mae'r prosiectau hyn wedi'u lansio'n ddiweddar, ac mae'r asesiadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn o ran rhyddhau capasiti gweithredol rheng flaen ac o ran boddhad dioddefwyr. Bydd dadansoddiad manwl yn cael ei gynnal dros yr ychydig fisoedd nesaf i gydnabod y manteision yn llawn.
- 1.20 Cyhoeddwyd setliad dros dro 2025/26 gan y Gweinidog Troseddau a Phlisma ar 17 Rhagfyr 2024. Prif benawdau'r setliad oedd:
- Cynnydd cyfartalog o 6% mewn cyllid – gan gynnwys digolledi am gyfraniadau Yswiriant Gwladol.
  - Cynnydd cyfradd unffurf o 3.7% yn y grant craidd ar gyfer holl ardaloedd CHTh.
  - Cynnydd o £986.9 miliwn mewn cyllid rhwng 2024-25 a 2025-26, ac o'r swm hwnnw bydd £329.8 miliwn (33%) yn dod o'r praesept.
  - Mae'r £657.1 miliwn sy'n weddill yn dod yn bennaf o gynnydd o £339 miliwn yn y grant craidd, £230 miliwn ar gyfer digolledi am gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a Grant Plisma Bro newydd o £100 miliwn.
  - Bydd chwe ailddyrianiad gwerth cyfanswm o £138.5 miliwn yn 2024-25 (Cyrff Hyd Braich, gwasanaethau fforensig, twyll, seiberdrosedd, mynd i'r afael â chamfanteisio a cham-drin, a chynhyrchiant ac arloesi'r heddlu) yn cael eu hariannu o gyllideb ehangach y Swyddfa Gartref.
  - Bydd Grant Plisma Bro yn cael ei ddsbarthu yn unol â'r grant craidd.
  - Cynnydd arian parod sylweddol o 34% mewn grantiau prifddinas ryngwladol a chenedlaethol ar gyfer dinas Llundain a Swyddfa Plisma a Throseddau'r Maer.
  - Ymrwymiad i ffioedd trwyddedu arfau saethu gynyddu i dalu costau – "pan fydd amser Seneddol yn caniatáu".
  - Mae'n ofynnol i'r heddlu gymryd rhan yn Rhaglen Effeithlonrwydd a Chydweithrediad yr Heddlu, gan ddechrau gyda dulliau cenedlaethol o brynu ynni, cerbydau, tanwydd, staff dros dro, a thrwyddedau meddalwedd. Rhagwelir y bydd yn darparu cannoedd o filiynau o bunnoedd erbyn diwedd cyfnod Senedd y DU.
  - Bydd Uned Berfformiad newydd yn cael ei sefydlu yn y Swyddfa Gartref – i "wella perfformiad a safonau".
- 1.21 Er gwaethaf y prif ffigurau a gyhoeddwyd gan y gweinidog, roedd yn amlwg ar unwaith na fyddai hyn yn diwallu anghenion costau chwyddiant cyflogau a phrisiau, cynnydd mewn costau Yswiriant Gwladol, y buddsoddiadau sydd eu hangen mewn seilwaith hanfodol ac arloesi, a baich annisgwyl galwadau ychwanegol ar y gwasanaeth sydd wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol.
- 1.22 Ar lefel yr heddlu, manylir ar setliad cyffredinol 2025/26 yn y tabl isod:

**Tabl 1: Setliad Grant 2025/26**

Efen Ariannu	Setliad Gwreiddiol 2024/5	Dyfarniad Cyflog Ychwanegol Dyrianiad 2024/5	Setliad Diwygiedig 2024/5	Setliad Dros Dro 2025/6	Newid o'r Gwreiddiol Setliad 2024/5	
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	%
Grant Craidd	64.538	1.160	65.698	66.938	+2.400	3.7
Cynnydd Gweithredol	3.490	0.0	3.490	3.006	-0.484	
Grant Pensiwn	4.067	0.0	4.067	3.731	-0.336	

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

<b>Cyfanswm Grantiau Sylfaenol</b>	<b>72.095</b>	<b>1.160</b>	<b>73.255</b>	<b>73.675</b>	<b>+1.580</b>	<b>2.2</b>
Yswiriant Gwladol	0.0	0.0	0.0	2.130	+2.130	
Grant Gwarant Plismona Bro	0.0	0.0	0.0	1.417	+1.417	
<b>Cyfanswm Grantiau Newydd</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>3.547</b>	<b>+3.547</b>	
<b>Cyfanswm cynnydd sylfaenol</b>	<b>72.095</b>	<b>1.160</b>	<b>73.255</b>	<b>77.222</b>	<b>+5.127</b>	<b>7.1</b>

1.23 Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, cyfanswm y prif setliad ar gyfer 2025/6 yw cynnydd o £5.127 miliwn neu 7.1% o'r setliad gwreiddiol. Fodd bynnag, dim ond £1.580 miliwn neu 2.2% yw'r cynnydd net mewn grantiau craidd, pensiynau a chynyddu swyddogion fel yr amlinellir isod:

- Mae'r cynnydd sylfaenol o £2.4 miliwn neu 3.7% yn y grant craidd yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiadau i'r grant pensiynau a grant cynyddu'r heddlu.
  - Mae'r grant pensiwn wedi gostwng **£-0.336 miliwn** i £3.731 miliwn ar gyfer 2025/6. Roedd y grant ychwanegol a ddarparwyd yn 2024/5 yn grant un-tro i gefnogi'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhwymedi McCloud.
  - Gostyngiad yn y grant cynyddu swyddogion o **£-0.484 miliwn** i £3.006 miliwn. Er gwaethaf y gostyngiad, mae talu hwn yn parhau i fod yn amodol ar gynnal lefel benodol o swyddogion heddlu o 1,314 ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, nifer a bennir gan y Swyddfa Gartref. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi o hyd ac mae cosbau ariannol yn berthnasol os bydd y sefydliad yn disgyn o dan y rhif sylfaenol hwn naill ai ym mis Medi '25 neu fis Mawrth '26.

1.24 Mae dau grant penodol newydd wedi'u cyhoeddi fel a ganlyn:

- Cyhoeddwyd grant penodol newydd o £2.130 miliwn tuag at gost ychwanegol y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a gostyngiad yn nhrothwy cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn natganiad Cyllideb yr Hydref sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025 (yn erbyn cost amcangyfrifedig yr heddlu o £2.625 miliwn).
- Grant penodol newydd o £1.417 miliwn ar gyfer buddsoddi mewn capasiti staffio plismona bro, sef cyfran Heddlu Dyfed-Powys o'r £200 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn genedlaethol i wella canfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu. Mae'r dyraniad yn cynrychioli'r dyraniad cychwynol i gefnogi addewid y llywodraeth yn ystod yr etholiad i wella plismona bro a chynyddu adnoddau o 13,000 cyfwerth ag amser llawn yn genedlaethol. Rhaid i hyn gael ei gyfateb â chost staff ychwanegol. Er ein bod yn aros am ragor o fanylion am hyn, mae hwn yn fuddsoddiad i'w groesawu a deallir y bydd yn cefnogi recriwtio neu adleoli swyddogion heddlu bro ychwanegol swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu (SCCHau) neu gwnstabiliaid gwirfoddol ychwanegol.

1.25 Yn gyffredinol, croesewir y cyhoeddiad am grantiau ychwanegol i gynyddu capasiti plismona bro ac i wneud iawn yn rhannol am gostau ychwanegol y



## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn grantiau craidd a llinell sylfaen penodol o £1.580 miliwn, neu 2.2%, yn gwbl annigonol i dalu costau dyfarniadau cyflog rhan o flwyddyn 2024/5 o 4.75% ynghyd â chostau chwyddiant a ragwelir (2.6%) a'r setliad cyflog (2.8%) y mae'r heddlu yn rhagweld y bydd angen iddo eu talu yn 2025/6. Yn wir, os caiff y grant ychwanegol yn ystod blwyddyn 2024/5 o £1.160 miliwn (a oedd ei hun yn annigonol i dalu costau effaith dyfarniad cyflog ychwanegol 2024/5 ar gyfer rhan o'r flwyddyn) ei ddileu, y cynnydd mewn gwirionedd yw £0.4 miliwn neu 0.6%.

- 1.26 Nid oes ychwaith unrhyw gydnabyddiaeth o gynnydd mewn costau benthyca a llog, y bydd angen eu hysgwyddo i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.
- 1.27 Unwaith eto, nid yw'r gost o ddarparu a chynnal plismona lleol yn cael ei hariannu'n ddigonol yn ganolog, sy'n rhoi baich anghymesur pellach ar drethiant lleol i fantoli'r gyllideb.
- 1.28 Mewn cyfarfodydd ar ôl cyhoeddi'r setliad, mae swyddogion y Swyddfa Gartref wedi bod yn amharod i gadarnhau'r rhagdybiaethau dyfarniad cyflog a'r arbedion y maent wedi'u gwneud wrth ddod i'r ffigurau setliad. Mae hyn er gwaethaf y cyhoeddiad o gap codiad cyflog o 2.8% ar gyfer 2025 ar gyfer rhai cyrff negodi tâl nad ydynt yn ymwneud â'r heddlu a gostyngiad o 2% yng nghyllideb effeithlonrwydd adrannol a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref ar gyfer 2025/6.
- 1.29 Er bod y cyllid i gynnal niferoedd swyddogion a chynnyddu swyddogion plismona bro wedi'i groesawu, mae pryderon yn parhau bod dewisiadau cymysgedd gweithlu sefydliadol yn cael eu rhwystro'n gynyddol gan y ddeuliaeth a'r gwrthdaro sy'n deillio o gyrraedd targedau niferoedd penodedig Llywodraeth y DU. Mae'r pryderon hyn yn parhau i gael eu codi gyda'r Swyddfa Gartref.
- 1.30 Cadarnhaodd cyhoeddiad setliad grant yr heddlu hyblygrwydd praesept i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn Lloegr ar gyfer cynnydd o £14 fesul eiddo band D, heb sbarduno'r angen am refferendwm lleol. Nid yw hyn yn berthnasol yng Nghymru ac mae adran 7 yn darparu rhagor o wybodaeth.
- 1.31 Mae trefniadau ariannu'r heddlu yn gymhleth, ac mae hefyd yn bwysig cydnabod bod ystod o wahaniaethau a anghyfartalwch rhwng Cymru a Lloegr ac yn wir rhwng heddluoedd unigol sy'n golygu y gall setliadau craidd, grantiau a phenderfyniadau praesept gael effaith wahanol iawn.
- 1.32 Mae dileu grant cyfalaf yn 2012/13 yn golygu bod yn rhaid talu costau cefnogi buddsoddiad seilwaith cyfalaf hanfodol mewn Ystadau, Fflyd a Thechnoleg Gwybodaeth (prosiectau lleol a chenedlaethol) yn lleol. Mae'r angen am fuddsoddiad parhaus yn sylweddol gan fod hyn yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau plismona ac i alluogi gwell cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, yn ogystal â gwneud cynnydd yn erbyn targedau lleihau carbon cenedlaethol. Mae'r CATC yn cynnwys trywydd sylweddol o gynnydd mewn cyfraniadau refeniw i gyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf, ynghyd â thybiaethau mewn perthynas â benthyca darbodus a chostau refeniw canlyniadol ariannu. Yn y pen draw, rhoddodd y ddau bwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb refeniw.
- 1.33 Yn siomedig, setliad blwyddyn yw hyn unwaith eto. Mae'r diffyg eglurder hwn yn ei gwneud bron yn amhosibl gwneud penderfyniadau gwybodus, rhagweld

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

tymor canolig a chynllunio strategol. Mae rhywfaint o ansicrwydd ariannol allweddol hefyd yn ymwneud â'r gwaith adolygu cyllid fformiwla sy'n mynd rhagddo; a hefyd diffyg sicrwydd ynghylch grantiau penodol eraill sy'n sail i amrywiaeth sylweddol o swyddogaethau plismona. Mae graddfa cydgrynhoi gwariant cyhoeddus yn y dyfodol hefyd yn aneglur. Bydd y materion hyn yn rhan o gam 2 o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

- 1.34 Yn dilyn y gostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) a gyhoeddwyd ar gyfer 2024/5, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal eu lefel bresennol o gyllid o £16 miliwn i gefnogi SCCHau ledled Cymru ar sail arian cyfatebol. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi 350 o SCCHau ledled Cymru gyda £2.3 miliwn o hwn yn cefnogi lefel o 52 o SCCHau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn Nyfed-Powys o gymharu â chyfanswm o 132 yn genedlaethol. Bydd cyllid ychwanegol y Swyddfa Gartref o £0.7 miliwn yn galluogi cynnydd pellach mewn plismona bro yn erbyn targed llinell sylfaen o 132 o SCCHau a 40 o gwnstabiaid yn ystod 2025/6.
- 1.35 Mae pwysau gweithredol a threfniadol lluosog wedi effeithio ar gyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol gan gynnwys cefnogi heriau digynsail yn ymwneud â threfn gyhoeddus a phrotestiadau yn digwydd ar draws y genedl yn gofyn am sgiliau arbenigol i reoli maint yr her.
- 1.36 Tra'n parhau i ganolbwyntio ar reolaeth ariannol ddarvoudus, gwytnwch a chynaliadwyedd, rwy'n parhau i adolygu fy Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a sefyllfa fy mantolen unigol ac rwyf wedi ceisio ail-flaenoriaethu fel y bo'n briodol.
- 1.37 Ar ôl craffu helaeth gan Banel yr Heddlu a Throseddau, cefais gefnogaeth unfrydol i osod praesept y dreth gyngor ar gyfer 2024/25 yn Nyfed-Powys o £332.03 ar gyfer eiddo cyfartalog band D, sef yr isaf unwaith eto yng Nghymru.
- 1.38 Ar bob cam o gyfres cyfarfodydd y praesept a CATC, ac yn wir drwy fy nghraffu a'm hadolygiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, rwy'n cwestiynu'n feirniadol ac yn herio agweddau ar y gofyniad cyllideb refeniw a'r strwythur cyflawni sefydliadol er mwyn sicrhau fy hun o'r gofynion, y cynnydd a'r cyflawni yn y pen draw. Ymgymerais hefyd â chyfres o sesiynau herio a chraffu yn adolygu'n benodol y Strategaethau Ystadau, TGCh a Fflyd a rhaglen gyfalaf y dyfodol.
- 1.39 Er mwyn llywio fy ystyriaethau ar gyfer 2025/26 ac i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd, ymgynghorais â'r cyhoedd i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym mhraesept yr heddlu. Braf oedd gweld cynnydd yn nifer yr ymatebwyr ers 2024/5 gyda 76% yn cefnogi cynnydd praesept dros 9%.
- 1.40 Rhoddwyd cyfle hefyd i ymatebwyr roi sylwadau. Roedd y prif themâu yn ymwneud â phlismona gweladwy o fewn cymunedau gyda chefnogaeth i wella lefelau plismona bro a gwasanaeth ymateb yr heddlu. Codwyd pryderon ynghylch effaith yr argyfwng costau byw a fforddiadwyedd codiadau cyflog pellach. Rwyf wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus wrth bwysu a mesur fy nghynllun ariannol ar gyfer 2025/26, ac yn arbennig felly yng ngoleuni'r argyfwng costau byw presennol. Amlinellir canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn adran 17 o'r adroddiad hwn. Bydd fy nhîm yn gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r amrywiaeth o sylwadau a, lle bo'n briodol, bydd y rhain yn rhan

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

o'm trafodaethau parhaus â'r Prif Gwnstabl.

- 1.41 Rwy'n hynod ymwybodol o'r pwysau y mae'r argyfwng costau byw yn parhau i'w roi ar ein cymunedau. Mae cydbwysedd manwl rhwng sicrhau gwasanaeth plismona effeithlon ac effeithiol, gweladwy a hygyrch, mynd i'r afael â galwadau gwasanaethau gweithredol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn. Ar ôl cynnal proses gynhwysfawr, rwy'n hyderus yng nghadernid y CATC hwn, ond nid yw hyn yn diystyru'r penderfyniadau anodd nac yn wir yn lliniaru'r heriau ariannol a'r ansicrwydd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.
- 1.42 **Felly, cyflwynaf fy nghynnig praesept i'w graffu gan Banel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, a fydd yn codi'r praesept eiddo cyfartalog ym mand D £2.39 y mis neu £28.65 y flwyddyn i £360.68, sef cynnydd o 8.6%. Bydd y cynnydd hwn yn codi praesept o £86.366 miliwn. Bydd hyn yn darparu cyfanswm cyllid o £153.303 miliwn, yn cynrychioli cynnydd o £9.4 miliwn/6.5% ar y cyllid diwygiedig ar gyfer 2024/25.**
- 1.43 Mae'r dirwedd weithredol ac ariannol yn parhau i fod yn anrhagweladwy ac yn heriol. Bydd y lefel hon o gyllid yn galluogi'r heddlu i ganolbwyntio ar gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throseddau ar gyfer 2025-2029.
- 1.44 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau Panel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i graffu ar fy nghynnig praesept a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r cyd-destun gweithredol ac ariannol, sy'n sail i'r gofynion adnoddau a'r tybiaethau ar gyfer 2025/26 a thu hwnt.

## 2. Cyd-destun Sefydliadol a Gweithredol

- 2.1 Yn ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau i ni.
- 2.2 Mae'r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad ac ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.
- 2.3 Mae Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth â phedwar awdurdod lleol ac mae ganddo unedau rheoli sylfaenol lleol cydffiniol. Y tu hwnt i'r pedair sir, mae Dyfed-Powys hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan ynghylch cyfrifoldebau plismona mewn meysydd megis ymateb arfog a throseddau difrifol a threfnedig.
- 2.4 Er gwaethaf gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau a gofnodwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae galw am wasanaethau yn parhau i dyfu oherwydd cymhlethdod cynyddol ymchwiliadau, salwch meddwl, camfanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddau. Mae newidiadau i'r ffordd y

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

mae troseddau'n cael eu cofnodi'n genedlaethol wedi effeithio ar lefelau troseddau a gofnodwyd ac maent yn cyfrif am rai o'r gostyngiadau.

**Tabl 2 – Troseddau a Gofnodwyd**

Heddlu Dyfed-Powys	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024*
<b>Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll)</b>	<b>22402</b>	<b>26071</b>	<b>29259</b>	<b>31064</b>	<b>35907</b>	<b>42937</b>	<b>38729</b>	<b>35259</b>
<b>Trais yn erbyn y person</b>	<b>7624</b>	<b>9169</b>	<b>11774</b>	<b>13561</b>	<b>17393</b>	<b>21356</b>	<b>18794</b>	<b>16798</b>
Lladdiadau	1	4	5	8	3	8	5	4
Trais ag anaf	2934	3045	3295	3292	3316	4045	3808	3605
Trais heb anaf	3410	3786	4967	5693	5824	7069	6851	6339
Stelcio ac aflonyddu	1294	2334	3505	4566	8249	10231	8125	6818
*Marwolaeth neu anaf difrifol a achosir gan yrru anghyfreithlon	3	0	2	2	1	3	5	32
<b>Troseddau rhywiol</b>	<b>957</b>	<b>977</b>	<b>1109</b>	<b>1259</b>	<b>1344</b>	<b>1728</b>	<b>1558</b>	<b>1509</b>
Lladrad	55	50	66	62	52	66	74	103
Dwyn	6799	7827	7580	6544	5587	6474	4882	4418
Difrod troseddol a llosgi bwriadol	3680	4237	4001	3851	3942	4757	4075	3737
Troseddau cyffuriau	1684	1865	1902	2107	2025	2641	1777	1594
Meddiant arfau	144	136	225	246	274	250	281	365
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	1303	1892	2551	4465	5834	4431	4715	3743
Trosedd amrywiol	544	507	710	883	825	829	770	859

\*Ffigurau rhannol blwyddyn 2024 hyd at 3 Rhagfyr 2024

- 2.5 Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu'n gyflym i alluogi ei ymateb i risgiau newydd, bygythiadau newydd, a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio.
- 2.6 Mae plismona bro yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith o gyflawni gweithredol ac mae "Cynllun Plismona Bro ac Atal" newydd wedi'i ddatblygu gan yr heddlu. Mae Timau Atal Plismona Bro yn ymdrechu i ddeall a lleddfu pryderon ein cymunedau, gan weithio'n ddiflino i fagu hyder y cyhoedd. Byddant yn parhau i ddatblygu a meithrin perthnasoedd i gefnogi cymunedau, er mwyn galluogi dull plismona a arweinir gan y gymuned. Drwy weithio'n agos gyda'n cymunedau, partneriaid a sefydliadau trydydd sector, byddant yn integreiddio ymgysylltiad cymunedol â'r model gweithredu plismona bro ac atal trwy sicrhau canolbwyntio ar y cyd ar ddatrys problemau, atal ac ymyrraeth gynnar i ddod â chyfreithlondeb a hyder gwell i gymunedau Dyfed-Powys. Bydd y timau bro yn annog ymgysylltu ag unigolion a chymunedau trwy blismona gweladwy rheolaidd a chyfleoedd ymgysylltu i'w helpu i nodi a blaenoriaethu'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn yr ardal leol.
- 2.7 Er mwyn bodloni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddau newydd y Comisiynydd, mae'r Prif Gwnstabl, ar ôl ymgynghori â'r holl uwch-reolwyr, wedi nodi nifer o flaenoriaethau cyflenwol. Mae'r heddlu yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau cyflawni manwl ymhellach.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### Llun 1: Blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys



- 2.8 Mae'r Swyddfa Gartref a phrif swyddogion yr heddlu yn canolbwyntio ac yn craffu'n barhaus ar berfformiad yr heddlu. Mae'r gwaith hwn yn mesur y cynnydd a'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ar draws Dyfed-Powys. Mae craffu ar berfformiad ar lefel heddlu a chyflwyno 'dangosfyrddau perfformiad gweithredol' yn rhoi data cywir, dibynadwy ac ystyrlon i swyddogion, goruchwylwyr a rheolwyr sydd nid yn unig yn cynorthwyo ac yn cefnogi swyddogion, ond sydd hefyd yn dangos sut mae perfformiad lleol yn cyfrannu ac yn effeithio ar gyflawni blaenoriaethau ac amcanion eang heddluoedd.
- 2.9 Roedd yn bwysig ystyried rôl blismona yng nghyd-destun y 'gwasanaeth pan fetho popeth arall' mewn perthynas â'r dirwedd bartneriaeth, yn enwedig ar adeg o straen ariannol difrifol. I'r perwyl hwn, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar lefel genedlaethol mewn perthynas â Gofal Cywir Unigolyn Cywir. Mae Gofal Cywir Unigolyn Cywir yn golygu bod yr heddlu'n gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'r asiantaeth fwyaf priodol i roi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i bobl fregus. Er bod rhai digwyddiadau iechyd meddwl

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

yn gofyn am bresenoldeb yr heddlu, mae nifer sylweddol nad ydynt yn cynnwys unrhyw risg diogelwch neu drosedd. Bydd y dull newydd yn golygu y gall yr heddlu ganolbwyntio ar fynychu digwyddiadau iechyd lle mae risg diogelwch sylweddol neu drosedd yn cael ei chyflawni ac atgyfeirio eraill at yr asiantaeth bartner briodol. Mae amcangyfrifon yn dangos y gallai gweithredu egwyddorion Gofal Cywir Unigolyn Cywir arbed tua miliwn o oriau swyddogion heddlu bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr.

2.10 Mae Cylch Cynllunio a Sicrwydd Strategol gwell wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith, gan gydnabod pwysigrwydd a chymhlethdodau'r agweddau sefydliadol niferus sy'n rhyngweithio. Bydd hyn yn sicrhau llif parhaus o wybodaeth i gefnogi dyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau. Mae canlyniadau asesiadau mewnol ac allanol yn bwydo i'r broses hon i ddarparu cyfeiriad clir mewn perthynas â blaenoriaethau.

2.11 Mae'r diagram isod yn ceisio cynrychioli hyn:

### Llun 2: Proses Cynllunio a Sicrwydd Newydd



2.12 Cyflwynwyd Datganiad Rheoli diweddaraf yr Heddlu ym mis Mai 2024. Mae'r heddlu wedi cael adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICRS) am gael 'Datganiad Rheoli'r Heddlu cryf iawn' a'i fod wedi'i raddio'n rhagorol neu'n dda ar gyfer pob maes ond un (cam 3), a oedd yn ddigonol. Bydd Datganiad Rheoli nesaf yr Heddlu yn cael ei gyflwyno erbyn mis Mai 2025, bydd HMICRS yn defnyddio hwn i lywio eu harchwiliad o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb heddluoedd, llywio eu harolygiadau thematig ac i ategu eu gwaith o fonitro perfformiad heddluoedd.

2.13 Mae'r broses newydd a chanfyddiadau Datganiad Rheoli'r Heddlu mis Mai wedi'u defnyddio'n helaeth i nodi a blaenoriaethu heriau a chyfleoedd cyllidebol fel rhan o broses pennu cyllideb 2025/6 a'r CATC.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

2.14 Cyhoeddodd HMICFRS ei asesiad PEEL diweddaraf ym mis Tachwedd 2023. Er cydnabuwyd sawl agwedd gadarnhaol, mae nifer o feysydd lle mae angen gwelliannau. Mae gwaith sylweddol wedi bod yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, gyda buddsoddiad cynlluniedig cysylltiedig i hybu'r broses o ddarparu gwasanaethau, cyn rhaglen arolygu PEEL nesaf HMICFRS ar gyfer 2025-27.

**Tabl 3 – Aseiad HMICFRS 2023-25**

Cwestiwn Craidd Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF	Gradd
Pwerau'r heddlu a thrin y cyhoedd yn deg ac yn barchus	Digonol
Atal a rhwystro trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau bregusrwydd	Digonol
Ymateb i'r cyhoedd	Digonol
Ymchwilio i droseddau	Digonol
Diogelu pobl fregus	Angen gwelliant
Rheoli troseddwyd a phobl a ddrwgdybir	Digonol
Adeiladu, cefnogi ac amddiffyn y gweithlu	Angen gwelliant
Arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu	Digonol

2.15 Mewn perthynas ag agweddau ar reolaeth ariannol, roedd yn braf gweld bod HMICFRS wedi nodi bod "yr heddlu yn defnyddio data yn effeithiol i ddeall ei gyllid: Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio data yn effeithiol i reoli a deall ei gyllid. Mae hyn yn sicrhau bod yr heddlu yn deall gwir gost ei adnoddau a lefel y cyllid sydd ar gael. Mae ganddo ddull disgybledig o ddefnyddio cyllid yn effeithiol a chefnogi'r timau rheoli ehangach i wneud arbedion." Canfuwyd hefyd bod "cynlluniau ariannol yr heddlu, gan gynnwys ei raglen fuddsoddi, yn fforddiadwy ac y byddant yn helpu'r heddlu i barhau i fodloni gofynion y dyfodol. Mae'r heddlu yn dangos rheolaeth ariannol effeithiol. Mae'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael iddo, ac mae ei gynlluniau ariannol yn uchelgeisiol ac yn gynaliadwy."

2.16 Ar ôl cydnabod y dirwedd ariannol heriol, cychwynnodd y Prif Gwnstabl ar Raglen Adolygu'r Heddlu yn ystod 2022. Mae tîm y prosiect yn parhau i adolygu a gweithredu arfer gorau a gwell darpariaeth gwasanaeth. Y ffocws ar gyfer ail flyddyn Rhaglen Adolygu'r Heddlu fu:

- Alinio swyddogion plismona'r ffyrdd i dimau ymateb mewn lifrai yr heddlu (cynnydd o 24% yn y gallu ymateb pan fydd pawb ar gael).
- Mwy o oruchwyliaeth yn Llanelli a'r Drenewydd gyda phum rhingyll ychwanegol ar gyfer pob gorsaf o'r strwythurau presennol.
- Cyflwyno Uned Ymateb Rithwir Cam-drin Domestig ar draws ardal yr heddlu (saith diwrnod yr wythnos) i leihau'r galw ar dimau ymateb yr heddlu ac ar yr un pryd yn darparu gwasanaeth gwell i ddiodefwr cam-drin domestig yn y sefydliad presennol.
- Creu swydd Uwch-arolygydd Atal o'r tu mewn i'r sefydliad presennol i

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

leihau'r galw ar adnoddau.

- Cyflwyno model gweithredu hollalluog newydd a chynyddu adnoddau o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a fydd yn gwella perfformiad, gwella hygyrchedd ac amseroldeb ateb galwadau.
- Cyflwyno cam un (teleffoni a radios) System Rheoli Cyswllt *flaengar* o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu a fydd yn lleihau'r galw ac yn cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai sy'n gofyn am wasanaethau plismona. Bydd cam dau yn cyflwyno meddalwedd Rheoli Perthynas Cwsmeriaid newydd i wella profiad defnyddwyr, gwella asesiadau risg a darparu gwell hygyrchedd digidol.
- Cyflwyno prosesau AD diwygiedig i helpu i leoli swyddogion/staff sydd â dyletswyddau cyfyngedig yn unol ag anghenion y sefydliad.
- Gwell dealltwriaeth AD o'r sefydliad a 'diwylliant penderfynnu' ynghylch adnoddau.
- Parhau i fuddsoddi yng ngwasanaeth ysgolion yr heddlu o 14 o gwnstabiadaid cyfwerth ag amser llawn.
- Cyflwyno cam un a dau (o bump) y rhaglen Gofal Cywir Unigolyn Cywir sy'n sicrhau bod y rhai sy'n gofyn am gymorth yn ei gael gan yr asiantaeth fwyaf priodol. Mae hyn yn lleihau camgyfeirio.
- Cyflwynwyd y cyntaf o bedwar algorithm brysbennu troseddau (offeryn E-Bit) sy'n nodi troseddau nad oes modd eu datrys. Mae adolygiad un mis ar ôl gweithredu yn dangos gostyngiad o 6.3% yng nghyfanswm yr ymchwiliadau ac mae'n gwella prydlondeb darparu diweddariadau i ddioddefwyr.
- Dull gwell o ymdrin â thimau plismona bro ac atal er mwyn sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n fwy effeithiol yn unol â 'saith piler' plismona bro.

2.17 Bydd cam nesaf Rhaglen Adolygu'r Heddlu yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Model plismona gweithredol uwch

*"Mae hyn yn ceisio adolygu ein Strwythur Uwch Arwain Gweithredol (Prif Arolygydd ac uwch) i wella rheoli ein perfformiad, sefydlu meysydd atebolrwydd clir, gwella sgiliau busnes sefydliadol a lleihau tensiynau adnoddau i alluogi llif mwy rhydd o adnoddau yn seiliedig ar angen gweithredol."*

- Rotâu a goruchwyliaeth

*"Mae'r gwaith hwn yn adolygu patrymau dyletswydd swyddogion heddlu o fewn gwasanaethau ymateb, dalfa, Uned Ymchwilio Leol a'r Adran Ymchwilio i Droseddau 'prif swyddfa' ynghyd â'r modelau goruchwyllo ar gyfer pob un."*

- Dull Ymchwilio

*"Bydd y ffrwd waith hon yn adolygu trefniadau llywodraethu, dyrannu troseddau, hyfforddiant, sgiliau a phrosesau ymchwilio."*

- Cofnodi troseddau



## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

"Yn dilyn penderfyniad ar y cyd gan uwch arweinwyr ym mis Mehefin 2023, cafodd yr angen i wella amseroldeb Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau chydymffurfio â Chywirdeb Data Trosedd ei nodi a'i flaenoriaethu. Mae'r ffrwd waith hon yn ceisio cofnodi troseddau ar y pwynt cyswllt 'agosaf', a fydd yn helpu i fynd i'r afael â heriau Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau a Chywirdeb Data Trosedd tra'n gwella gwasanaethau i ddioddefwyr."

- Uned Rheoli Adnoddau


"Bydd y ffrwd waith hon yn adolygu'r prosesau sy'n ymwneud â chynllunio rotâu, dyrannu, rheoli adnoddau o ddydd i ddydd, gwyliau blynyddol, darparu adnoddau ar gyfer digwyddiadau dirybudda darparu hyfforddiant wedi'i amserlennu."

Bwriedir rhoi'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau ar waith fesul cam yn ystod 2025 drwy ddefnyddio adnoddau a geir drwy symud staff neu swyddogion yn fewnol ar sail hunangyllidol.

### 3 Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannu a Phraesept yr Heddlu

3.1 Mae heriau ariannol sy'n effeithio ar yr heddlu wedi'u dogfennu'n dda, ac mae'r graff a ganlyn yn nodi cyd-destun cyllid grant ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 (CSR2010):

#### Graff 1: Gostyngiadau Grant Canolog




3.2 Mae'r grantiau cyffredinol a ddyrannwyd i'r heddlu yn 2024/5 ond 1.5% yn fwy

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

ar sail arian parod na'r rhai a ddyfarnwyd yn 2020/11. Cyflwynodd y gostyngiad termau real hyd yn oed fwy o heriau gyda chynnydd chwyddiannol yn gorfod cael ei wrthbwyso gan gynlluniau effeithlonrwydd/arbedion cynhwysfawr a gostyngiadau mewn perthynas â'r tirwedd o newid a chymhlethdod cynyddol y galw am wasanaethau plismona. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y cynnydd yng nghyllid yr heddlu dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod i gefnogi rhaglen cynyddu'r heddlu sydd wedi dod â disgwyliadau, targedau a gofynion clir iawn ar gyfer recriwtio swyddogion heddlu.

- 3.3 Mae'r graff canlynol yn dangos sut mae cyfran yr incwm y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei dderbyn o ffynonellau canolog o'i gymharu â ffynonellau lleol, wedi newid dros amser:

**Graff 2: Cyfran o Braesept y Dreth Gyngor i Gyllid Llywodraeth Ganolog %**



- 3.4 Yn hanesyddol, cyllid llywodraeth ganolog a ddarparodd y mwyafrif helaeth o gyllid Heddlu Dyfed-Powys, ond mae'r gyfran a dderbyniwyd o grantiau craidd wedi gostwng yn sylweddol dros amser. Mae canran y cyllid sy'n cael ei dalu drwy drethi lleol wedi codi'n sylweddol dros amser. Mae'r rhaniad cyfrannol neu'r trywydd 'gerio' yn debygol o barhau i gynyddu, wrth i'r trethdalwr lleol ysgwyddo mwy o faich ariannu'r heddlu. Mae hefyd yn bwysig nodi eto bod y cynnydd mewn grantiau craidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod i gefnogi rhaglen Uplift yr heddlu a chynnydd mewn pensiynau ac nad ydynt wedi cwrdd â'r amrywiaeth o feichiau chwyddiant a chostau eraill.


- 3.5 Mae cyfran y cyllid a godir drwy'r dreth gyngor yn amrywio'n sylweddol rhwng heddluoedd yn genedlaethol. Ar gyfer 2024/25, roedd praesept y dreth gyngor yn Northumbria yn cyfrif am 19.1% o gyfanswm eu cyllid, ac yna Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 20.4% a Glannau Mersi ar 22.9%. Ar y llaw arall, mae 54.5% o gyllid Surrey yn dod o braesept y dreth gyngor, ac yna Dyfed-Powys ar 52.4% a Gogledd Cymru ar 50.6%. Yn genedlaethol, mae 34.4% o gyllidebau plismona yn cael eu hariannu gan braesept y dreth gyngor leol. Mae heddluoedd Lloegr hefyd yn elwa ar grantiau Rhewi'r Dreth Gyngor/Grantiau

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

Cymorth sy'n amlwg yn effeithio ar lefelau praesept hanesyddol, sy'n golygu'n gyffredinol bod eu praeseptau yn is.


- 3.6 Mae'r graff canlynol yn dangos swm y cyllid y mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i dderbyn gan ffynonellau lleol a chanolog dros amser:

**Graff 3: Praesept y Dreth Gyngor i Gyllid Grant Canolog £**




- 3.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau praesept a chyllid grant craidd fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer ardal Dyfed-Powys sy'n parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Pe bai Dyfed-Powys yn cael ei hariannu ar y lefel gyfartalog ar gyfer Cymru, byddai hyn yn cyfateb i £15.1 miliwn ychwanegol:

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept



3.8 Mae trigolion yn ardal Dyfed-Powys wedi gweld y pedwerydd cynnydd ar bymtheg isaf ym mhraesept yr heddlu ar gyfer Band D ers 2012/13 ac mae'r tabl isod yn amlygu'r sefyllfa gymharol â'r heddluoedd tebycaf, a heddluoedd eraill Cymru. Dylid nodi bod heddluoedd Lloegr hefyd yn derbyn £507 miliwn mewn Grant Rhewi'r Dreth Gyngor/Grant Cymorth nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr isod:

**Graff 4: % Cynnydd Cenedlaethol Praesept Band D**



\*Oren – heddluoedd Cymru; \* Melyn - heddluoedd tebycaf

3.9 Mae trigolion yn ardal Dyfed-Powys yn parhau i fod â'r praesept heddlu isaf yng Nghymru. Pe bai lefel praesept Dyfed-Powys yn cael ei gosod ar gyfartaledd Cymru, byddai hyn yn cyfateb i £3.7 miliwn ychwanegol yn 2024/5.


## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

**Tabl 5:Lefelau Praesept Cymru**

Y dreth gyngor ar gyfer Band D (£)	2023/4	2024/5	%
Heddlu Dyfed-Powys	312.65	332.03	6.2
Heddlu Gwent	324.52	349.52	7.7
Heddlu Gogledd Cymru	333.09	349.65	5.0
Heddlu De Cymru	324.47	352.67	8.7
<b>Cymru</b>	<b>324.36</b>	<b>347.55</b>	<b>7.1</b>

3.10 Dangosir y newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn mewn lefelau praesept ar gyfer heddluoedd yng Nghymru yn y graff canlynol.


**Graff 5: % y newidiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y praesept ar draws Cymru**



3.11 Mae'r graff canlynol yn dangos y newid yn lefelau praesept ar gyfer heddluoedd Cymru ers 2012/13. Mae penderfyniad blaenorol y Comisiynydd Heddlu a Throseddau cyntaf i leihau'r praesept o 5% yn 2015/16 ac yna peidio â chynyddu yn 2016/17, wedi cael effaith ddramatig ar y trywydd cymharol fel y dangosir isod ac mae gwaddol y penderfyniadau hyn yn parhau i gael effaith:

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### Graff 6: Cynnydd mewn lefelau praesept ar draws Cymru



## 4 Sylfaen y Dreth Gyngor

4.1 Mae praesept yr heddlu, a godir drwy drethdalwyr lleol y dreth gyngor, yn cael ei ddyrannu i'r cynghorau bilio, yn seiliedig ar y sylfaeni treth perthnasol a hysbyswyd ganddynt. Cyfrifir y sylfaen dreth o nifer yr eiddo ym mhob ardal a ddyrennir i bob band eiddo gyda ffactorau ar gyfer deiliadaeth sengl, cartrefi gwag, premiymau ail gartrefi a thybiaethau ar gyfraddau casglu yng nghydestun ffactorau economaidd a datblygu. Mynegir y sylfaen drethu fel swm cyfatebol "Band D" fel a ganlyn:

**Tabl 6: Lefelau Sylfaen Drethu**

	23/24	24/25	25/26	%
Powys	64,256.51	64,536.48	64,771.66	0.4%
Sir Gaerfyrddin	75,071.95	76,460.40	77,243.48	1.0%
Ceredigion	32,767.99	33,768.51	34,421.81	1.9%
Sir Benfro	59,851.19	64,261.61	63,013.04	-1.9%
	<b>231,947.64</b>	<b>239,027.00</b>	<b>239,449.99</b>	<b>0.2%</b>
	0.8%	3.1%	0.2%	

4.2 Ychwanegir praesept yr heddlu at y symiau a gesglir gan awdurdodau unedol ac mae'n ffurfio rhan o filiau galw am dalu'r dreth gyngor cyffredinol.

4.3 O dan y rheoliadau, rhaid i'r awdurdod bilio bennu rhestr o randaliadau ar gyfer taliadau i awdurdodau praeseptio. Y cytundeb yw y bydd yr awdurdodau unedol yn talu'r heddlu mewn 12 rhandaliad ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis neu cyn y diwrnod hwnnw.

4.4 Dylid nodi hefyd, wrth gyhoeddi setliad yr heddlu, bod Llywodraeth y DU yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch y newidiadau i'r sylfaen drethu, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

gyfer Cymru, rhagdybiwyd cynnydd o 0.5% gyda 0.8% yn cael ei ragdybio ar gyfer Lloegr.

- 4.5 Mae'r cynnydd gwirioneddol ar gyfer Dyfed-Powys ar gyfer 2025/26 yn is, ar 0.2% y flwyddyn nesaf yn bennaf oherwydd gostyngiad o 1.9% yn y sylfaen drethu ar gyfer Sir Benfro sy'n gwrthdroi rhan o'r cynnydd sylweddol a brofwyd yn 2024/5 mewn perthynas â phenderfyniadau ar y premiwm ar gyfer ail gartrefi. Dylid nodi bod newidiadau ym mhroffil ail gartrefi ac eiddo gwag yn parhau i achosi ansicrwydd ar lefelau ariannu yn y dyfodol.

## 5 Tirwedd Economaidd a Datganiad yr Hydref 2024

- 5.1 Mae adran hon yr adroddiad yn nodi'r dirwedd economaidd ac mae'n seiliedig ar Adroddiad Datganiad yr Hydref 2024 y canghellor.
- 5.2 Mae penderfyniadau'r llywodraeth yng Nghyllideb yr Hydref 2024 yn ceisio hybu buddsoddiad a sbarduno lefel uwch o allbwn yn y tymor hir. Mae'r mesurau yn y gyllideb yn rhan o genhadaeth twf ehangach y DU, a ategir gan saith piler:

### Llun 4: Cenhadaeth Twf y DU – Saith Colofn



- 5.3 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd yr economi'n tyfu 1.1% yn 2024, cyn cynyddu i 2.0% ac 1.8% yn 2025 a 2026. Yna mae twf yn dychwelyd i tua amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'i gyfradd bosibl, sef 1.5%, 1.5% ac 1.6% dros 2027, 2028 a 2029 yn y drefn honno.
- 5.4 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r farn bod polisiau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2024 yn hybu allbwn yn y tymor byr ac mae'n disgwyl i'r pecyn cyfan gael effaith gadarnhaol net mewn allbwn posibl y tu hwnt i'r gorwel a ragwelir.
- 5.5 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i chwyddiant blynyddol mynegai prisiau defnyddwyr aros yn agos at y targed o 2% drwy gydol y cyfnod

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

a ragwelir. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld chwyddiant i 2.5% ar gyfartaledd yn 2024, cyn cynyddu i 2.6% yn 2025. Disgwylir iddo ddisgyn tuag at y targed ar draws tair blynedd olaf rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Gan adlewyrchu effaith polisi ar chwyddiant a galw, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi addasu ei lwybr tybiedig ar gyfer cyfradd banc, gan arwain at ostyngiad arafach mewn cyfraddau llog o gymharu â'r rhagolwg.

- 5.6 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd buddsoddiad busnes yn cyrraedd 10% o'r cynnyrch domestig gros (CDG) yn 2029, i fyny o 9.7% o'r CDGyn 2023 yn yr ystadegau CDG diweddaraf. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r farn y bydd pecyn y gyllideb yn mewnwrthio buddsoddiad preifat (trwy fuddsoddiad cyhoeddus cynyddol ac allwthio buddsoddiad preifat), wrth i wariant uwch y llywodraeth gael ei wrthbwysu yn y tymor byr gan weithgarwch sector preifat is.
- 5.7 Rhagwelir y bydd y gyfradd ddiweithdra yn 4.3% ar gyfartaledd yn 2024, sef cynnydd bach ar 2023, cyn aros yn agos at 4.0%. Disgwylir i'r gyfradd cyflogaeth (ar gyfer rhai 16 oed a hŷn) aros yn agos at 60% dros y rhagolwg.
- 5.8 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i ran o'r costau ychwanegol o godi cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr gael ei drosglwyddo i gyflogau real is, a fyddai'n lleihau'r cyflenwad llafur, ac yn rhannol i elw is.
- 5.9 Rhagwelir y bydd incwm gwario gwirioneddol aelwydydd (RHDI) y pen, sef mesur o safonau byw, yn cynyddu 1.4% yn 2024-25 ac 1.1% yn 2025-26 ac nid oes disgwyl bellach iddo ddirywio yn y tymor agos. Mae RHDI y pen yn cynyddu 2.1% dros gyfnod y rhagolwg. Dim ond incwm cartref net o drethi a budd-daliadau y mae RHDI yn ei gasglu ac felly nid yw'n adlewyrchu'r buddion i aelwydydd o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus. Disgwylir i CDG y pen, sef mesur amgen o safonau byw sy'n dal gwariant uwch ar wasanaethau cyhoeddus, dyfu'n gyflymach na RHDI y pen, gan godi 5.9% rhwng 2024-25 a 2029-30.
- 5.10 Mae datblygiadau byd-eang yn parhau i bwysu ar y rhagolygon ar gyfer twf a chwyddiant. Mae'r rhyfel yn Wcráin a'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol yn peri risgiau i'r DU ac economïau byd-eang. Gallai unrhyw gynnydd materol sy'n tarfu ymhellach ar fasnach ynni a nwyddau gyfrannu at brisiau olew uwch a chostau cludo uwch.
- 5.11 Gyda'i gilydd, mae'r mesurau yng Nghyllideb yr Hydref 2024 yn ceisio gosod sylfeini'r economi a rhoi hwb parhaol i allbwn economaidd yn y tymor hwy. Byddai cyllid cyhoeddus cynaliadwy yn cyfrannu at amgylchedd busnes mwy sefydlog, gan gefnogi busnesau a chartrefi i wneud penderfyniadau hirdymor, gan hybu buddsoddiad ac allbwn. Er bod rhai o'r penderfyniadau a wneir yn y digwyddiad hwn yn effeithio ar chwyddiant ac allbwn o fewn y rhagolwg pum mlynedd, mae'r llywodraeth wedi blaenoriaethu buddsoddiadau a fydd yn talu ar ei ganfed yn y tymor hir.
- 5.12 Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn gostwng o leiaf bedair gwaith, gan ysgogi gweithgarwch economaidd o bosibl. Fodd bynnag, mae chwyddiant yn parhau i fod yn bryder, gyda rhagamcanion yn nodi cynnydd i 3% yn gynnar yn 2025 cyn cymedrolí'n raddol i darged y llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd polisi ariannol Banc Lloegr yn chwarae rhan hanfodol wrth reoli chwyddiant a chefnogi sefydlogrwydd economaidd.



## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

- 5.13 Er gwaethaf uchelgeisiau cadarnhaol, mae'r DU yn parhau i fynd i'r afael â heriau economaidd parhaus. Yn 2024, profodd y DU gyfnodau byr o dwf a chwyddiant is na'r targed, ond bu'r rhain yn fyrhoedlog. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol sero twf CDG yn y trydydd chwarter, sy'n arwydd o farweidd-dra parhaus. Ychydig iawn o dwf a welwyd yng CDG y DU ers gwanwyn 2022, ac mae ei CDG y pen yn parhau i fod yn is na'r lefelau cynbandemig. Er bod rhai busnesau yn parhau i fod yn optimistaidd, dim ond twf cymedrol y mae economegwyr yn ei ragweld yn 2025.
- 5.14 I grynhoi, nodweddir economi'r DU yn gynnar yn 2025 gan optimistiaeth ofalus, gyda rhagolygon twf yn cael eu lleddfu gan chwyddiant parhaus ac ansicrwydd economaidd byd-eang. Mae mentrau'r llywodraeth ac optimistiaeth busnes yn darparu sylfaen ar gyfer adferiad posibl, ond bydd llywio heriau domestig a rhyngwladol yn ofalus yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd economaidd parhaus.

## **6 Setliad Ariannu'r Heddlu 2025/26 a'r Cyd-destun Cenedlaethol**

- 6.1 Cyhoeddwyd setliad dros dro 2025/26 ar 17 Rhagfyr 2024 mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Troseddau a Thân, y Fonesig Diana Johnson. Ceir manylion llawn y setliad ar wefan y Swyddfa Gartref. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd wybodaeth ar gyfer heddluoedd Cymru ar eu gwefan.
- 6.2 Dywedodd y Gweinidog "Heddiw, mae'r Llywodraeth wedi gosod y setliad ariannu dros dro i'r heddlu yn y Senedd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi, ar gyfer 2025-26, y bydd cyfanswm y cyllid i heddluoedd yn £17.4 biliwn, cynnydd o hyd at £986.9 miliwn o gymharu â chyllid heddlu 2024-25 – cynnydd sylweddol, a mwy na'r cynnydd a osodwyd ar gyfer 2024-25. Mae'r setliad hwn yn cynrychioli cynnydd mewn termau real yng nghyllid yr heddlu o 3.5%, a chynnydd arian parod o 6.0%. Bydd y cyllid ychwanegol a gadarnhawyd drwy'r setliad hwn yn talu costau dyfarniadau cyflog swyddogion heddlu ac yn ariannu'r gwaith o recriwtio ac adleoli mwy o heddlu bro a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu."
- 6.3 "Bydd y cyllid cyffredinol ar gyfer y system blismona yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys i heddluoedd a chyllid y system ehangach, hyd at £19.5 biliwn, sef cynnydd o hyd at £1.0 biliwn o'i gymharu â setliad cyllid 2024-25, sy'n cynrychioli cynnydd ariannol gwirioneddol o 3.0% a chynnydd arian parod o 5.5%. Mae'r buddsoddiadau a gyhoeddwyd heddiw yn ychwanegol at y ddarpariaeth o gyllid untro o £175.0 miliwn a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf i gefnogi costau dyfarniad cyflog 2024-25. Gyda'i gilydd mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y llywodraeth hon i adfer hyder mewn plismona a hybu plismona bro, trwy ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i fuddsoddi yn eu gweithlu rheng flaen".
- 6.4 "O'r £986.9 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer heddluoedd, gallaf gadarnhau bod £657.1 miliwn o hyn yn gynydd i grantiau'r llywodraeth, sy'n cynnwys cynnydd yn y grantiau craidd o £339.0 miliwn i sicrhau bod gan heddluoedd yr adnoddau llawn i gyflawni ein Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel. Mae hyn hefyd yn cynnwys £230.3 miliwn i ddigolledu heddluoedd tiriogaethol am gostau'r newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr o 2025-26, a £100.0

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

miliwn ychwanegol i roi hwb i'r cam cyntaf o 13,000 o swyddogion heddlu ychwanegol, SCCHau a chwnstabiiaid gwirfoddol i'r rolau plismona bro. Bydd hyn yn rhoi'r cyllid sydd ei angen ar blismona i fynd i'r afael â throseddau ac i gadw cymunedau'n ddiogel".

- 6.5 "Heddiw, mae'r llywodraeth hon wedi cadarnhau cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer heddluoedd. Yn gyfnewid am hyn, rydym yn disgwyl i heddluoedd godi eu huchelgais o ran effeithlonrwydd a sbarduno gwelliannau i gynhyrchiant wrth ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth i greu strydoedd mwy diogel. Er mwyn galluogi hyn, rydym wedi lansio'r Rhaglen Effeithlonrwydd Masnachol a Chydweithio a fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar brynu a fframweithiau cenedlaethol ac adennill costau. Rydym yn benderfynol o weithio gyda phlismona i wneud y mwyaf o botensial cynhyrchiant ac arloesi, gan sicrhau bod gan swyddogion yr offer sydd eu hangen arnynt i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac i gyflawni ein cenhadaeth".

"Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae ffocws ar gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth, fel y nodir yng Nghynllun y Prif Weinidog ar gyfer Newid:

- Cynyddu nifer y swyddogion, SCCHau a chwnstabiiaid gwirfoddol mewn timau plismona cymdogaeth;
- Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched;
- Lleihau troseddau cyllyll;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- A thrwy wneud y pethau hyn, magu hyder y cyhoedd mewn plismona".

- 6.6 "Yn 2025-26, bydd y Llywodraeth yn dyrannu £376.8 miliwn i gefnogi heddluoedd i gynnal niferoedd swyddogion. Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwmo i gynyddu amlygrwydd plismona er mwyn amddiffyn ein cymunedau ac adfer hyder mewn plismona. Er mwyn cefnogi cyflawni ein cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, ein blaenoriaeth yw cynyddu rolau plismona bro".

- 6.7 Yn Lloegr, mae'r llywodraeth yn pennu lefel y cynnydd yn y praesept y mae angen refferendwm uwchlaw hynny. Ar gyfer 2025/26 gosodwyd hyn ar £14. Gallai hyn gynhyrchu hyd at £329.8 miliwn o gyllid ychwanegol sydd ar gael i heddluoedd o gymharu â 2024-25.

- 6.8 Yn 2025/26, gostyngodd ailddyraniadau ac addasiadau o £946.1 miliwn yn 2024/5 i £914.3 miliwn yn 2025/6. Yn ogystal, mae nifer o raglenni eraill gan gynnwys Rhaglenni Gallu Cenedlaethol yn wynebu gostyngiadau sylweddol mewn cyllid gyda chanlyniadau anhysbys ar hyn o bryd o ran yr effaith ariannol neu weithredol ar yr heddlu.

**Tabl 7 Brigdoriad / Ailddyraniad yr Heddlu**

Brigdoriad yr heddlu	2024/25 £miliwn	2025/26 £miliwn
<b>Ailddyraniadau ac addasiadau</b>	<b>946.1</b>	<b>914.3</b>

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

Grant arbennig	34.0	49.0
Mentrau cyllid preifat	71.2	70.5
Rhaglenni technoleg yr heddlu	500.9	500.9
Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol	36.1	38.2
Rhaglenni galluoedd cenedlaethol	49.8	48.4
Trais difrifol	45.6	49.7
Galluoedd plismona cenedlaethol	49.8	3.0
Cyffuriau/ llinellau cyffuriau	30.0	30.0
Ailddyrannu cyfalaf	128.7	123.1
Awyrennau'r Heddlu	0.0	1.5

- 6.9 Mae grantiau Cymynrodd y Dreth Gyngor a grant praesept Dinas Llundain o £552.4m yn ymwneud â dyraniadau Rhewi'r Dreth Gyngor yn dyddio o 2011/12, 2013/14, 2014/15 a 2015/16 yn ogystal â Chymorth y Dreth Gyngor Lleol ar gyfer cyllid ar gyfer ardaloedd heddluoedd Lloegr, yn parhau i fod yn adnabyddadwy ar wahân yn 2025/26.
- 6.10 Mae cyfanswm Cyllid Cyfalaf yr Heddlu bellach yn werth £123.1 miliwn, gostyngiad o 1.3% o £124.7 miliwn y llynedd. Nid yw dyraniadau grant cyllid cyfalaf i ardaloedd yr heddlu yn bodoli mwyach.

**Tabl 8 – Dyraniadau Grant Cyfalaf Cenedlaethol yr Heddlu**

Grant cyfalaf	2024/5	2025/6
	£miliwn	£miliwn
Rhaglenni technoleg yr heddlu	111.6	111.6
Awyrennau'r Heddlu	13.1	11.5
<b>Cyfanswm</b>	<b>124.7</b>	<b>123.1</b>

- 6.11 Mae'r setliad yn cynnal dyraniad o £2.4 miliwn i helpu i fynd i'r afael â chyfraniad ardoll Yswiriant Gwladol prentisiaeth Cymru o 0.5%. Bydd Dyfed-Powys yn derbyn £0.364 miliwn fel grant yn 2025/26. Mae deialog yn parhau i geisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr, gyda'r Swyddfa Gartref yn nodi efallai nad dyma'r datrysiad terfynol i'r mater hwn.
- 6.12 Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, mae setliad 2025/26 wedi'i amlinellu yn y tabl isod:

**Tabl 9: Cyfanswm y Cyllid ar gyfer 2025/6**

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnyg Praesept

Elfen Ariannu	Setliad Gwreiddiol 2024/5	Dyfarniad Cyflog Ychwanegol Dyraniad 2024/5	Setliad Diwygiedig 2024/5	Setliad Dros Dro 2025/6	Newid o'r Gwreiddiol Setliad 2024/5	
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn	%
Grant Craidd	64.538	1.160	65.698	66.938	+2.400	3.7
Cynnydd Gweithredol	3.490	0.0	3.490	3.006	-0.484	
Grant Pensiwn	4.067	0.0	4.067	3.731	-0.336	
<b>Cyfanswm Grantiau Sylfaenol</b>	<b>72.095</b>	<b>1.160</b>	<b>73.255</b>	<b>73.675</b>	<b>+1.580</b>	<b>2.2</b>
Yswiriant Gwladol	0.0	0.0	0.0	2.130	+2.130	
Grant Gwarant Plismona Bro	0.0	0.0	0.0	1.417	+1.417	
<b>Cyfanswm Grantiau Newydd</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>3.547</b>	<b>3.547</b>	
<b>Cyfanswm cynnydd sylfaenol</b>	<b>72.095</b>	<b>1.160</b>	<b>73.255</b>	<b>77.222</b>	<b>5.127</b>	<b>7.1</b>

- 6.13 Er gwaethaf y cynnydd sylfaenol o 6.1% yn yr holl grantiau a chynnydd o 3.7% mewn grantiau craidd, mae'r cynnydd sylfaenol o ystyried yr holl grantiau craidd dim ond yn gynydd o 2.2% o lefel setliad gwreiddiol 2024/5.
- 6.14 Ymhellach, mae hyn yn ddim ond £420,000 neu 0.57 o un y cant yn uwch na'r dyraniad diwygiedig ar gyfer 2024/5 pan fydd y grant dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn o £1.16 miliwn wedi'i ymgorffori yn y llinell sylfaen. Mae hyn yn amlwg yn llai na'r hyn sydd ei angen i ariannu'r pwysau costau cyllidebol sylfaenol anochel ar gyfer 2025/6 fel yr amlinellir yn adran 10.

## 7 Capio'r Dreth Gyngor/Refferendwm – Cymru yn erbyn Lloegr

- 7.1 Roedd ffigurau sylfaenol cynnydd setliad dros dro 2025/26 yn ymgorffori hyblygrwydd praesept y dreth gyngor o £14, heb fod angen galw am refferendwm lleol.
- 7.2 O dan ddatganoli, y trefniadau ar gyfer Cymru yw bod y pŵer i bennu lefelau capio ar y dreth gyngor yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.
- 7.3 Mae dau fath o gapio -- dynodiad ac enwebiad. Gall Llywodraeth Cymru ddynodi neu enwebu awdurdod ar gyfer capio ei braesept, os yw ei gofyniad cyllidebol yn ormodol yn eu barn hwy.
- Mae dynodiad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod leihau ei ofyniad cyllidebol ac ail-filio trethdalwyr cyngor ar draul yr heddlu (drwy'r awdurdodau unedol).
  - Mae enwebu i bob pwrpas yn rhoi rhybudd i awdurdod y bydd y llywodraeth yn pennu terfyn cyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r meini prawf (yr egwyddorion) ar gyfer capio ar gyfer pob awdurdod lleol a heddlu yng Nghymru. Rhaid i'r egwyddorion gynnwys cymhariaeth rhwng y gofyniad cyllidebol a gyfrifwyd â'r hyn a gyfrifwyd ar gyfer blwyddyn ariannol flaenorol. Mae gweinidogion yn rhydd i gynnwys yn yr egwyddorion unrhyw faterion eraill y maent yn eu hystyried yn berthnasol.
- 7.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cynnal cyfathrebiadau effeithiol â gweinidogion a Llywodraeth Cymru drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Mae parhau i gryfhau perthynas Uned Gyswllt yr Heddlu wedi rhoi cyfle

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

gwerthfawr ac ychwanegol i dynnu sylw at y pwysau ariannol a'r gofynion gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yng Nghymru yn eu hwynebu.

- 7.5 Mater i gomisiynwyr sy'n atebol yn lleol yw ymgynghori a gwneud penderfyniadau ar braesept lleol, gan esbonio i'w hetholwyr sut y bydd buddsoddiad ychwanegol yn helpu i ddarparu gwell gwasanaeth heddlu.
- 7.6 Gan dybio bod pob CHTh yn cynyddu eu praesept gan yr uchafswm a ganiateir, sef £14, ynghyd â thymbiaethau twf sylfaen treth o 0.8% ar gyfer Lloegr a 0.5% ar gyfer Cymru, byddai hyn yn darparu £329.8 miliwn ychwanegol o adnoddau ar gyfer plismona gan drethdalwyr cyngor.
- 7.7 Oherwydd gwahaniaethau hanesyddol yn y dreth gyngor, gall y gyfran y mae £14 yn ei chynrychioli amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd heddluoedd. Mae'r cynnydd o £14 yn golygu bod cynnydd canrannol Northumbria yn 7.7% ac yna Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 6.5% ac Essex a Gorllewin Swydd Efrog ar 5.7% a 5.6% yn y drefn honno. I'r gwrthwyneb, mae £14 yn cynrychioli cynnydd o 4.0% ar gyfer Gogledd Cymru, Gwent a De Cymru a 4.2% ar gyfer Dyfed-Powys. Mae effaith Grantiau Rhewi'r Dreth Gyngor/Grantiau Cymorth yn Lloegr yn amlwg wedi effeithio ar lefelau praesept hanesyddol, sy'n golygu'n gyffredinol bod eu praeseptau yn is.
- 7.8 Mae'r gwahaniaethau cynhenid hyn mewn grantiau craidd hanesyddol a phenderfyniadau praesept lleol, yn golygu ei bod yn anodd iawn llunio cymariaethau ystyrlon rhwng ardaloedd heddluoedd yng Nghymru ond hefyd yn Lloegr.

## 8 Heddlu Dyfed-Powys – Cyd-destun Ariannol 2024/25

- 8.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r ystod o risgiau a chyfleoedd ariannol dros y tymor byr a chanolig, a gyflwynwyd i Banel yr Heddlu a Throseddau, y Cyd-bwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2024:

### Llun 3 – Mantolen Risg a Chyfle Ariannol

#### Financial Risk and Opportunity Balance Sheet

##### Risks

1. Reduced **Neighborhood Policing capacity** – PCSOs – 163FTE to 132 FTE
2. Significant **unavoidable increase in costs** (mainly National)– pay awards and employer's NI / new burdens
3. Major unavoidable % increases in ICT contractual costs in revenue budgets
4. **Capital investment needs / borrowing costs** - higher for longer
5. **Rural cost inflation** – Sexual Assault Referral Centre (Aberystwyth) provision and embedded custody healthcare – (Newtown)
6. **Officer / PCSOs FTE linked to Grants / Police Staff structure already revised**
7. **Trust and Confidence** linked to officer behavior / Staff and Officer wellbeing
8. **High Officer resignations** -uplift Grant / inexperience front line / response / RPU (Training Requirements)
9. **Unknown CSR Outcome Spring 2025**, and one-year settlements that affects planning / formula funding

##### Opportunities

1. **Baseline Budget holding up** current year and resilient - interest receipts / officer leavers
2. **Reserves and borrowing levels** – better picture than predicted
3. **Force Review** arrangements in place - Year 2 and 3 in progress – **productivity / performance gains**
4. **Innovation** leading to savings – technology and demand and a willing workforce / RPA / Artificial Intelligence
5. **Community Policing Guarantee** – Additional Officers plus PCSOs
6. Stable trajectory – **officer/staff recruitment**
7. HMICFRS / Force Management Statement/ Audit **recommendations being addressed**
8. **Sustainability and Premises Savings opportunities**
9. **Force Management Statement commended** by HMICFRS - Planning and Assurance Cycle

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

- 8.2 Mae llawer o'r risgiau a'r cyfleoedd hyn wedi dechrau dod i'r amlwg ac mae manylion pellach amdanynt yn yr adrannau a ganlyn, a bydd y canlyniadau ariannol yn cael sylw yn adran 10 ac yn cael eu cyfuno fel rhan o'r CATC ar gyfer 2025/26.
- 8.3 Mae'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn 2024/5 ar ddiwedd mis Rhagfyr yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn seiliedig ar y monitro presennol, rhagwelir tanwariant arfaethedig o £1 miliwn. Mae'r prif amrywiadau o ganlyniad i:
- Mwy o ymddiswyddiadau swyddogion heddlu na'r disgwyl a swyddi gwag ar gyfer staff heddlu.
  - Cynnydd mewn derbyniadau llog buddsoddi yn erbyn y gyllideb oherwydd llithriad cyfalaf a derbyn grantiau penodol yn gynt na'r disgwyl.
  - Costau gwasanaeth meddygol fforensig a chynnydd yn y ddarpariaeth i gwrdd â galw gweithredol.
  - Pwysau goramser oherwydd gweithgaredd gweithredol.
- 8.4 Unwaith eto, mae'r ffactorau sy'n cyfrif am y tanwariant yn 2024/5 wedi'u hadlewyrchu'n llawn yng nghyllideb 2025/6 a amlinellwyd yn fanwl yn adran 10 er enghraifft o ran rhagdybiaethau mwy o swyddi gwag ar gyfer staff yr heddlu, rhagdybiaethau mwy o swyddogion yn gadael swyddi a chyllideb uwch mewn perthynas ag incwm derbyniadau llog.


## **9 Cynllun Gweithlu**

- 9.1 Mae'r siart isod yn dangos y newidiadau yn y gweithlu ers 2010 ar gyfer swyddogion, staff a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau). Er bod y niferoedd hanesyddol yn gywir ac yn seiliedig ar ddatganiadau blynyddol gwirioneddol y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd, bydd y blynyddoedd i ddod yn cael eu heffeithio'n fawr gan ganllawiau'r Swyddfa Gartref a gofynion mewn perthynas â'r 13,000 o swyddogion ychwanegol sydd wedi'u haddo fel rhan o'r Warrant Plismona Bro. Roedd y setliad ar gyfer 2025/6 yn cynnwys £1.417 miliwn i ddechrau cyflawni hyn.
- 9.2 Tua 90 fyddai 'cyfran' yr heddlu swyddogion hyn yn seiliedig ar arferion dyrannu hanesyddol, a fyddai'n cynnwys cymysgedd o swyddogion heddlu wedi'u recriwtio, swyddogion wedi'u hadleoli drwy newidiadau i gymysgedd y gweithlu, cwnstabliaid gwirfoddol a SCCHau.
- 9.3 Er y credwyd yn wreiddiol y byddai'r Swyddfa Gartref yn pennu'r cymysgedd rhwng swyddogion heddlu, SCCHau, staff heddlu a chwnstabliaid gwirfoddol, deallir bellach y bydd gan yr heddlu hyblygrwydd i benderfynu ar hyn. Er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol y Swyddfa Gartref ac nad yw penderfyniadau'r heddlu wedi'u cwblhau eto, ar hyn o bryd, mae'r heddlu'n bwriadu cynyddu capasiti plismona bro gweithredol mewn lifrai o 33 cyfwerth ag amser llawn fel rhan o'r gyfran gyntaf o gyllid drwy gyflogi ymchwilwyr staff heddlu ychwanegol i gyflawni rolau ymchwilio pen desg a gyflawnir ar hyn o bryd gan swyddogion. Yn ogystal, mae'r gyllideb ar gyfer 2025/6 yn cynnwys 17 o swyddi ychwanegol i'w rhyddhau yn y modd hwn, a ariennir drwy arbedion a/neu braesept.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

- 9.4 Er enghraifft, mae'r tabl isod yn dangos bod y cynnydd yn y Warant Plismona Bro yn erbyn swyddi staff yr heddlu – a fyddai'n ymddangos fel y dull cyflymaf a mwyaf cost-effeithiol o wella plismona lleol a swyddogaethau gwasanaeth ymateb yr heddlu.

### Siart: Proffil gweithlu 2010 i 2030



\* Ar 31 Mawrth bob blwyddyn

- 9.5 Targed cynnal niferoedd y Swyddfa Gartref ar gyfer 2025/26 yw cyfanswm o 1,314. Mae'n bwysig nodi bod rheolau cyfrif gwahanol ar gyfer cyfrif cyfanswm swyddogion sy'n golygu bod ffigurau cyfwerth ag amser llawn yn amrywio. Mae'r Swyddfa Gartref yn archwilio lefelau swyddogion ddwywaith y flwyddyn ym mis Medi a mis Mawrth ac mae'r heddlu'n wynebu cosbau ariannol os nad yw lefelau swyddogion ar y targed ym mhob un o'r pwyntiau asesu hyn. Ar gyfer 2024/25, y cosbau oedd £40,000 fesul swyddog (hyd at 20 swyddog) a disgwylir iddynt aros ar y lefel hon ar gyfer 2025/26 er gwaethaf y gostyngiad yn y grant o £3.490 miliwn i £3.006 miliwn.
- 9.6 Fel enghraifft o allu presennol, mae'r tabl isod yn amlygu nifer y swyddogion sy'n dal i fod yn ar brawf.

### Amcangyfrif o Swyddogion Heddlu Myfyrwyr ar brawf.

	Swyddogion myfyrwyr ar brawf	Newid	Cyfanswm sefydliad swyddogion	% o'r cyfanswm Swyddogion
	FTE	FTE	FTE	

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

2022/3	206		1,230	<b>17%</b>
2023/4	245	39	1,294	<b>19%</b>
2024/5	213	-32	1,299	<b>16%</b>
2025/6	188	-25	1,299	<b>15%</b>
2026/7	175	-13	1,299	<b>14%</b>
2027/8	151	-24	1,299	<b>12%</b>
2028/9	149	-2	1,299	<b>11%</b>
2029/30	148	-1	1,299	<b>11%</b>

9.7 Mae nifer y swyddogion dan hyfforddiant wedi bod yn gostwng ers 2023/24 wrth i'r gofyniad i gynyddu swyddogion yn sylweddol oherwydd rhaglen Uplift y llywodraeth ddod i ben. Mae recriwtio a hyfforddi bellach wedi'u cynllunio ar gyfer y lefelau sydd eu hangen i gymryd lle nifer y swyddogion a rhagwelir y byddant yn gadael yr heddlu bob blwyddyn. Gyda'r heddlu'n symud i lwybr nad yw'n llwybr gradd Rhaglen Mynediad Cwnstabiliaid yr Heddlu newydd o fis Mawrth 2025 ymlaen, bydd cyfnodau prawf ar gyfer swyddogion yr heddlu yn gostwng o dair blynedd i ddwy flynedd gan leihau'r niferoedd mewn hyfforddiant ymhellach.

9.8 Fodd bynnag, bydd y galw am dimau recriwtio, iechyd galwedigaethol, fetio a hyfforddi yn parhau i gael ei effeithio'n fawr gan yr angen i gynnal niferoedd swyddogion mewn ymateb i'r ychwanegiad yn gysylltiedig â rhagamcan o 100 o swyddogion yn gadael yn ystod 2025/6 a gofynion Gwarant Plismona Bro ychwanegol a amlinellwyd uchod, a'r ffactorau canlynol hefyd:

#### **Ystyriaethau rhagolygon galw Dyfed-Powys:**

- Cyflwyniadau datganiad rheoli'r heddlu o ran cynllunio olyniaeth a gofynion hyfforddi.
- Cymeradwywyd cyflwyniadau cylch gweithredu cynllunio strategol penaethiaid adrannau fel rhan o'r rownd gyllidebol hon.
- Risgiau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn.
- Profiad galw haf 2024 – mwy o bwysau yn cefnogi ymateb cenedlaethol i aflonyddwch a digwyddiadau neu brotestiadau cenedlaethol.

9.9 Mae galw sylweddol hefyd yn cael ei fodloni gan dimau AD i gefnogi Rhaglen Adolygu tair blynedd yr Heddlu. Yn dilyn ailstrwythuro sylweddol yn swyddi staff yr heddlu yn 2023/4 a gyfrannodd at gyflawni £6.4 miliwn mewn arbedion yn y flwyddyn gyntaf, mae'r flwyddyn 2024/5 wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella cynhyrchiant swyddogion heddlu (o ystyried y gofyniad i gynnal niferoedd Ymgyrch Uplift) sydd wedi cynnwys adolygu'r strwythurau a'r prosesau plismona gweithredol gan gynnwys prosesau ymchwilio a rotâu. Bu angen ymgynghori ffurfiol sylweddol i roi'r newidiadau hyn ar waith a disgwylir iddynt barhau ymhell i 2025/6.

9.10 Mae gweithrediad graddol y strwythur plismona newydd ar y gweill a disgwylir iddo ddod i ben yn 2025/2026 – blwyddyn olaf Rhaglen Adolygu'r Heddlu. Mae ystyriaethau dylunio ar gyfer y strwythur newydd ar gyfer 2025 a thu hwnt yn cynnwys:

- Yr angen i gefnogi swyddogion ifanc mewn swyddi (mae gan 30% o



## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

swyddogion lai na phum mlynedd o wasanaeth ac mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain mewn rolau ymateb.)

- Gofynion y llywodraeth fel yr amlinellwyd uchod.
- Cyfleoedd i adolygu'r "cymysgedd gweithlu" i wneud y defnydd gorau o swyddogion â phwerau gwarantedig, darparu llwybrau gyrfa gwell i staff yr heddlu a mynd i'r afael â thensiynau adnoddau (cyn belled â phosibl tra bod targedau cynnal niferoedd swyddogion yn parhau).

- 9.11 O ran denu swyddogion heddlu, cafodd recriwtio ei gynllunio a'i reoli'n ofalus yn ystod 2024/25 i sicrhau'r lefelau adnoddau gorau posibl, argaeledd sgiliau arbenigol ac i ganiatáu dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Er gwaethaf nifer uwch na'r disgwyl o swyddogion yn gadael yr heddlu, mae'r heddlu yn parhau i fod ar y trywydd iawn i ragori ar ei darged cynnal a chadw swyddogion heddlu o 1314 ar bob un o'r ddau ddyddiad mesur ar 30 Medi 2024 a Mawrth 2025 gan ychwanegu tri throsglwyddai ychwanegol. Mae cyfuniad o ddysgu a datblygu, iechyd galwedigaethol, fetio a chapasiti hyfforddi gyrrwyr, yn cyfyngu ar niferoedd pob un o'n derbyniadau cwnstabliaid ddwywaith y flwyddyn ac amser fetio yw'r ffactor anoddaf i'w ragweld a darparu adnoddau ar ei gyfer.
- 9.12 Roedd ein derbyniadau swyddogion dan hyfforddiant yn 2024 yn dilyn Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu, sy'n cynnwys y gofyniad i astudio gradd blismona, gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau craidd o'u hyfforddiant.
- 9.13 Cynyddodd cyfraddau gadael swyddogion myfyrwyr yn sylweddol yn genedlaethol ac yn Heddlu Dyfed-Powys (6.6% ar hyn o bryd) yn dilyn lansio ymgyrch Uplift a gweithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu ym mis Ionawr 2020 ac mae'n parhau i fod yn heriol. I liniaru hyn, mae'r heddlu wedi cymryd nifer o gamau gweithredu gan gynnwys:
- Buddsoddiad yn y tîm Iechyd a Llesiant Galwedigaethol gyda chynghorydd ychwanegol a dwy nyrs iechyd meddwl
  - Buddsoddi yn rôl newydd Swyddog Llesiant a Chadw
  - Cyflwyno cyfweiliadau dweud eich dweud ac aros a chyfweiliadau personol pan fydd swyddog yn gadael.
  - Lansio Rhaglen Mynediad Cwnstabliaid yr Heddlu nad yw'n radd i "fynd yn fyw" o fis Mawrth 2025
    - mynd i'r afael ag adborth gan swyddogion dan hyfforddiant fod cydbwysu astudiaeth academiaidd â rôl blismona amser llawn yn ormod o faich ac yn effeithio ar eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
    - lleihau diwrnodau dysgu gwarchoddedig ym mlwyddyn 3 gan ryddhau swyddogion yn ôl i'r rheng flaen
  - Buddiannau staff uwch – polisïau absenoldeb gofalwr a newyddenedigol

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept** a chynllun budd-dal marwolaeth

---

9.14 Mae dogfen Cynllun y Gweithlu 2025-2030 wedi'i diweddarau'n llawn ac mae'n cynnwys rhagolygon adnoddau swyddogion heddlu hyd at 31 Mawrth 2030. Mae'n cael ei adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion cyfoes a rhai sy'n dod i'r amlwg neu ofynion deddfwriaethol o fewn cyd-destun plismona'r DU gyda'r nod o sicrhau bod gan yr heddlu'r bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir, yn y lle cywir ar yr amser cywir i fodloni gofynion gweithredol. Mae ffocws allweddol cynllun y gweithlu ar y canlynol:


- Denu, cadw a datblygu sgiliau swyddogion heddlu a staff heddlu.
- Adeiladu gweithlu amrywiol a gwydn sy'n cynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
- Creu gallu a chapasiti i gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddau a Blaenoriaethau'r Heddlu, a thrwy wneud hynny, ymateb yn hwylus i heriau presennol gan gynnwys atal trosedd, diogelwch y cyhoedd ac ymgysylltu â'r gymuned.

### **10 Proses y Gyllideb a Gofyniad Cyllidebol 2025/26**

- 10.1 Parhaodd y gwaith yn ystod 2024 i wreiddio ymhellach y broses pennu cyllideb ac alinio'n well â chynllunio strategol ehangach. Mae'r dull hwn wedi gweld partneriaid busnes cyllid yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaeth a deiliaid cyllidebau, i adolygu cyllidebau gwaelodlin yn llawn ac asesu pwysau galw a chost yn feirniadol, ac ar yr un pryd ceisio nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion sy'n gysylltiedig â Rhaglen Adolygu'r Heddlu.
- 10.2 Mae'r berthynas rhwng monitro ariannol yn ystod y flwyddyn a gosod y gyllideb wedi'i chryfhau bob blwyddyn. Nod y broses yw sianelu adnoddau tuag at gyflawni blaenoriaethau allweddol tra'n sicrhau cyswllt clir rhwng y gyllideb, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau a gofynion y gweithlu a buddsoddi cyfalaf sylfaenol.
- 10.3 Ymgorfforwyd proses gosod cyllideb 2025/26 o fewn y cylch sicrwydd a chynllunio strategol ehangach sydd wedi datblygu ymhellach y cysylltiad pwysig rhwng cynllunio strategol a gosod cyllideb. Mae hyn yn ymgorffori'r broses o gynhyrchu datganiad rheoli'r heddlu, sef proses asesu flynyddol sy'n asesu gallu a chapasiti asedau'r heddlu (pobl, sgiliau, offer TGCh, adeiladau a fflyd ac ati) yn erbyn galw presennol a gofynion tebygol yn y dyfodol.
- 10.4 Mae'r broses hefyd wedi ystyried y meysydd i'w gwella ac argymhellion archwilio a nododd HMICFRS yn ogystal â chael ei chlymu i drefniadau rheoli risg strategol a rheoli prosiectau fel y dangosir yn y graffig a ganlyn. Mae hyn wedi sicrhau bod adnoddau, penderfyniadau dyrannu cyllideb a chynlluniau gweithlu i gyd yn adlewyrchu gofynion blaenoriaeth strategol o ran capasiti, risg a galw yn y dyfodol.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### Llun 5 – Y cysylltiad rhwng Gosodiad Monitro Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig



- 10.5 Mae'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, o fewn y strwythur llywodraethu ffurfiol, wedi parhau i oruchwylio darpariaeth ac amseroldeb y dull hwn, gyda chynllunio ariannol hefyd yn ffocws allweddol i'r Grŵp Ystadau Strategol/Grŵp Ystadau Gweithredol, y Grŵp Strategaeth TGCh a'r Grŵp Strategaeth Fflyd yn arbennig o gysylltiedig â blaenoriaethu mewn perthynas â rhaglenni cysylltiedig â chyfalaf.
- 10.6 Mae'r defnyddio data meincnodi proffil Gwerth am Arian Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a HMICFRS yn parhau i ddatblygu, gan fod hyn yn ddefnyddiol i asesu galw a gwerth am arian. Mae'r tabl a ganlyn yn darparu rhywfaint o ddata meincnodi a chymaryddion lefel uchel ar gyfer cyllidebau 2024/25. Mae'r data'n dangos yr effaith sylweddol y mae daearyddiaeth yr heddlu yn ei chael ar wariant, er enghraifft, dalfa, arfau saethu, a thraffig o gymharu ag eraill.
- 10.7 Yn ogystal, o safbwynt ymchwilio i droseddau, er bod y data'n dangos bod yr heddlu yn gwario tua'r un faint â chyfanswm heddluoedd eraill yn y categorïau "Ymateb a Phlismon aBro", "Ymchwiliadau a Chyfiawnder Troseddol", a "Pobl Ddiamddiffyn a Rheoli Troseddwyr", mae'r dyraniad adnoddau o fewn y cyfanswm hwn yn amrywio'n weddol sylweddol. Credir bod hyn yn bennaf oherwydd polisiâu categoreiddio a dyrannu troseddau rhwng timau ymateb ac ymchwilio yn ogystal â bod mwy o Dimau Ymchwilio a Rheoli Troseddwyr mwy cyffredinol a llai arbenigol yn Heddlu Dyfed-Powys o gymharu â'r rhan fwyaf o heddluoedd tebyg. Mae strwythurau ymchwilio yn cael eu hadolygu fel rhan o Raglen Adolygu'r Heddlu i sicrhau bod y dull hwn yn dal yn briodol ac yn

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

darparu gwerth am arian o safbwynt cynhyrchiant a chanlyniad trosedd.

- 10.8 Mae gwasanaethau galluogi megis TGCh, Ystadau, Fflyd ac AD/Hyfforddiant yn llawer rhatach yn Heddlu Dyfed-Powys

Category of Spending	Police Officers	PCSOs	Police Staff	Total	DPP Net Spending	DPP Proportion	Non-Met Proportion	Difference
	FTE	FTE	FTE	FTE	£m	%	%	£m
Response and Neighbourhoods	493	140	15	647	32.5	22.8%	25.8%	4.2
Force Control Room	7	0	149	156	7.3	5.1%	7.1%	2.8
Investigations and Criminal Justice	337	0	207	545	35.6	25.0%	19.4%	-8.0
Forensics and Digital	17	0	50	67	3.4	2.4%	1.4%	-1.4
Custody	42	0	38	80	6.7	4.7%	3.3%	-2.0
Vulnerable People / Offender Management	94	0	30	123	8.3	5.8%	8.7%	4.1
Firearms Units	57	0	4	61	4.5	3.1%	1.9%	-1.7
Roads Policing	81	0	30	111	5.5	3.9%	1.9%	-2.9
Specialist Operational Support	20	0	4	24	2.7	1.9%	2.4%	0.7
<b>Enabling Services</b>								
Estates	0	0	22	22	5.3	3.8%	4.6%	1.2
ICT	1	0	47	48	8.4	5.9%	7.1%	1.7
Fleet	0	0	16	16	2.4	1.7%	1.7%	0.1
HR and Training	57	0	46	105	5.9	4.2%	4.7%	0.8
Occupational Health	0	0	15	15	0.8	0.6%	0.4%	-0.3
Support Services	13	0	164	177	9.8	6.9%	6.2%	-0.9
Force Central Budget	9	0	8	17	3.2	2.2%	3.4%	1.6
<b>Total Force</b>	<b>1,228</b>	<b>140</b>	<b>845</b>	<b>2,214</b>	<b>142.0</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0</b>
OPCC	0	0	21	21	2.9			
Seconded and Funded	89	0	46	135	-0.1			
Appropriation from Reserves	0	0	0	0	-1.2			
<b>Grand Total</b>	<b>1,317</b>	<b>140</b>	<b>911</b>	<b>2,370</b>	<b>143.6</b>			

### Sefyllfa'r Gyllideb Ddisymud

- 10.9 Fel yr amlygwyd yn y Seminar Cyllid ym mis Tachwedd gan y Cyfarwyddwr Cyllid, mae gan yr heddlu amrywiaeth o bwysau cost ar sail ddisymud sy'n adlewyrchu ffactorau cenedlaethol a materion na ellir eu hosgoi. Mae'r rhain yn ychwanegu £8.9 miliwn neu 6.2% at ofyniad cyffredinol y gyllideb yn 2025/6. Dangosir y rhain yn y tabl isod:

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

**Tabl 12 2025/26 Gofyniad Disymud**

Categori /disgrifiad cost	Gofyniad Cyllidebol £miliwn	% o wariant refeniw net
<b>Cyllideb Sylfaenol Agoriadol 2024/5</b>	<b>143.9</b>	
Cywir ar gyfer codiad cyflog – Medi 2024 (2.5% i 4.75% am 7 mis)	1.8	+1.2
Effaith blwyddyn lawn – dyfarniad cyflog Medi 2024 (4.75% am 5 mis)	2.7	+1.9
Effaith rhan o'r flwyddyn dyfarniad cyflog Medi 2025 (2.8%) (7 mis)	2.3	+1.6
Cynnydd cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwyr (cyfradd a throthwy)	2.6	1.8
Namyn: Grant Yswiriant Gwladol	-2.1	-1.5
Chwyddiant cyffredinol/penodol	0.9	+0.7
Cyflog cychwynnol i bwynt 2 (Cyflog cychwyn recriwt £30,000 i £31,000)	0.1	+0.1
Namyn: Cynyddiadau / llithriant swyddogion a staff	-0.2	-0.1
Isafswm cyflog / gwyliau banc / costau cytiau cŵn	0.3	+0.2
Colled grant SCCH disgwyliedig	0.0	+0.0
Gostyngiadau grant pensiwn – dileu grant rhwymedi McCloud	0.3	+0.2
Grant cynyddu nifer swyddogion – cynnydd disgwyliedig	0.5	+0.3
Namyn: Cynnydd i grantiau gwrthderfysgaeth ac eraill sy'n ofynnol	-0.4	-0.3
Gofynion deddfwriaethol – gwrandawiadau disgyblu	0.1	+0.1
<b>Cyfanswm costau materion cenedlaethol anochel</b>	<b>8.9</b>	<b>+6.2</b>
<b>Gofyniad cyllidebol ddisymud net ar gyfer 2025/6</b>	<b>152.8</b>	<b>+6.2</b>

10.10 Y man cychwyn ar gyfer adeiladu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 oedd cywiro'r rhagdybiaethau chwyddiant cyflog a wnaed yn ystod proses y gyllideb ar gyfer 2024/25. Yn unol â chyfarwyddyd y Swyddfa Gartref, gosodwyd y gyllideb ar gyfer swyddogion a staff ar gynnydd o 2.5% ar gyfer mis Medi 2024 o gymharu â'r dyfarniad cyflog gwirioneddol o 4.75%. Amcangyfrifir mai effaith rhan o'r flwyddyn y cywiriad hwn i'r gyllideb sylfaenol o 2.25% yw £1.8 miliwn ar sail rhan o'r flwyddyn h.y. o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025.

10.11 Mae angen ychwanegu £2.7 miliwn neu 1.9% pellach at y gyllideb sylfaenol ar gyfer effaith lawn y codiad cyflog 4.75% ar gyfer y cyfnod pum mis – mis Ebrill 2025 i fis Awst 2025.

10.12 Mae rhagdybiaethau o ran chwyddiant a dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn parhau i fod yn heriol wrth i ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol barhau i gael eu hadolygu. Fodd bynnag, wrth i'r mynegai prisiau defnyddwyr barhau i ostwng, mae chwyddiant cyffredinol o 2.6% wedi ei dybio ar gyfer cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Ar gyfer dyfarniadau cyflog mae cynnydd tybiedig o 2.8% wedi'i ymgorffori o fis Medi 2025.

10.13 Yn seiliedig ar gynnydd tybiedig o 2.8% yng nghyflogau swyddogion a staff o fis Medi 2025, mae angen ychwanegu £2.3 miliwn neu 1.6% pellach at y

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

gyllideb i fodloni gofynion effaith hyn ar rhan o'r flwyddyn (saith mis) ym mlwyddyn ariannol 2025/6. Mae'r dybiaeth hon yn unol â'r ffigur cap cyflog a gyhoeddwyd gan weinidogion ar gyfer negodi cyflogau mewn sectorau eraill. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i wneud i leihau'r effaith ar drethdalwyr y cyngor ac mae'n adlewyrchu'r ansicrwydd a'r tanwariant hanesyddol a achoswyd gan fwy o ymadawyr na'r disgwyl ac oedi wrth recriwtio trosglwyddeion. Mae'r gyllideb gyflog yn cynnwys 100 o ymadawyr, 23 o drosglwyddeion i mewn, a 70 o recriwtiaid newydd y bydd eu hangen i gynnal y sefydliad ar 1,314.

- 10.14 Yn ogystal â chywiriadau a rhagdybiaethau'r dyfarniadau cyflog, bydd y newidiadau i gyfraniadau uwch Yswiriant Gwladol cyflogwyr o ran y gostyngiad yn y trothwyon a'r cynnydd yn y gyfradd 1.2% i 15% yn cynyddu'r gyllideb sylfaenol ymhellach o £2.6 miliwn. Er gwaethaf sicrwydd gan weinidogion y byddai'r codiadau Yswiriant Gwladol yn cael eu paru â grant ychwanegol a ddyfarnwyd i Heddlu Dyfed-Powys sef £2.1 miliwn gan adael bwlch o £0.5 miliwn.
- 10.15 Mae chwyddiant ar nwyddau a gwasanaethau yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r mynegai prisiau defnyddwyr a rhagwelir y bydd tua 2.6% ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau cost gan ychwanegu £0.9 miliwn pellach neu 0.7% yn nhermau cyllideb. Mae cynnydd chwyddiannol o 7.5% wedi'i ymgorffori ar gyfer penawdau sy'n ymwneud â TGCh gyda phwysau chwyddiant sylweddol yn cael eu profi yn erbyn categorïau gwariant mawr megis trwyddedau Microsoft a brynwyd drwy Wasanaethau Masnachol y Goron a thaliadau system y Swyddfa Gartref, yn arbennig (fel Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a systemau eraill sy'n cael eu rhedeg yn genedlaethol) sy'n cynyddu 21% yn 2025/6 ar gyllideb o £0.9 miliwn).
- 10.16 Fel rhan o'r setliad cyflog, dilëwyd y raddfa gyflog isaf sy'n golygu bod recriwtiaid newydd bellach yn dechrau ar raddfa gyflog o £29,907 o fis Medi 2024 sydd tua £2,000 yn uwch nag a fyddai wedi bod yn wir fel arall. Mae gan swyddogion a staff yr heddlu hawl i gynyddrannau blynyddol, fodd bynnag mae nifer yr ymadawyr a brofwyd yn 2024/5 yn golygu bod angen gostyngiad net o £0.2 miliwn yn y gyllideb yn 2025/26 oherwydd nifer y bobl sy'n ymddeol ac mae staff neu swyddogion ar raddfeydd is yn cymryd eu lle.
- 10.17 Mae pwysau cost pellach yn gysylltiedig â gŵyl banc ychwanegol, effaith y cynnydd yn yr isafswm cyflog ar lanhau, a chostau gwasanaeth meddygol ffforensig sydd hefyd angen eu hadlewyrchu. Yn ogystal, mae newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chŵn peryglus bron wedi dyblu costau cytiau cŵn, sef cynnydd o £70,000.
- 10.18 Fel y manylir yn adran 9, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £16 miliwn i gefnogi swyddogion SCCH ledled Cymru nad yw'n adlewyrchu'r gostyngiad llawn a ddisgwyliwyd yn 2025/6. Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu 350 o swyddogion SCCH ledled Cymru sy'n cynnwys 52 yn Nyfed-Powys. Mae swyddogion SCCH yn rhan hanfodol a chynhenid o'r model Plismona Bro gan ei fod yn adnodd plismona gwerthfawr

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

o fewn y cymunedau. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ariannu 80 cyfwerth ag amser llawn ychwanegol, gyda chyfanswm sefydliad disymud o 132.

- 10.19 Er gwaethaf tynnu arian Llywodraeth Cymru yn ôl ar gyfer rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan (£0.3 miliwn) a gyhoeddwyd ar gyfer 2024/5, mae'r Comisiynydd yn parhau'n ymrwymedig ac yn cydnabod y manteision y mae'r rhaglen yn eu darparu i'n cymunedau. Dywedodd "Rwy'n falch o gyhoeddi bod fy uchelgais yn cael ei gefnogi'n llawn gan y Prif Gwnstabl ac mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn 2025/6".
- 10.20 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrywiaeth o grantiau penodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer cynnydd a lleihad a hysbyswyd, er ein bod yn dal i ddisgwyl am wybodaeth am rai:

**Tabl 13 Grantiau Penodol**

	2023/4	2024/5	2025/6	Newid
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
<b>Grantiau Llywodraeth Cymru</b>				
SCCH LLC	-3.571	-2.294	-2.361	-0.067
Grant mentrau cyllid preifat LIC	-0.253	-0.273	-0.245	0.027
Cyswllt Ysgolion LIC	-0.300	0.000	0.000	0.000
<b>Cyfanswm</b>	<b>-4.124</b>	<b>-2.567</b>	<b>-2.606</b>	<b>-0.040</b>
<b>Grantiau'r Swyddfa Gartref</b>				
Grant Uplift	-1.948	-3.490	-3.006	0.484
Yr Adran Arbennig	-0.557	-0.688	-0.735	-0.047
Grant Datgelu	-0.275	-0.275	-0.321	-0.046
Amddiffyn y Teulu Brenhinol	-0.064	0.000	0.000	0.000
Grant Pensiynau	-1.302	-4.067	-3.731	0.335
Grant Ariannu Cyfalaf	-0.183	-0.164	-0.164	0.000
<b>Cyfanswm</b>	<b>-4.329</b>	<b>-8.684</b>	<b>-7.957</b>	<b>0.727</b>
<b>Grantiau eraill</b>				
CHTh – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	-1.412	-1.412	-1.386	0.026
Grantiau eraill	-0.144	-0.151	-0.151	0.000
NCTPHQ – Gwrthderfysgaeth	-2.852	-2.996	-3.189	-0.193
Gan Bwyll	-1.491	-0.564	-0.596	-0.031
<b>Cyfanswm</b>	<b>-5.899</b>	<b>-5.123</b>	<b>-5.322</b>	<b>-0.198</b>
<b>Cyfanswm cyn Grantiau Newydd</b>	<b>-14.352</b>	<b>-16.374</b>	<b>-15.885</b>	<b>0.489</b>
<b>Grantiau Newydd ar gyfer 2025/6</b>				
Grant Yswiriant Gwladol	0.000	0.000	-2.130	-2.130
Gwarant Plismona Bro	0.000	0.000	-1.417	-1.417
	<b>0.000</b>	<b>0.000</b>	<b>-3.547</b>	<b>-3.547</b>

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### Pwysau Costau Lleol

- 10.21 Ar ôl diweddarau'r gofyniad cyllidebol sylfaenol ar sail ddisymud, mae rhai pwysau twf hanfodol eraill sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddau a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl/Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi'u hymgorffori yn y gofyniad cyllidebol.
- 10.22 Mae llawer o'r rhain fel y costau ad-dalu benthyca ychwanegol sy'n gysylltiedig â gorsaf heddlu newydd Dafen, £0.6 miliwn, a chostau cytundebol ychwanegol y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a chostau rhedeg y gwasanaeth meddygol fforensig o £0.9 miliwn yn anochel ond yn deillio o benderfyniadau lleol yn hytrach na chenedlaethol.
- 10.23 Manylir ar y rhain yn y tabl canlynol ac fe'u disgrifir ymhellach isod:

**Tabl 14 Pwysau Costau Lleol a Chynllun Lleihau Costau**

Categori /disgrifiad cost	Gofyniad Cyllidebol £miliwn	% o wariant refeniw net
<b>Cyllideb ddisymud ar gyfer 2025/6 a gariwyd ymlaen</b>	<b>152.8</b>	<b>6.2</b>
Isafswm darpariaeth refeniw a llog ar gyfalaf	0.6	0.4
Costau contract gwasanaeth meddygol fforensig / Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol	0.9	0.6
Pwysau costau eraill	0.1	0.1
Twf SCHTh	0.1	0.1
Costau Cynllun y Gymraeg	0.0	0.0
Twf Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (effaith blwyddyn lawn)	0.1	0.1
Disgyblaeth, safonau a fetio	0.2	0.1
Ailraddio cyflog – dalfa	0.2	0.1
Cefnogaeth crwneriaid	0.0	0.0
Iechyd a lles galwedigaethol	0.2	0.2
Derbyniadau llog	-0.2	-0.1
Cynnydd ariannu refeniw uniongyrchol	0.0	0.0
Cynllun arbedion	-2.8	-2.0
Symudiadau cronfeydd wrth gefn net	-0.2	-0.1
<b>Cyfanswm pwysau costau lleol / cynllun lleihau costau</b>	<b>-0.8</b>	<b>-0.6</b>
<b>Gofyniad cyllidebol cyn datblygu gwasanaeth</b>	<b>152.0</b>	<b>+5.6</b>

- 10.24 Roedd llawer o dystiolaeth bod angen gorsaf newydd yn Llanelli a daeth hon yn weithredol yn 2024 ac fe'i hariannwyd trwy fenthyciad. Mae isafswm darpariaeth refeniw sy'n adlewyrchu dibrisio mewn perthynas â'r orsaf yn ddyledus am y tro cyntaf yn 2025/6 sy'n cyfrannu at y costau ychwanegol.
- 10.25 Mae'r cynnydd mewn costau ar gyfer y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn adlewyrchu cydweithrediad rhwng y tri heddlu yn ne Cymru a'r gwasanaeth iechyd i ddarparu'r gwasanaethau archwilio ymchwiliol allweddol



## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

hyn ac eraill ac i gefnogi dioddefwyr troseddau rhywiol y tu allan i amgylchedd plismona. Roedd hyn yn golygu bod angen gwahanu contractau'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a'r gwasanaeth meddygol ffforensig sydd wedi arwain at gostau ychwanegol yn y tymor byr gyda darpariaeth yn cael ei sefydlu yn Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd yn ogystal â nifer o fannau darparu cymorth gwasanaeth dibynnol ar draws lleoliadau eraill. Mae'r costau cynyddol hefyd yn adlewyrchu effaith costau achredu ychwanegol sydd eu hangen mewn perthynas â chyfleusterau a phrosesau ymchwilio ar draws pob safle.

- 10.26 Roedd costau dalfa ychwanegol (£0.2 miliwn) hefyd yn gysylltiedig â'r angen am ailraddio cyflog Swyddogion y Ddalfa a Thywys a gododd oherwydd cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol i roi meddyginiaeth mewn sefyllfaoedd lle mae bywyd yn y fantol, yn enwedig mewn achosion yn ymwneud â chyffuriau a oedd angen hyfforddiant ychwanegol sylweddol.
- 10.27 Roedd adnewyddu contract gwasanaeth meddygol ffforensig y ddalfa newydd, a aeth yn fyw yn hydref 2024, yn ymgorffori'r angen am gymorth gofal iechyd nyrsys yn y ddalfa yn y Drenewydd yn hytrach na threfniant yn ôl y gofyn a oedd yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol. Mae hwn hefyd yn gontract cydweithredol ar draws heddluoedd De Cymru.
- 10.28 Roedd yna bwysau brys eraill o ran costau a gwasanaethau sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod 2024/5 yr aethpwyd i'r afael â nhw gan ddefnyddio cyllid wrth gefn yr oedd angen eu defnyddio'n rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn fetio a safonau proffesiynol oherwydd galwadau ychwanegol. Roedd costau cyfieithu ychwanegol hefyd oherwydd y gofyniad i gyhoeddi ymatebion i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn y ddwy iaith fel sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg / Deddf y Gymraeg. Cyflogwyd staff ychwanegol hefyd fel rhan o ailstrwythuro'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn dilyn nifer o absenoldebau a bylchau yn y gwasanaeth a amlygwyd yn ystod adolygiad o wasanaethau fel rhan o Raglen Adolygu'r Heddlu.
- 10.29 Bu angen gweithredu cynnydd hefyd i adlewyrchu'r newidiadau yn y gofynion i gyflogi cadeirydd lefel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar gyfer gwrandawiaidau disgyblu yn dilyn newidiadau deddfwriaethol ar gost ychwanegol o £0.1 miliwn.
- 10.30 Bu angen ymgorffori amrywiaeth o bwysau costau llai eraill i gyllidebau'r heddlu a SCHTh hefyd gan adlewyrchu pwysau costau yn ystod y flwyddyn a materion eraill a phenawdau pryderon a godwyd gan bartneriaid busnes cyllid a deiliaid cyllidebau yn ystod prosesau cyllidebol arferol.
- 10.31 Mae'r cynnydd mewn costau a restrir isod yn cael eu lliniaru gan gronfeydd wrth gefn (£-0.2 miliwn) i fodloni rhywfaint o'r pwysau costau untro a derbyniadau llog ychwanegol (£-0.2 miliwn) sydd wedi'u hymgorffori yn dilyn ystyried proffiliau manwl refeniw, cyfalaf a llif arian. Yn ogystal, mae rhaglen lleihau costau o £-2.8 miliwn neu 2% wedi'i hymgorffori a cheir crynodeb ohoni yn y tabl canlynol.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### Cynllun Lleihau Costau 2025/6

Categori /disgrifiad cost	Gwerth gostyngiad i'r gyllideb £miliwn	% o wariant referiw net
Cynhyrchu incwm ac adennill costau gan gynnwys ffioedd arfau saethu	-0.2	
Ffactor swyddi gwag yn cynyddu i 5% – rhannol untro oherwydd twf	-0.6	
Newidiadau i'r proffil recriwtio / strwythur rhengoedd / moderneiddio	-0.6	
Gostyngiad mewn lwfansau swyddogion	-0.1	
Arbedion caffael cydweithredol	-0.1	
Effaith blwyddyn lawn gostyngiadau SCCH yn 2024/5	-0.3	
Contractau TG – rhagamcan o arbedion o drwyddedau Oracle	-0.1	
Cynlluniau stadau / cynladwyedd gan gynnwys parc solar	-0.4	
Cydweithio – tybiaeth ffactor swyddi gwag	-0.2	
Arbedion ystafell reoli'r heddlu yn deillio o	-0.2	
<b>Cyfanswm mesurau lleihau costau</b>	<b>-2.8</b>	<b>-2.0</b>

### Datblygiadau Cylchoedd Cynllunio a Sicrwydd gyda chefnogaeth yr Heddlu

10.32 Yn ogystal â'r pwysau costau sydd wedi'u cynnwys uchod, mae'r heddlu wedi cynnwys rhestr o fentrau gwella gwasanaeth â blaenoriaeth yn ei gyfrifiad o ofynion y gyllideb sydd wedi'u nodi fel rhan o'r broses cylch cynllunio a sicrwydd fel y disgrifir yn adran 3.7. Amlygwyd y rhain hefyd yn y seminar cyllid i raddau helaeth gyda chyfanswm o £1.3 miliwn neu 0.9%.

10.33 Dangosir crynodeb o'r rhain yn y tabl isod.

Maes cynnig / cais	Adnoddau y gofynnir amdanynt		Anfforddiadwy	Adnoddau yn y cais am gyllideb		
	Cyferth ag amser llawn	£miliwn	£miliwn	Cost lawn	Cronfeydd wrth gefn	Cost net
Moderneiddio'r gweithlu – rhyddhau swyddogion	35.0	0.5	-0.1	0.6	0.0	0.6
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – datgelu / golygu	11.5	0.6	0.3	0.3	0.0	0.3
Trwyddedu arfau saethu	1.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Prentisiaeth i raddfa C	0.0	0.3	0.2	0.1	0.0	0.1
Canolfan Reoli'r Heddlu – cymorth prosiect	6.0	0.3	0.2	0.1	-0.1	0.0
Cyfathrebu corfforaethol – capasiti staff	0.3	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0
Cefnogaeth wyddonol – achrediad / amrywiol	4.0	0.2	0.2	0.0	0.0	0.0
Safonau proffesiynol – gwrth-lygredd / atal	3.0	0.2	0.2	0.0	0.0	0.0
Rheoli gwybodaeth – capasiti staff	8.0	0.3	0.3	0.0	0.0	0.0
Ailstrwythuro staff cyllid	0.0	-0.0	0.0	-0.0	0.0	-0.0
Dadansoddwr data gweinyddu fflyd	1.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Cynaliadwyedd ac iechyd a diogelwch	2.0	-0.0	0.0	-0.0	0.0	-0.0
Gwasanaethau cyfreithiol – amrywiol	5.0	0.2	0.2	0.0	0.0	0.0
TGCh – Cymorth Niche / Tim awtomeiddio prosesu robotig a busnes fel arfer	13.0	0.7	0.5	0.1	-0.0	0.1
Ymchwiliadau – rolau amrywiol	9.0	0.3	0.2	0.1	0.0	0.1

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

Troseddau economaidd	2.0	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0
Tasglu troseddau difrifol a chyfundrefnol a'r tim plismona achosion difrifol	4.0	0.1	0.2	-0.1	0.0	-0.1
Amddiffyn pobl fregus	1.0	-0.1	-0.1	0.0	0.0	0.0
Gweithrediadau'r pencadlys – offer	7.3	0.6	0.4	0.2	-0.3	-0.1
Llywodraethu, cynllunio strategol a newid	6.0	0.2	0.1	0.0	0.0	0.0
Perfformiad a dadansoddeg	3.0	0.1	0.0	0.1	0.0	0.1
Goruchwyliaeth Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin	0.0	0.2	0.2	0.0	0.0	0.0
Domestig / Canolfan Ymchwilio i Droseddau						
Profion cyffuriau wrth arestio	0.0	0.0	0.0	0.0	-0.0	0.0
Dadansoddi golygu data a pherfformiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder	0.0	0.2	0.2	0.1	0.0	0.1
Costau / ailstrwythuro system Trent	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Cwblhau gweithredu system	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Cynllun hyfforddi twf mewn gofynion	0.0	0.5	0.3	0.1	-0.1	-0.0
	<b>122.1</b>	<b>5.4</b>	<b>3.6</b>	<b>1.9</b>	<b>-0.6</b>	<b>1.3</b>

10.34 O'u cymryd ynghyd â'r safbwyntiau Gwarant Plismona Bro, bydd cynnwys yr eitemau hyn yn arwain at y gwelliannau a ganlyn mewn darpariaeth gwasanaeth sy'n cynnwys 35 swydd swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn ychwanegol mewn Timau Plismona Lleol ar draws yr heddlu:

- Swyddi moderneiddio'r gweithlu mewn ymchwiliadau desg a swyddogaethau eraill a gyflawnir ar hyn o bryd gan swyddogion profiadol.
  - Rhyddhau swyddogion profiadol i'r rheng flaen (£0.9 miliwn +17 cyfwerth ag amser llawn)
- Gwarant Plismona Bro
  - Manteisio ar grant ychwanegol (rhaid rhyddhau swyddogion ac ychwanegu at – swyddogaethau Plismona Bro £1.4 miliwn +33 swyddog cyfwerth ag amser llawn).
  - Gall fod yn recriwtiaid newydd neu Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) neu staff heddlu.
- Offer Gweithrediadau'r Pencadlys
  - Adnewyddu taser / cit uned wrth gefn yr heddlu / cit – negodwyr
- Yr Adran Cyfiawnder Troseddol
  - Offer perfformiad a meddalwedd golygu yn cyfrannu at y cynllun arbedion.
  - Staff datgelu / golygu y Weinyddiaeth Gyfiawnder i leihau'r swyddogaethau llafurus hyn gan swyddogion gweithredol a gwella ansawdd ac amseroldeb ffeiliau.
- Canolfan Reoli'r Heddlu – System Rheoli Perthynas Cwsmeriaid i nodi galwyr bregus sy'n galw dro ar ôl tro.
- Staffio'r Uned Gwella Gwasanaeth i wella perfformiad.
- Staff TGCh i gwblhau datblygiad pellach a busnes fel arfer mewn perthynas â'r system rheoli cofnodion Niche gydweithredol gan gynnwys cyflwyno modiwlau ffeil achos digidol ac ar goll o'r cartref.
- Ymchwiliadau – nifer cyfyngedig o rolau ychwanegol wedi'u cymeradwyo yn y maes bregusrwydd.
- Ceisiadau cynllun hyfforddi – Cyllid rhannol o'r cynllun hyfforddi strategol a gorfodol wedi'i gostio dros dair blynedd.
- Mae cyflog prentisiaethau yn cynyddu ar ôl cwblhau eu cymwysterau.
- Gwelliannau hunan-ariannu adrannol / neu welliannau

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept parhaus.

10.35 Mae canlyniad cyffredinol y setliad, y gyllideb ofynnol, y cynllun arbedion a'r praesept arfaethedig wedi arwain at baratoi'r gyllideb fantoledig ganlynol. Ceir dadansoddiad llawnach ar gyfer 2024/25 i 2030/31 yn Atodiad A.

**Tabl 16: Crynodeb Gofyniad Cyllidebol a Chyllid 2025/26**

Categori /disgrifiad cost	Gofyniad Cyllidebol £miliwn	% o wariant refeniw net
<b>Cyllideb Sylfaenol Agoriadol 2024/5</b>	<b>143.902</b>	
Cyfanswm costau materion cenedlaethol anochel (Tabl 12)	8.874	+6.2
Pwysau costau lleol / gostyngiadau costau (Tabl 14)	-0.793	-0.6
<b>Cyfanswm cyn ceisiadau gwella gwasanaeth y cylch cynllunio a sicrwydd</b>	<b>151.983</b>	<b>5.6</b>
Ceisiadau gwella gwasanaethau y cylch cynllunio a sicrwydd (Adran 10.33)	1.320	0.9
<b>Gofyniad cyllidebol 2025/6</b>	<b>153.303</b>	<b>6.5</b>
<b><u>Ariennir gan:</u></b>		
Grant craidd yr heddlu	-58.839	
Dyraniadau Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig cenedlaethol Llywodraeth Cymru	-8.099	
<b>Cyfanswm cyllid grant</b>	<b>-66.938</b>	
Gofyniad praesept	-86.303	
<b>Cyfanswm cyllid</b>	<b>-153.304</b>	<b>+6.5</b>

## 11 Cyllideb Tymor Canolig a Rhagolygon

11.1 Er gwaethaf datganiad yr hydref diweddar, mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y gyllideb tymor canolig yn parhau i fod yn heriol i'w pennu o ystyried yr amrywiaeth o ansicrwydd ariannol ac economaidd sy'n ymwneud ag economi'r DU a materion y byd. Yn ogystal, gyda'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn cael ei gynnal dros ddau gam, roedd y setliad a gyhoeddwyd ar gyfer cam 1 yn cwmpasu un flwyddyn yn unig gyda cham 2, yn ymdrin â'r tair blynedd nesaf (2026/7 i 2028/9) i'w gwblhau yn ystod gwanwyn 2025.

11.2 Mae eisoes yn amlwg bod y llywodraeth yn wynebu amrywiaeth o bwysau, ymrwymadau a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y broses hon sy'n cynnwys twf, iechyd, amddiffyn, mewnffudo, addysg, gofal cymdeithasol, lles yn ogystal â phlisma ar ffurf y Warrant Plisma Bro. Er gwaethaf addewidion etholiadol bod cyni cyllidol ar ben, disgwylir y bydd targedau arbedion ariannol heriol yn cael eu gosod i'r sector cyhoeddus i'w cyflawni dros y cyfnod.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

- 11.3 Mae'r ddisgyblaeth o gynnal Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) sy'n seiliedig ar set o dybiaethau rhesymol yn ystyriaeth hollbwysig wrth asesu a gosod y praesept ar gyfer 2025/6. Mae cynnal gwynwch ariannol a sicrhau cynaliadwyedd yn bwysig nid yn unig am flwyddyn ond hefyd yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhoi cyfle i ystyried a llywio hyn.
- 11.4 Disgwylir y bydd chwyddiant cyflogau a phrisiau yn parhau i roi pwysau ar gostau darparu gwasanaethau plismona dros gyfnod cynllunio'r CATC. Mae'r tybiaethau'n gysylltiedig ag adroddiad diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), sy'n rhagweld y bydd chwyddiant yn parhau i ostwng ond ar gyfradd llawer arafach nag a ragwelwyd y llynedd neu'n wir yn gynharach eleni. Mae'n ymddangos yn rhesymol ar hyn o bryd i ddefnyddio rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr fel sail a dangosir y rhain yn y tabl isod.

**Tabl 17 – Rhagdybiaethau Chwyddiant y CATC**

Cydran	Misoedd	Sylfaen n 24/5	Gwiri one ddol 24/5	25/6	26/7	27/8	28/9	29/0	30/1
		%	%	%	%	%	%	%	%
Cyflog staff	5	2.5	4.75	2.8	2.3	2.1	2.1	2	2
Cyflog swyddogion	5	2.5	4.75	2.8	2.3	2.1	2.1	2	2
Trydan/nwy	12			-0.5	2.3	2.1	2.1	2	2
Tanwydd/ cyfleustodau	12			2.6	2.3	2.1	2.1	2	2
Chwyddiant arall	12			2.6	2.3	2.1	2.1	2	2
Grant rhaglen Uplift yr heddlu	12			0	0	0	0	0	0
Grant Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau)	12			2.9	0	0	0	0	0
Grantiau eraill	12			0	0	0	0	0	0
Grant mentrau cyllid preifat	12			-10	-10	-10	-10	-10	-10
Incwm	12			2.6	2.3	2.1	2.1	2	2
Pensiynau	12			1.7	2.3	2.1	2.1	2	2
Costau cyfalaf	12			0	0	0	0	0	0
Cronfeydd wrth gefn	12			0	0	0	0	0	0
Ailgoddi	12			0	0	0	0	0	0

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

taliadau									
Contractau TGCh	12			7.5	2.3	2.1	2.1	2	2

- 11.5 Mae codiadau cyflog wedi'u paru â thybiaethau mynegai prisiau defnyddwyr y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y dyfodol ar gyfer pob blwyddyn heblaw am 2025/6 lle mae'r terfyn o 2.8% a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ar gyfer trafodaethau cyflog wedi'i ddefnyddio ar gyfer cyllidebau swyddogion a staff yr heddlu. Disgwylir i grantiau penodol aros yn wastad. Bydd costau pensiwn ar gyfer 2025/6 yn cynyddu yn ôl chwyddiant ym mis Medi 2024 – h.y. 1.7%. Mae gostyngiadau yn y grant mentrau cyllid bach wedi'u pennu ar -10% y flwyddyn sy'n adlewyrchu'r proffiliau disgwylidig. Rhagdybir y bydd cyllidebau nwy a thrydan yn gostwng -5% yn 2025/6 gan adlewyrchu disgwyliadau Gwasanaethau Masnachol y Goron / cytundebol. Mae contractau TGCh wedi'u cynyddu 7.5% yn 2025/6 ond wedyn byddant yn disgyn i ragolygon mynegai prisiau defnyddwyr y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y tymor canolig.
- 11.6 O ran bod yn agored i risg a sensitifrwyd i amrywiadau a gwahaniaethau rhwng y cynnydd yn y gyllideb a chynnydd gwirioneddol chwyddiant, mae'r tablau a ganlyn yn rhoi syniad o effaith amrywiad o 1% ar gyfer blwyddyn ariannol:

**Tabl 18: Effaith Newid o 1% ar gostau yn 2025/6**

Pennawd	Tybiaeth	Effaith
<b>Gwariant</b>		£'000
Cyflog swyddogion	1% am 7 mis	566
Cyflog staff	1% am 7 mis	286
Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau	1% blynyddol	241
Cyfalaf	1% llog	249
		<b>1,342</b>
<b>Incwm</b>		
Incwm	1% blynyddol	-96
Grantiau	1% blynyddol	-105
Setliad	1% blynyddol	-645
		<b>-846</b>


- 11.7 Mae grantiau penodol yn parhau i fod yn risg i'r sefydliad, ac mae'n amlwg o'r hysbysiad hwyr o ostyngiadau sylweddol yng nghyllid swyddogion SCCH a thynnu cyllid y Rhaglen Cyswllt Ysgolion yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/5 nad oes sicrwydd o barhad. Mae angen cydnabod y risgiau sy'n ymwneud â grantiau penodol gan fod y rhain yn hanfodol i ategu ystod o wasanaethau plismona. Mae grantiau sy'n ategu cyflogau swyddogion heddlu hefyd yn cario'r risg cysylltiedig oherwydd gofynion llym rhaglen Uplift yr heddlu.
- 11.8 Mae diffyg gwybodaeth am setliadau'r dyfodol yn parhau i fod yn destun pryder. Mae'r CATC yn adlewyrchu cynnydd blynyddol tybiedig mewn setliadau

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

grant craidd o 2% dros y cyfnod cynllunio. Yn amlwg mae hwn yn faes o ansicrwydd o hyd ac mae diffyg setliadau aml-flwyddyn, Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth sydd ar ddod a rhagolygon chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n newid yn ei gwneud cynllunio ariannol a strategol cywir yn hynod anodd.

- 11.9 Mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau â'u gwaith ar yr adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu ond er gwaethaf ei uchelgais i roi newidiadau ar waith, mae hyn yn parhau i fod yn annhebygol dros y tymor canolig. Mae trafodaethau ar gyfer diwygio bellach yn canolbwyntio ar ddiwygiadau ehangach i'r gwasanaeth a'i sefydliadau plismona dros gyfnod hwy o amser – sydd eto'n gwneud blaengynllunio yn hynod o heriol ar hyn o bryd ac yn gwneud newidiadau i gyllid fformiwla i'w gweld yn fwy annhebygol.
- 11.10 Y gred oedd y byddai'r cam nesaf yn cynnwys ymgynghoriad ar y dull a'r egwyddorion ond mae'r cynnwys a'r amseriad yn aneglur. Ymgynghorodd y Swyddfa Gartref yn flaenorol ar gostau ychwanegol natur wledig a thymhorol. Gwnaeth yr heddlu gyflwyniad cadarn gan y byddai'r ddau ffactor hyn yn cael effaith sylweddol. Hyd yn hyn ni fu unrhyw arwydd o sut y byddai trefniadau pontio yn cael eu cymhwyso, gan gynnwys ystyriaethau i loriau a nenfydau. Bydd y rhyngweithio rhwng y grant a dyraniadau niferoedd swyddogion hefyd yn faes o ddiddordeb penodol mewn unrhyw gynigion.
- 11.11 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sail i wneud rhagdybiaeth wybodus o fewn y CATC. Byddai defnyddio ffigur, er enghraifft, o'r ymarfer a derfynwyd yn 2016, yn annibynadwy. Gyda newid yn y mathau o droseddau, mae ein cyfran o droseddau cenedlaethol bellach yn fwy na'n cyfran fformiwla o 0.71%, ac nid oedd hynny'n wir yn 2016. Roedd hyn yn amlwg yn yr achos a gyflwynwyd i Aelodau Seneddol (ASau) ym mis Gorffennaf 2022 a'r cyflwyniad i'r Swyddfa Gartref fel rhan o'r ymgynghoriad penodol i natur wledig.

### Llun 6 Ariannu Fformiwla – Ffeithiau Allweddol 2016 v 2021



- 11.12 O ystyried maint yr effaith y gallai adolygiad o'r fformiwla ariannu neu yn wir

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

y diwygiadau ehangach i blismona ei chael, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cytuno i gofnodi'r posibilrwydd hwn ar y Gofrestr Risg Strategol. Nid oes amheuaeth y byddai unrhyw ostyngiadau sylweddol yn y cyllid grant canolog yn effeithio'n ddifrifol ar wasanaethau'r heddlu a chymunedau ardal Dyfed-Powys. Byddai Grŵp Aur penodol yn cael ei sefydlu i ddatblygu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer modelau gweithredol a threfniadol i fynd i'r afael â'r senarios posibl.

11.13 At ddibenion y CATC, ymgorfforwyd rhagdybiaeth praesept o 5% i ddechrau yn y CATC blaenorol ynghyd â chynnydd tybiedig yn y sylfaen drethi o 0.7%. Fodd bynnag, mae mesurau a phwysau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/6 wedi gwthio'r gofyniad i 8.63% ar gyfer y flwyddyn honno gyda 5.75% bellach yn ofynnol ar gyfer 2026/7 sy'n adlewyrchu goblygiadau blwyddyn lawn ychwanegol y mesurau a weithredwyd yn rhannol yn 2025/6.

## 12 Cynllun Arbedion / Lleihau Costau ar gyfer y Dyfodol a Rhaglen Adolygu'r Heddlu

12.1 Yn ogystal â chynnydd mewn costau sylfaenol, mae cynllun lleihau costau a gwasanaethau wedi'i ddatblygu sy'n anelu at sicrhau arbedion ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf yn ychwanegol at y £6.3 miliwn sydd wedi'u cyflawni yn 2023/24.

**Tabl 19 – Cynllun Arbedion/Rhaglen Adolygu'r Heddlu**

Categori	23/4	24/5	25/6	26/7	27/8	28/9	29/0	30/31
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Lleihau cyllideb afiechyd	(200)	-	-	-	-	-	-	-
Ariannu refeniw uniongyrchol	(657)	-	-	-	-	-	-	-
Adnoddau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau	(101)	-	-	-	-	-	-	-
Recriwtio swyddogion / cymysgedd gweithlu	(493)	(110)	(586)	(416)	-	-	-	-
Lwfansau swyddogion	(29)	(78)	(50)	(10)	-	-	-	-
Arbedion caffael	(610)	(400)	(200)	(500)	(850)	(500)	(350)	(100)
Cost hyfforddiant cychwynnol	-	(336)	-	(180)	-	-	-	-
Colli swyddogion SCCH a Ariennir gan Lywodraeth Cymru	(227)	(619)	(257)	-	-	-	-	-
Arbedion cyllideb cydweithio	-	-	(200)	-	-	-	-	-
Gostyngiadau yn staff yr heddlu	(165)	-	-	-	-	-	-	-
Arbedion ariannu cyfalaf	-	-	(74)	-	-	-	-	-
Gostyngiadau pensiwn staff	(290)	-	-	-	-	-	-	-
Arbedion SCHTh	(161)	-	-	-	-	-	-	-
Arbedion adrannol nad ydynt yn ymwneud â chyflogau	(558)	-	-	-	-	-	-	-
Ystadau – rheoli cyfleusterau	(185)	(25)	-	-	-	-	-	-
Ystadau – cynladwyedd	(60)	(195)	(200)	-	-	-	-	-
Ystadau – cynhyrchu incwm	(59)	(30)	(184)	-	-	-	-	-
Ystadau – adolygu adeiladau	(59)	(242)	-	-	-	-	-	-



### Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

Arbedion cytundebol TGCh	(81)	(74)	(75)	-	-	-	-	-
Incwm arfau saethu	-	(75)	(229)	37	40	91	(15)	-
Incwm hyfforddiant gyrwyr	(216)	180	-	-	-	-	-	-
Swyddi staff tymor byr	-	(404)	(609)	245	-	-	-	-
Raglen Adolygu'r Heddlu – swyddi staff	(1,829)	185	(161)	-	-	-	-	-
Ymdeoliadau gorfodol, gwirfoddol a chynnar	(311)	-	-	-	-	-	-	-
	(6,292)	(2,222)	(2,826)	(824)	(810)	(409)	(365)	(100)

12.2 Bydd Rhaglen Adolygu'r Heddlu yn parhau i ddatblygu ymhellach y cynllun arbedion/lleihau costau ar gyfer y dyfodol sy'n cyd-fynd â model gweithredu'r heddlu. Fel o'r blaen, mae awydd brwd i ddiogelu swyddi staff yr heddlu lle bo'n bosibl a lleihau swyddogaethau lle bydd swyddogion heddlu yn gwneud gwaith a fyddai'n cael ei gyflawni'n fwy priodol ac economaidd gan staff yr heddlu, er y bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus fel rhan o gynaliadwyedd ariannol, gan gydnabod cyfyngiadau targedau cynyddu niferoedd yr heddlu.

12.3 Mae Rhaglen Adolygu'r Heddlu bellach wedi mynd i drydedd flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn ffurfiol gyda'r amcanion canlynol:

- Parhau i fodloni amcanion Cynllun Heddlu a Throseddau y CHTh a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl, a thrwy hynny wella ansawdd y gwasanaeth i gymunedau Heddlu Dyfed-Powys.
- Gwellu'r ymateb i ddiodefwr cam-drin domestig,
- Adolygu adnoddau a goruchwyliaeth o fewn gwasanaeth ymateb yr heddlu mewn lifrau i wella gwydnwch a diogelwch.
- Blaenoriaethu rhaglen o welliant parhaus i wella cynhyrchiant, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.
- Gwellu prosesau brysbennu, asesu a chofnodi troseddau a digwyddiadau i leihau'r galw.
- Adolygu model darparu gwasanaeth presennol Heddlu Dyfed-Powys a'r model ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogi llesiant swyddogion a staff i gynyddu ymgysylltiad a lefelau cadw staff.
- Gwellu'r model goruchwyllo swyddogion heddlu ehangach gan gynnwys cyfrifoldebau rheolwyr a chryfder y drefniadaeth reoli.
- Mynegi materion posibl sy'n deillio o ddadgomisiynu, neu benderfyniadau i ddadflaenoriaethu meysydd gwaith, gan gefnogi amcanion gweithredol a strategol.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhagor o arbedion caffael ac eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau,
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio.
- Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Parhau i adolygu asedau gan gynnwys adeiladau, TGCh a fflyd.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i alluogi cynaliadwyedd a chynhyrchu incwm.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### 13 Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf

13.1 Mae asedau'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, TGCh ac amnewid cerbydau yn sail i'r Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir yn Atodiad F. Mae buddsoddiadau cyfalaf hefyd yn hanfodol i yrru arloesi, lleihau carbon / cynaliadwyedd, gostyngiadau mewn costau refeniw yn ogystal â bod yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaeth parhaus.

13.2 Mae'r Rhaglen Gyfalaf a'r cyllid sy'n cwmpasu'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 hyd at 2033/34 wedi'u crynhoi isod:

**Tabl 20 – Rhaglen Gyfalaf 2024/25 – 2033/34**

Capital Programme 2024 - 2034											
Scheme / Project	2024/5	2025/6	2026/7	2027/8	2028/9	2029/30	2030/31	2031/32	2032/33	2033/34	Total
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Major Estates Schemes</b>											
Carmarthenshire Custody Facility	1	-	-	-	-	-	-	-	-	-	1
New Station - Brecon	399	2,102	5,989	-	-	-	-	-	-	-	8,490
Joint Firearms Training Facility	6,554	7,158	1,066	-	-	-	-	-	-	-	14,778
Relocation (Buy) - Pembroke Dock (Argile street)	428	172	-	-	-	-	-	-	-	-	600
Relocation (Rent) - Fishguard	60	-	-	-	-	-	-	-	-	-	60
Relocation (Buy) - Crosshands	-	-	190	-	-	-	-	-	-	-	190
Relocation (Rent) - Machynlleth	-	-	25	-	-	-	-	-	-	-	25
Relocation (Rent) - Ystradgynlais	-	-	30	-	-	-	-	-	-	-	30
Sustainability Schemes	1,229	2,862	1,020	900	900	275	175	175	175	175	7,886
Maintenance and Replacements	2,145	4,038	4,311	1,900	1,900	1,900	1,900	4,391	1,900	1,900	26,285
	<b>10,816</b>	<b>16,332</b>	<b>12,631</b>	<b>2,800</b>	<b>2,800</b>	<b>2,175</b>	<b>2,075</b>	<b>4,566</b>	<b>2,075</b>	<b>2,075</b>	<b>58,345</b>
<b>Fleet / Boat</b>											
Replacements	2,701	1,500	1,530	1,607	1,807	1,771	1,860	1,953	2,050	2,153	18,932
Electric Vehicles / Sustainability	-	391	180	180	180	180	180	180	180	180	1,831
	<b>2,701</b>	<b>1,891</b>	<b>1,710</b>	<b>1,787</b>	<b>1,987</b>	<b>1,951</b>	<b>2,040</b>	<b>2,133</b>	<b>2,230</b>	<b>2,333</b>	<b>20,763</b>
<b>ICT and Equipment</b>											
Control Room / ESN	1,019	771	1,509	1,528	863	965	1,317	870	1,453	1,455	11,750
Infrastructure Projects (Telephony / WAN / ESN)	976	665	445	265	655	205	205	245	645	495	4,801
Device Replacements	719	2,972	2,212	1,209	1,143	664	1,761	1,491	1,739	789	14,699
Other Equipment	357	846	619	726	724	725	725	724	725	725	6,896
	<b>3,071</b>	<b>5,253</b>	<b>4,785</b>	<b>3,728</b>	<b>3,385</b>	<b>2,559</b>	<b>4,008</b>	<b>3,330</b>	<b>4,562</b>	<b>3,464</b>	<b>38,145</b>
<b>Contingency / Slippage</b>											
Capital Contingency / Assumed Slippage	-	700	800	800	-	-	-	-	-	-	2,300
	-	<b>700</b>	<b>800</b>	<b>800</b>	-	-	-	-	-	-	<b>2,300</b>
<b>Total Planned Spending</b>	<b>16,588</b>	<b>24,176</b>	<b>19,926</b>	<b>9,114</b>	<b>8,172</b>	<b>6,685</b>	<b>8,123</b>	<b>10,029</b>	<b>8,867</b>	<b>7,872</b>	<b>119,552</b>
<b>Own Financing</b>											
Direct Revenue Financing	(2,718)	(2,718)	(3,143)	(3,933)	(4,522)	(4,522)	(4,522)	(4,663)	(4,599)	(4,416)	(39,756)
Capital Receipts	(1,084)	(294)	(50)	(820)	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)	(2,548)
Capital Reserves & Grants	(3,004)	(4,376)	(1,852)	-	-	812	574	-	(812)	-	(8,658)
<b>Additional Capital Financing Requirement (Borrowing)</b>	<b>(9,782)</b>	<b>(16,788)</b>	<b>(14,881)</b>	<b>(4,361)</b>	<b>(3,600)</b>	<b>(2,925)</b>	<b>(4,125)</b>	<b>(5,316)</b>	<b>(3,406)</b>	<b>(3,406)</b>	<b>(68,590)</b>
Cumulative Capital Financing Requirement	(33,535)	(49,794)	(63,940)	(66,914)	(68,664)	(69,551)	(71,482)	(74,266)	(74,938)	(75,375)	-
Assumed External Borrowing	(9,113)	(30,686)	(49,653)	(54,668)	(55,873)	(56,280)	(60,482)	(63,266)	(63,938)	(64,375)	-
%age	5.09%	4.90%	4.00%	4.00%	3.75%	3.75%	3.75%	3.75%	3.75%	3.75%	3.75%

13.3 Mae gwaith wedi parhau drwy'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r CATC i ystyried a blaenoriaethu gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy. Er ei bod yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ac ansicrwydd, mae'r rhaglen gyfalaf yn cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hailystyried wrth i eglurder ymddangos ac yn flynyddol, fel rhan o broses ffurfiol gosod y gyllideb a'r praesept.

13.4 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft angen cyfanswm cyllid o £120 miliwn ar gyfer 2024/25 i 2033/34 gydag £16.6 miliwn yn cael ei gynllunio i'w wario yn 2024/25. Ar gyfer y rhaglen gyfalaf gyfredol i'w hariannu'n llawn dros y pum

## **Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept**

mlynedd nesaf, bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn cael eu disbyddu erbyn diwedd 2026/27.

- 13.5 Rhagwelir y bydd angen cynyddu benthyca allanol o £9 miliwn ym mis Ebrill 2024 i £64 miliwn (£30 miliwn ar hyn o bryd) i ariannu'r rhaglen o 2024/25 i 2033/34 ac mae'r taliadau dyled llawn sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yng nghyllidebau refeniw y dyfodol yn y cynllun ariannol tymor canolig hwn. Bydd y rhan fwyaf o'r benthyca hwn yn gysylltiedig ag asedau newydd ac yn ariannu adeiladu gorsaf newydd a chyfleuster dalfa ar gyfer Aberhonddu; ynghyd â darparu datrysiad i'r cyfleuster hyfforddi arfau saethu sy'n heneiddio ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu.
- 13.6 Bydd angen benthyca hefyd i gefnogi'r gofynion buddsoddi helaeth i gynnal a chadw'r ystad a'r seilwaith TGCh hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona yn effeithiol, yn ogystal ag ar gyfer cynlluniau cynaliadwyedd sy'n arbed costau.
- 13.7 Mae strategaeth o gynyddu ariannu refeniw uniongyrchol dros y tymor canolig yn parhau, sydd ynghyd â gofynion costau benthyca ychwanegol, yn parhau i roi pwysau heriol ar y gyllideb refeniw er y rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn gostwng yn y ddwy flynedd nesaf.

### **14 Effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn**

- 14.1 Yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, mae'r Comisiynydd yn ystyried rôl y cronfeydd wrth gefn wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb flynyddol. Mae'r Comisiynydd, gyda chefnogaeth ei Brif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn fel y gellir bodloni pwysau annisgwyl ar sail galw ar y gyllideb, heb gael effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol.
- 14.2 Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dangosir y strategaeth hon yn Atodiad D ac mae'n manylu ar y dull gweithredu ar gyfer 2024/25 a thu hwnt.
- 14.3 Wrth ystyried ffactorau gwydnwch a chynaliadwyedd, mae'r Comisiynydd yn parhau i adolygu'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, nid yn unig yn ffurfiol wrth gwblhau'r Datganiad Cyfrifon, ond hefyd yn ystod y flwyddyn wrth ystyried adroddiadau rheolaeth ariannol a pharatoi'r CATC. Mae'r asesiadau hyn a'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn wedi caniatáu ar gyfer rhywfaint o waith lliniaru arfaethedig ar bwysau untro a beichiau cost i'w bodloni gan gronfeydd wrth gefn.
- 14.4 Fel rhan o'r camau rhagweithiol a gymerwyd yn ystod y flwyddyn gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau, cynyddwyd y gronfa gyffredinol wrth gefn ar ddiwedd 2023/24 i £5.5 miliwn sydd heb os yn gwella cadernid ariannol. Derbyniwyd grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo i dalu'r codiad cyflog o 4.75%.
- 14.5 Gyda rheolaeth ariannol ddarbodus, gwytnwch ariannol, a chynaliadwyedd

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

mewn golwg, mae'r sefyllfa ariannol ragweledig ar gyfer 2024/25 a'r cronfeydd wrth gefn presennol wedi'u hailasesu'n feirniadol gyda rhai aiddosbarthiadau lle bo'n briodol.

Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer creu Cronfa Lliniaru Cyllideb Wrth Gefn i'w defnyddio i lyfnhau cyfnodau brig mewn gwariant ac ariannu pwysau untro yn yr ychydig flynyddoedd ariannol nesaf, gan felly leddfu baich gofyniad y gyllideb.

14.6 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ac mae rhagor o fanylion yn Atodiad E.

**Tabl 21 – Rhagamcanion Cronfeydd Wrth Gefn 2024/25 i 2029/30**

Pennawd Wrth Gefn	BALANS CAU TERFYNOL 2023/24	BALANS CAU TERFYNOL 2024/25	BALANS CAU TERFYNOL 2025/26	BALANS CAU TERFYNO L 2026/27	BALANS CAU TERFYNOL 2027/28	BALANS CAU TERFYNOL 2028/29	BALANS CAU TERFYNOL 2029/30
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704
<b>Cyfanswm y gronfa wrth gefn gyffredinol</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>
Cronfa wrth gefn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol	-107,144	-53,572	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn chwyddiant cyflogau	-402,500	0	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn yswiriant ac ymgyswirthu	-400,624	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574
Cronfa wrth gefn ar gyfer mesurau lliniaru cyllideb	-639,555	-556,458	-101,632	-0	-0	-0	-0
Cyngwraig fforensig – cronfa wrth gefn	-340,139	-137,618	0	0	0	0	0
Cronfa Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu	-323,862	-85,814	0	0	0	0	0
Cronfa weithredol y Prif Gwnstabl	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755
Cronfa cynllun ailhyfforddi gyrrwyr – Prif Gwnstabl	-340,804	-340,804	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn refferw prosiectau trawsnewidiol	-495,000	-252,625	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn Deddf Elw Troseddau	-421,591	-427,591	-433,591	-439,591	-445,353	-451,353	-457,353
Cronfa'r Comisiynydd	-292,733	-167,733	-42,733	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn rhaglen Gan Bwyll yr heddlu	-329,000	0	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn ar gyfer fforddiadau	-100,733	-100,733	-100,733	-45,832	-6,691	-6,691	-6,691
Cronfa wrth gefn gwerthu eiddo a ganfuwyd	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424
Cronfa cynllun ailhyfforddi gyrrwyr – Comisiynydd	-1,037,600	-773,116	-504,203	-239,344	-218,057	-117,629	-17,201
Cronfa wrth gefn rhaglen ymyriadau cyffuriau	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740
<b>Cyfanswm cronfeydd refferw penodol wrth gefn wedi'u clustnodi</b>	<b>-5,807,204</b>	<b>-3,882,557</b>	<b>-2,169,385</b>	<b>-1,711,260</b>	<b>-1,656,594</b>	<b>-1,562,166</b>	<b>-1,467,738</b>
<b>Cofnodion diwedd blwyddyn 2023/4</b>							
Cronfa wrth gefn y Gymraeg/cyfieithu	-51,000	0	0	0	0	0	0
Cronfa gweithredu hil yr heddlu	-76,790	-76,790	-36,897	0	0	0	0
Cronfa arloesedd (awtomeiddio prosesu roboteg)	-640,381	-640,381	-390,381	-140,381	0	0	0
Cronfa Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol	-125,680	-125,680	0	0	0	0	0
Cronfa gwrandawiadau disgyblu	-42,375	-42,375	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	-37,091	0	0	0	0	0	0
Cronfa ariannu arloesedd CHTh	-1,000,000	-1,000,000	-750,000	-500,000	-250,000	0	0
<b>Cyfanswm cronfeydd refferw penodol wrth gefn wedi'u clustnodi</b>	<b>-1,973,317</b>	<b>-1,885,226</b>	<b>-1,177,278</b>	<b>-640,381</b>	<b>-250,000</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn eraill wedi'u clustnodi	-7,314,567	-5,145,567	-1,519,567	-0	-0	-0	-812,000
Cronfa cerbydau Uned Plismona'r Ffyrdd (diwedd blwyddyn i ariannu refferw uniongyrchol / cyfalaf)	-235,000	0	0	0	0	0	0
Cronfa cyfalaf wrth gefn – teledu cylch cyfyng	0	-1081830	-331,830	0	0	0	0
Cronfa gynladwydd	-493,793	0	0	0	0	0	0
Grant cyfalaf cyffredinol	-106,446	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi'u clustnodi</b>	<b>-8,149,806</b>	<b>-6,227,397</b>	<b>-1,851,397</b>	<b>-0</b>	<b>-0</b>	<b>-0</b>	<b>-812,000</b>
Cronfa wrth gefn refferw cydweithio	0	0	0	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn partneriaeth diogelwch ffyrdd Gan Bwyll	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm cronfeydd refferw a chyfalaf wedi'u neilltuo</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY</b>	<b>-21,442,031</b>	<b>-17,506,885</b>	<b>-10,709,765</b>	<b>-7,863,346</b>	<b>-7,418,299</b>	<b>-7,073,871</b>	<b>-7,791,443</b>
Namyn grant cyfalaf cyffredinol	106,446	0	0	0	0	0	0
<b>Trosglwyddo i/o cronfeydd wrth gefn (nodyn i'r cyfrifon)</b>	<b>-21,335,586</b>	<b>-17,506,885</b>	<b>-10,709,765</b>	<b>-7,863,346</b>	<b>-7,418,299</b>	<b>-7,073,871</b>	<b>-7,791,443</b>

14.7 Bwriedir cadw'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar £5.51 miliwn dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n golygu y bydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol sydd ar gael i'w defnyddio gan y Comisiynydd yn gostwng o £17.5 miliwn ym mis Mawrth 2025 i £7.8 miliwn erbyn 2031. O ran cadernid ariannol a rheolaeth ariannol ddarbodus, mae bodolaeth y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cronni yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hanfodol i alluogi'r Comisiynydd i ariannu pwysau costau untro, lleddfu beichiau sy'n deillio o gyfnodau prysur mewn proffiliau gwariant a chaniatáu cyllideb gytbwys.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

### 15 Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

15.1 Yn seiliedig ar y tybiaethau y manylir arnynt uchod a chan ystyried y pwysau a ragwelir ac arbedion/gostyngiadau cost, dangosir sefyllfa gryno o'r gyllideb refeniw ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 i Fawrth 2030 yn Atodiad A, a dangosir datganiad amrywiad isod ar gyfer cyfnod y CATC:

**Tabl 22 – Datganiad Amrywiad CATC 2025/26 i 2030/31**

	25/6	26/7	27/8	28/9	29/30	30/31
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Mater Cenedlaethol Pwysau Cost</b>						
Cywir ar gyfer codiad cyflog – Medi 2024 (2.5% i 4.75% am 7 mis)	1,754	0	0	0	0	0
Effaith blwyddyn lawn – dyfarniad cyflog Medi 2024 (4.75% am 5 mis)	2,719	1,715	1,450	1,354	1,386	1,351
Effaith rhan o'r flwyddyn dyfarniad cyflog Medi 2025 (2.8%) (7 mis)	2,302	1,952	1,826	1,869	1,823	1,864
Cynnydd cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwyr (cyfradd a throthwy)	2,625	0	0	0	0	0
Grant Yswiriant Gwladol	-2,130	-43	-43	-44	-45	-46
Chwyddiant cyffredinol/penodol 24/5	944	630	573	618	652	725
Cyflog cychwynnol i bwynt 2 (Cyflog cychwyn recriwt £30,000 i £31,000)	100	0	0	0	0	0
Cynydrannau swyddogion a staff	-174	473	433	433	433	433
Isafswm cyflog / gwyliau banc / costau cytiau cŵn	251	349	175	110	110	0
Colled grant SCCH disgwylidig	0	0	0	0	0	0
Gostyngiadau grant pensiwn – dileu grant rhwymedi McCloud	335	0	0	0	0	0
Grant cynyddu nifer swyddogion – cynnydd disgwylidig	484	0	0	0	0	0
Cynnydd i grantiau gwrthderfysgaeth ac eraill sy'n ofynnol	-435	0	0	0	0	0
Gofynion deddfwriaethol – gwrandawiadau disgyblu	100	0	0	0	0	0
	<b>8,875</b>	<b>5,078</b>	<b>4,414</b>	<b>4,341</b>	<b>4,359</b>	<b>4,328</b>
<b>Pwysau Cost Lleol / Gwelliannau Gwasanaeth</b>						
Isafswm darpariaeth refeniw a llog ar gyfalaf	577	689	1,130	449	219	243
Costau contract gwasanaeth meddygol fforensig / Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol	893	12	0	0	0	0
Pwysau costau eraill	80	12	828	1,949	3,106	3,215
Twf SCHTh	119	0	0	0	0	0
Costau Cynllun y Gymraeg	40	0	0	0	0	0
Twf Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (effaith blwyddyn lawn)	141	0	0	0	0	0
Disgyblaeth, safonau a fetio	151	0	-40	0	0	0
Ailraddio cyflog – dalfa	166	0	0	0	0	0
Cefnogaeth crwneriaid	39	0	0	0	0	0
Iechyd a lles galwedigaethol	236	0	0	0	0	0
Derbyniadau llog	-200	250	200	50	0	0
Cynnydd ariannu refeniw uniongyrchol	0	425	790	589	0	-0
Cynllun arbedion*	-2,826	-644	-810	-409	-365	-100
Symudiadau cronfeydd wrth gefn net	-209	370	90	0	0	0
	<b>-793</b>	<b>1,114</b>	<b>2,189</b>	<b>2,628</b>	<b>2,960</b>	<b>3,357</b>
Ceisiadau adrannol cylch cynllunio a sicrwydd						
Cyflwyniadau proses cylch cynllunio a sicrwydd	5,402	0	0	0	0	0
Cyflwyniadau proses cylch cynllunio a sicrwydd heb eu cymeradwyo	-4,081	753	36	0	0	0
	<b>1,321</b>	<b>753</b>	<b>36</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Gofynion cyllidebol delfrydol	<b>9,403</b>	<b>6,944</b>	<b>6,639</b>	<b>6,969</b>	<b>7,319</b>	<b>7,685</b>
	0	0	-0	-0	0	-0
Setliad – Yn seiliedig ar drafodaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu @ 6.1%	-2,401	-1,339	-1,366	-1,393	-1,421	-1,449
Cynnydd o 5% yn nhrefn y cyngor Band D ynghyd â newidiadau i sylfaen y dreth gyngor	-7,002	-5,605	-5,273	-5,576	-5,898	-6,236
	<b>-9,402</b>	<b>-6,944</b>	<b>-6,639</b>	<b>-6,969</b>	<b>-7,319</b>	<b>-7,685</b>
<b>Bwlch gwariant / cyllido</b>	<b>0</b>	<b>-0</b>	<b>-0</b>	<b>0</b>	<b>-0</b>	<b>0</b>

15.2 Er bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'n bwysig cydnabod bod y cynllun lleihau costau yn adlewyrchu ac yn nodi'r risgiau o ran ansicrwydd ynghylch chwyddiant, arian grant craidd a phenodol, gofynion y gwasanaeth a'r adolygiad cyllid fformiwlâ.

## 16 Adran 25 a Risg Cyllidebol

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

- 16.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif swyddog cyllid gyflwyno adrodd i'r comisiynydd, ar yr adeg y mae'r gyllideb yn cael ei phennu, ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai olygu bod angen gwario mwy ar y gwasanaeth nag a gynlluniwyd, a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'r adroddiad hwn i'w weld yn Atodiad B.
- 16.2 Rhoddir lwfans ar gyfer y risgiau hyn drwy wneud y canlynol:
- sicrhau lwfans darbodus yn yr amcangyfrifon; ac yn ychwanegol
  - sicrhau bod digon o arian wrth gefn i'w ddefnyddio os bydd amcangyfrifon y gwasanaeth yn annigonol.
- 16.3 Mae'n bwysig bod y risg gyllidebol wedi'i lleihau pan fydd y gyllideb yn cael ei phennu. Rhaid i lefel y risg gyllidebol gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Comisiynydd, ar sail cyngor a barn ei Brif Swyddog Cyllid.
- 16.4 Mae Atodiad C hefyd yn amlinellu asesiad effaith risg ar draws amrywiol benawdau cyllideb ac yn seiliedig ar ganran y gyllideb refeniw net a'r ffactorau hysbys, a allai ddylanwadu ar lefelau gwariant neu incwm gwirioneddol.

## 17 Ymgynghoriad Cyhoeddus a Barn

Ar 6 Rhagfyr 2024, lansiodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus ar braesept yr heddlu ar gyfer 2025/26. Roedd yn bwysig i'r Comisiynydd ei fod yn ceisio barn y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys. Anogodd bawb i leisio'u barn ar y mater hollbwysig hwn, er mwyn sicrhau y gall Heddlu Dyfed-Powys barhau i ddiogelu ei gymunedau gyda'r safon uchaf o wasanaeth sydd ar gael.

Er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i roi eu barn, cafodd arolwg ei greu a'i hyrwyddo'n eang. Isod mae'r tri opsiwn a gynigwyd:

### Pa un o'r opsiynau hyn ydych chi'n ei gefnogi fwyaf:

#### A. Cynnydd bras o £3.50 y mis

*Byddai hyn yn darparu **cyllideb gytbwys** ac yn caniatáu i wasanaethau gael eu cynnal, yn ogystal â buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gefnogi ymateb rheng flaen a phlisma bro.*

#### B. Cynnydd bras o £2.50 y mis

*Byddai hyn yn gadael **bwllch ariannu o £2.8 miliwn** a byddai'n cynrychioli cynnydd bach mewn cyllid o'i gymharu â'n cyllideb gyffredinol, gan ganiatáu i'r rhan fwyaf o wasanaethau gael eu cynnal ar y lefel bresennol ond yn debygol o gyfyngu ar fuddsoddi mewn seilwaith ac arloesi i wella gwasanaethau plisma.*

#### C. Cynnydd bras o £1.50 y mis

*Byddai hyn yn arwain at **fwllch ariannu o £5.7 miliwn**, a fyddai'n gofyn am ostyngiadau sylweddol i lefelau gwasanaeth presennol, gan gynnwys rhai gwasanaethau rheng flaen.*

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

**Tabl 23 Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Opsiynau	Ymatebion
<b>Cynnydd bras o £3.50 y mis</b>	<b>387 (54.7%)</b>
<b>Cynnydd bras o £2.50 y mis</b>	<b>147 (20.8%)</b>
<b>Cynnydd bras o £1.50 y mis</b>	<b>173 (24.5%)</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>707</b>

- 17.1 Roedd yn braf gweld cynnydd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad eleni, a 54.7% yn cefnogi'r cynnydd uwch a fyddai'n cynnal y lefelau gwasanaeth presennol ac yn buddsoddi adnoddau ychwanegol mewn gwasanaethau plismona bro a rheng flaen.
- 17.2 Rhoddwyd cyfle hefyd i'r ymatebwyr roi sylwadau, sydd wedi'u dadansoddi a cheir rhai themâu eang: lefelau sylweddol o gefnogaeth, pwysigrwydd heddlu gweladwy, pryderon ynghylch lefelau troseddu, polisi'r llywodraeth, peth sylwebaeth feirniadol ar ddarpariaeth gwasanaeth, a phryderon ynghylch effaith yr argyfwng costau byw.

### 18 Casgliad

- 18.1 Fel yr amlinellwyd yng nghrynodeb y Comisiynydd, o ystyried y penderfyniadau ariannu hanesyddol a'r heriau ariannol parhaus a'r gofynion gweithredol y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r gwasanaeth heddlu ehangach yn eu hwynebu, mae'n hanfodol sicrhau praesept heddlu a fydd yn diogelu plismona ac yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau mewn modd cynaliadwy, ond doeth.
- 18.2 Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn nodi'r amrywiaeth o ffactorau ac ystyriaethau mewnol ac allanol sydd wedi llywio datblygiad y CATC.
- 18.3 Mae'r Comisiynydd yn cyflwyno cynnig praesept ar gyfer 2025/26 a thybiaethau sy'n sail i'r CATC hyd at 2030/31, a fydd yn ceisio codi praesept eiddo band D cyfartalog o £2.39 y mis neu **£28.65 y flwyddyn i £360.68, sef cynnydd o 8.6%**. Bydd y cynnydd hwn yn codi praesept o £86.365 miliwn. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o gyllid craidd canolog a lleol o £153.303 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o 6.5% ar y lefel ariannu a osodwyd yn 2024/25.

Dangosir effaith y praesept heddlu hwn ar bob band eiddo isod:

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynnig Praesept

**Tabl 24 – Bandiau'r Dreth Gyngor**

Band Treth	Sail	2024/25	2025/26	Cynnydd
A	6/9fed	£221.35	£240.45	£19.10
B	7/9fed	£258.25	£280.53	£22.28
C	8/9fed	£295.14	£320.61	£25.47
<b>D</b>	<b>9/9fed</b>	<b>£332.03</b>	<b>£360.68</b>	<b>£28.65</b>
E	11/9fed	£405.81	£440.83	£35.02
F	13/9fed	£479.60	£520.98	£41.38
G	15/9fed	£553.38	£601.13	£47.77
H	18/9fed	£664.06	£721.36	£57.30
I	21/9fed	£774.74	£841.59	£66.85

- 18.4 Ar ôl ystyried y cynllun lleihau costau, bydd y lefel hon o gyllid yn ceisio caniatáu i'r heddlu barhau i gyflawni ei gynlluniau gweithredol a strategol, darparu buddsoddiad i foderneiddio'r gweithlu drwy adleoli swyddi swyddogion i blismona mewn lifrau yn ogystal ag cynyddu swyddi staff yn yr Adran Cyfiawnder Troseddol a fydd yn rhyddhau swyddogion o brosesau gweinyddol datgelu, golygu a gwiriadau cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu sy'n cymryd llawer o amser.
- 18.5 Mae'r buddsoddiad mewn adnoddau sydd wedi'i gynnwys ym mhroses cyllideb 2024/5 i sicrhau bod gan Ganolfan Reoli'r Heddlu adnoddau digonol sy'n addas i ymateb i'r galw cynyddol wedi bod yn hanfodol i wella gwasanaethau i'r cyhoedd ac mae'r gyllideb hon yn parhau i adeiladu ymhellach ar gapasiti gweithredol rheng flaen. Dylai'r lefel hon o gyllid gael effaith gadarnhaol ar y safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl. Bydd y dirwedd ariannol a gweithredol yn ddi-os yn parhau i fod yn heriol a bydd yn parhau i fod yn faes y bydd cynllunio strategol yn canolbwyntio arno yn y dyfodol.



# Atodiad A – Cyllideb 2024/25 – 2030/31



<b>Appendix A - Revenue Budget 2024 - 2031</b>								
Heading	Original Budget 2024/25	Revised Budget 2024/5	25/26	26/27	27/8	28/9	29/30	30/31
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Budgets Managed by the Police and Crime Commissioner</b>								
PCC Office Costs	1,504	1,529	1,908	1,954	1,997	2,039	1,825	1,862
PCC Commissioning	2,745	2,745	3,043	3,125	3,191	3,258	3,323	3,390
PCC Income	-1,412	-1,412	-1,386	-1,386	-1,386	-1,386	-1,386	-1,386
Transfer from Reserves - PCC	0	-25	-275	-275	-275	-275	-25	-25
<b>Net Costs OPCC</b>	<b>2,837</b>	<b>2,837</b>	<b>3,289</b>	<b>3,418</b>	<b>3,526</b>	<b>3,635</b>	<b>3,737</b>	<b>3,840</b>
<b>Budgets Managed by the Chief Constable</b>								
Police Officer	91,049	90,139	95,135	97,431	99,807	102,152	104,486	106,825
Police Staff	41,682	42,266	48,719	50,684	51,766	52,943	54,215	55,490
Police Pensions	1,849	1,809	1,873	1,919	1,960	2,002	2,042	2,083
Indirect Staff Costs	1,903	1,879	1,917	1,877	1,918	1,958	1,998	2,038
Premises Related	5,989	5,968	6,024	6,464	6,778	7,033	7,286	7,432
Transport Related	2,448	2,345	2,351	2,405	2,455	2,507	2,557	2,608
Supplies and Services	13,829	13,760	15,342	14,930	15,222	17,019	20,170	23,750
Agency and Contracted	5,771	5,410	5,291	5,389	5,444	5,558	5,669	5,783
Capital Borrowing Costs	1,080	1,155	1,659	2,348	3,478	3,928	4,146	4,389
Direct Capital Financing	2,718	2,718	2,718	3,143	3,933	4,522	4,522	4,522
<b>Total Gross Spending - Force</b>	<b>168,319</b>	<b>167,449</b>	<b>181,029</b>	<b>186,590</b>	<b>192,762</b>	<b>199,621</b>	<b>207,091</b>	<b>214,919</b>
Income	-10,023	-9,703	-10,386	-10,335	-10,257	-10,333	-10,559	-10,774
PUP	-3,490	-3,490	-3,006	-3,006	-3,006	-3,006	-3,006	-3,006
Pensions	-4,067	-4,067	-3,731	-3,731	-3,731	-3,731	-3,731	-3,731
Home Office Neighbourhood Policing Guarantee Grant	0	0	-1,417	-1,417	-1,417	-1,417	-1,417	-1,417
Welsh Government PCSO Grant	-4,067	-2,294	-2,361	-2,361	-2,361	-2,361	-2,361	-2,361
National Insurance Grant	0	0	-2,130	-2,173	-2,216	-2,260	-2,306	-2,352
Specific Grants	-8,450	-5,176	-5,401	-5,376	-5,354	-5,334	-5,316	-5,300
Recharges and Apportionments	-96	-524	-646	-646	-646	-646	-646	-646
<b>Net Spending - Force</b>	<b>142,194</b>	<b>142,194</b>	<b>151,951</b>	<b>157,546</b>	<b>163,774</b>	<b>170,533</b>	<b>177,750</b>	<b>185,332</b>
Use of (-) / Contribution to (+) Balances	-1,129	-1,129	-1,938	-717	-413	-313	-313	-313
<b>Total Spending OPCC and Force</b>	<b>143,902</b>	<b>143,902</b>	<b>153,303</b>	<b>160,247</b>	<b>166,887</b>	<b>173,856</b>	<b>181,174</b>	<b>188,859</b>
% Increase in Budget	7.9%		6.5%	4.5%	4.1%	4.2%	4.2%	4.2%
<b>Financing</b>								
Police Grant	-64,538	-64,538	-66,938	-68,277	-69,643	-71,035	-72,456	-73,905
Precept	-79,364	-79,364	-86,365	-91,970	-97,245	-102,820	-108,718	-114,954
	<b>-143,902</b>	<b>-143,902</b>	<b>-153,303</b>	<b>-160,247</b>	<b>-166,887</b>	<b>-173,856</b>	<b>-181,174</b>	<b>-188,859</b>

1. Mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif swyddog cyllid gyflwyno adroddiad i'r comisiynydd, ar yr adeg y caiff y gyllideb ei phennu ar y materion canlynol:
  - cadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion cyfrifiadau.
  - a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.
2. Mae'n ofynnol i'r comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddau roi sylw i'r adroddiad hwn wrth ystyried a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r gyllideb.
3. Fel y gwyddom, mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddigynsail am amrywiaeth o resymau, ond mae 2024/25 wedi parhau fel hyn unwaith eto gydag economi ansefydlog, cyfraddau llog uchel parhaus, rhyfeloedd yn Wcraïn a Gaza, ac ansicrwydd ariannu gyda setliadau blwyddyn.
4. Mae pwysau helaeth o fewn y sector cyhoeddus yn parhau i gael eu cofnodi'n dda sydd bellach yn gweld goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau a chyllid grant penodol.
5. Mae trafodaethau manwl wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol 2024/25 mewn perthynas â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a'r CATC. Mae'r rhain wedi digwydd mewn sefyllfa anffurfiol rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau, o fewn strwythur llywodraethu ffurfiol yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (SCHTh), yn ogystal â'r gyfres o gyfarfodydd praesept a CATC rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, y Cyfarwyddwr Cyllid a minnau.
6. Ar ôl cydnabod maint yr heriau ariannol yn y dyfodol, sefydlodd y Prif Gwnstabl dîm ar gyfer Rhaglen Adolygu'r Heddlu yng nghanol 2022. Mae'r tîm wedi hen ennill ei blwyf ac yn mynd ati'n rhagweithiol i adolygu arferion gweithredu presennol ac ymchwilio i arferion gorau ar draws plismona i sicrhau bod Dyfed-Powys yn addas ar gyfer y dyfodol.
7. Er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, nododd yr heddlu gynllun arbedion ac maent wedi llwyddo i gyflawni hyn. Mae cynllun arbedion pellach o £2.8 miliwn wedi'i nodi ar gyfer 2025/6 sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Cydnabyddir ei bod yn anoddach cyflawni arbedion ac mae cyfyngiadau'r rhaglen Uplift yn parhau i atal y cymysgedd adnoddau gorau posibl ar gyfer yr heddlu.
8. Mae'r cyllidebau arfaethedig a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar asesiad llinell-wrth-linell cynhwysfawr o ragdybiaethau chwyddiant. Er mwyn llywio'r rhagdybiaethau, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a minnau wedi ystyried ystod eang o ddata ariannol ac economaidd, gan gynnwys yr adroddiad cynhwysfawr iawn a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn ogystal â pharhau i ymgysylltu'n agos â rhwydweithiau proffesiynol.
9. Mae'r prif gwnstabl wedi nodi ei ofynion cyllidebol yn dryloyw ar bob cam ac wedi dogfennu'r newidiadau fel y maent wedi'u gwireddu neu eu crisialu yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid cydnabod bod nifer sylweddol o ragdybiaethau ac amcangyfrifon yn cael eu defnyddio i lunio'r gofyniad cyllidebol. Nid yw hon yn wyddor fanwl ac ni all fod, a bydd amrywiadau yn anochel.

10. Er bod y CATC wedi ceisio gwneud darpariaeth briodol ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau realistig, a lefelau incwm cyraeddadwy, rhaid cydnabod bod hinsawdd o risg oherwydd cymhlethdod y materion sydd ar waith ar hyn o bryd.
11. Er bod grant ychwanegol wedi'i ddyrannu ar sail gylchol i helpu i gwrdd â'r dyfarniad cyflog o 4.75% ar gyfer 2024/25, nid yw'r setliad yn ddigon i dalu am gyfanswm cost y cynnydd mewn cyflog ac Yswiriant Gwladol na phwysau chwyddiant ehangach ar gyfer 2025/26. Yn amlwg, gyda chyfran mor fawr o'r gyllideb gwariant, tua 75%, yn cael ei gwario ar gyflog, gall unrhyw amrywiad rhwng dyfarniadau cyflog tybiedig a dyfarniadau cyflog gwirioneddol gael goblygiadau sylweddol. At ddibenion graddfa a sensitifrwydd, byddai amrywiad o 1% yn cael effaith rhan o'r flwyddyn o £852,000 (dyfarniad o fis Medi).
12. Ar ôl ystyried rhagolygon chwyddiant y sector cyhoeddus, mae'r tybiaethau cynllunio yn cynnwys codiad cyflog o 2.8% ar gyfer staff a swyddogion o fis Medi 2025.
13. Mae risgiau wedi'u hamlygu o'r blaen mewn perthynas ag ansicrwydd ynghylch grantiau penodol. Yn anffodus, mae effeithiau blaenorol diffygion ariannol Llywodraeth Cymru wedi gweld y risgiau hyn yn cael eu gwireddu gyda gostyngiadau sylweddol i gyllid SCCH a'r ffaith bod Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan wedi'i thynnu'n ôl yn llwyr. Mae'r ddau achos hyn yn amlygu natur ansicr gweithgareddau plismona sy'n cael eu hategu gan arian grant penodol. Mae ymdrin â'r toriadau hyn nid yn unig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau, ond mewn rhai achosion mae'n cydblethu â gofynion rhaglen Uplift yr heddlu.
14. Mae yna hefyd risgiau gydag ansicrwydd ynghylch yr adolygiad cyllid fformiwlâ, a'r diffyg setliadau ariannu aml-flwyddyn nad ydynt yn rhoi unrhyw sicrwydd ar gyfer cynllunio strategol ac ariannol cadarn.
15. Roedd cynnydd cyffredinol o 0.2% yn y sylfaen drethu ar gyfer 2025/26, mae'r cynnydd hwn yn is na blynyddoedd blaenorol ac yn dilyn newid penderfyniad gan un awdurdod lleol mewn perthynas â phremiymau ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag. Yn amlwg, gallai newidiadau sylweddol ym mhroffil y rhain effeithio ar gyfrifiadau sylfaen treth yn y dyfodol a dylid nodi hyn fel risg.
16. Ystyrir lefelau cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun risg, sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), sy'n datgan "*er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol heb eu dyrannu... dylid ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r awdurdod.*"
17. Mae digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn parhau i gael ei fonitro'n agos i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal ar lefel gynaliadwy.
18. Mae proffil tybiedig cyllid a chost gwasanaethau o fewn y CATC yn gweld gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn disgyn o 3.83% o wariant referniw net ar ddiwedd 2024/25, i 3.17% erbyn diwedd 2028/29. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd y cynnydd yn y gyllideb referniw net yn hytrach na'r defnydd, gyda'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn parhau ar £5.51 miliwn. Mae'n hanfodol ac yn ddarbodus bod y cydbwysedd hwn yn cael ei gynnal er mwyn caniatáu ar gyfer beichiau a gofynion gweithredol nas rhagwelwyd. Mae

---

hefyd yn bwysig nodi, hyd yn oed mewn sefyllfa lle gallai fod cymhwyster ar gyfer grant arbennig, byddai angen talu costau hyd at 1% o'r gyllideb refeniw net (£1.439 miliwn ar gyfer 2024/25) yn lleol fel arfer.

19. Rhoddir adolygiad ac ystyriaeth barhaus i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gynorthwyo i gyflawni mentrau penodol neu i liniaru yn erbyn risgiau penodol. Wrth baratoi'r CATC, ystyriwyd y cyfnod monitro ariannol a ragwelir yn ystod y flwyddyn a chynigiwyd nifer o symudiadau ac ailddyraniadau i'r Comisiynydd er mwyn cynorthwyo i liniaru pwysau untro, ond ni chaiff hyn ei gwblhau tan ddiwedd y flwyddyn.
20. Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, mae'r angen am arbedion/gofynion effeithlonrwydd parhaus dros gyfnod y CATC ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol yn erbyn y dirwedd economaidd ehangach yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau'n heriol hyd y gellir rhagweld.
21. Rwy'n fodlon bod y CATC wedi ystyried a dogfennu'n llawn yr amrywiaeth o faterion a thybiaethau hysbys sy'n effeithio dros y cyfnod cynllunio er mwyn llunio cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Gallaf gadarnhau fod yr amcangyfrifon refeniw a chyfalaf a gynhwysir yn y CATC hwn yn cael eu hystyried yn gadarn ac yr ystyrir bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. Fodd bynnag, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol ac mae angen parhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwytnwch ariannol a chynaliadwyedd i amddiffyn cymunedau ardal Dyfed-Powys.

**Nicola Davies**

**Prif Swyddog Cyllid i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys**

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
Costau Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu	62.1%	Uchel	<p>Mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud mewn perthynas â chodiadau cyflog yn y dyfodol ond maent yn parhau i fod yn ansicr hyd nes y byddant wedi'u cwblhau. Mae'r gyllideb hon yn sensitif iawn i newidiadau yn niferoedd swyddogion yr heddlu a'r cymhlethdodau wrth reoli ymddeoliadau, ymddeoliadau ar sail afiechyd, cadw swyddogion, recriwtio recriwtiaid newydd.</p> <p>Bodloni'r gofynion sy'n gysylltiedig â rhaglen Uplift yr heddlu.</p> <p>Mae gofynion gweithredol yn gofyn am oramser.</p> <p>Mae newidiadau yn y prisiadau pensiwn yn y dyfodol yn parhau i fod yn risg.</p>	<p>Mae'r tybiaethau ynghylch codiadau cyflog yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth ariannol ac economaidd sy'n cael ei hadolygu'n barhaus.</p> <p>Mae gan Wasanaethau Pobl gynllun recriwtio gweithlu strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y nifer rhagamcanol o ymddeoliadau swyddogion heddlu, ymadawyr, trosglwyddeion, a swyddogion ychwanegol fel rhan o raglen Uplift yr heddlu. Mae'r nifer gofynnol o swyddogion ar brawf yn cael ei gynllunio a'i ddyrannu'n unol â hynny, gyda threfniadau'n cael eu cryfhau i sicrhau bod targedau'r Swyddfa Gartref yn cael eu bodloni, gydag adroddiadau ychwanegol i'r Swyddfa Gartref drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Mae rheolaeth ariannol dynn a rheolaeth goramser, gan ddeiliaid cyllidebau a'r Grŵp Goramser (dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol).</p> <p>Mae deiliaid cyllidebau yn ymwybodol o'r heriau ariannol a'u cyfrifoldebau am reolaeth ariannol ddarvoudus, gydag ethos cryf ac ymwybyddiaeth o'r angen am reolaeth ariannol.</p> <p>Sefydlwyd cronfa wrth gefn y Prif Gwnstabl i liniaru cyfnodau cyfnewidiol digwyddiadau difrifol a mawr.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor Iliniarol
				<p>Mae cynrychiolaeth ariannol ar bob grŵp aur a grwpiau ymchwilio gweithredol eraill yn digwydd fel mater o drefn. Mae hyn yn galluogi goramser a chostau eraill i gael eu monitro'n agos ym mhob cyfarfod, gydag adroddiadau amserol yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb, gydag adroddiadau ffurfiol drwy'r strwythur llywodraethu. Trafodir perfformiad ariannol yn rheolaidd gan y Comisiynydd a Phrif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona ac ymdrinnir â materion ariannol hefyd yn y Bwrdd Cyllid Strategol.</p>
<p>Staff yr heddlu Costau Cyflogau (gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu [SCCH])</p>	31.4%	Uchel	<p>Mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud mewn perthynas â chodiadau cyflog yn y dyfodol ond maent yn parhau i fod yn ansicr hyd nes y byddant wedi'u cwblhau. Bodloni targedau SCCH Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag amodau grant. Gorwariant o ran goramser o ganlyniad i ofynion sefydliadol, gweithredol a lefelau swyddi gwag.</p>	<p>Mae'r tybiaethau ynghylch codiadau cyflog yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth ariannol ac economaidd sy'n cael ei hadolygu'n barhaus. Caiff y sefydliad ei fonitro drwy lywodraethu ffurfiol a manwl gan y Bwrdd Rheoli Adnoddau. Mae proses porth yn monitro ac yn rheoli pob newid i'r sefydliad ac yn wir mae pob swydd yn cael ei hadolygu a'i hystyried yn llawn cyn cael ei hysbysebu.</p> <p>Mae'r cyllidebau cyflog yn cael eu monitro'n barhaus fel rhan o'r broses rheoli cyllideb, a chyflwynir adroddiadau ffurfiol</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor Iliniarol
				<p>ar draws y strwythur llywodraethu. Trafodir perfformiad ariannol yn rheolaidd gan y Comisiynydd a Phrif Gwnstabl yn y Bwrdd Plismona ac ymdrinnir â materion ariannol hefyd yn y Bwrdd Cyllid Strategol.</p> <p>Mae cyllidebau cyflogau staff a goramser yn cael eu monitro'n rheolaidd ac yn agos ac mae partneriaid busnes cyllid yn ymgysylltu'n agos â deiliaid cyllidebau.</p>
Costau Staff Anuniongyrchol	1.3%	Canolig	Mae cost y cynllun hyfforddi yn parhau i gynyddu i ateb y galw cynyddol am uwchsgilio staff a swyddogion. Mae cynnal y gofyniad cynyddu nifer swyddogion a chynnydd mewn cyfraddau gadael cyn gorffen hyfforddi yn cyfrannu at y risg hwn.	Mae cyllidebau hyfforddi wedi'u pennu i adlewyrchu gofynion gweithredol hollbwysig. Caiff cyllidebau eu monitro'n fisol ac mae Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant yn ystyried blaenoriaethau hyfforddi cyn cyflwyno hyfforddiant.

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor Iliniarol
Costau adeiladau	4.0%	Canolig	<p>Er gwaethaf rhaglen waith i fynd i'r afael â chyflwr yr ystad ac ôl-groniadau gwaith cynnal a chadw, efallai y bydd angen costau refferniw uwch i sicrhau bod yr ystad yn cael ei chynnal fel amgylchedd gwaith diogel i staff a swyddogion.</p> <p>Erys ansicrwydd ynghylch costau cyfleustodau yn y dyfodol ac amodau tywydd eithafol.</p>	<p>Ystyrir gofynion ystadau'r rhaglen gyfalaf fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol ac maent wedi bod yn destun adolygiad penodol gan y Bwrdd Cyllid a Strategaeth.</p> <p>Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn dod â staff allweddol o swyddfa'r Comisiynydd a'r heddlu ynghyd i gyfarfod yn fisol i drafod materion ystadau gan gynnwys cyllid. Mae'r grŵp hwn wedi gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu methodoleg blaenoriaethu ar sail risg ar gyfer gwaith cynnal a chadw.</p> <p>Negodi contractau ynni yn genedlaethol trwy Bluelight Commercial.</p> <p>Adolygu'r defnydd o ynni i chwilio am arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd 'buddsoddi i arbed'.</p> <p>Bydd y Grŵp Cynaliadwyedd yn ystyried cyfleoedd pellach ac yn goruchwyllo'r gronfa wrth gefn Cynaliadwyedd a Thrawsnewid.</p>



## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
Costau trafndiaeth	1.6%	Canolig	<p>Mae costau tanwydd yn dueddol o amrywio'n sylweddol yn y farchnad a allai gynyddu costau rhedeg.</p> <p>Costau cynyddol dod o hyd i rannau a heriau yn y gadwyn gyflenwi.</p>	<p>Caiff prisiau tanwydd eu monitro, ac asesir eu heffaith yn rheolaidd drwy'r gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn sydd ar waith.</p> <p>Mae data telemateg yn galluogi'r heddlu i fonitro'r defnydd o gerbydau ac ymddygiad gyrwyr.</p> <p>Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer parhau i fabwysiadu cerbydau trydan, a fydd yn sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion.</p> <p>Mae cyflwr y farchnad yn parhau i gael ei fonitro ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor Iliniarol
Cyflenwadau a Gwasanaethau a Chomisiynu	9.8%	Canolig	<p>Gallai archebion y tu allan i'r fframwaith caffael cymeradwy arwain at orwario yn erbyn y gyllideb.</p> <p>Mae amodau'r farchnad yn parhau i fod yn heriol o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd.</p> <p>Gallai pwysau parhaus ac effeithiau cynnydd chwyddiant o fewn Gwasanaethau a Gomisiynir effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir.</p>	<p>Mae archebion prynu yn cael eu prosesu gyda gwiriad cyllideb integredig ar gyfer eitemau gwerth uchel.</p> <p>Mae'r Adran Gaffael yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau ariannol.</p> <p>Mae gweithdrefnau monitro cyllideb cadarn ar waith ac yn cael eu dilyn.</p> <p>Mae sefydlu Bluelight Commercial yn parhau i hwyluso a medi rhywfaint o arbedion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r heddlu yn ymwneud yn llawn â'r gwaith.</p> <p>Mae gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd yn cael eu rheoli a'u hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu a'u goruchwyllo gan y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu. Cyflwynir ceisiadau ychwanegol am gyllid lle bynnag y bo modd.</p>
Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract	3.4%	Canolig	<p>Costau ychwanegol a chynyddol yn deillio o'r trefniadau cydweithio – yn benodol yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol, y Gyduned Arfau Saethu a'i chyfleuster hyfforddi.</p>	<p>Parhau i gryfhau llywodraethu, rheolaeth ariannol a chraffu ynghylch trefniadau cydweithredol.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
Ariannu Cyfalaf a Benthycu	2.9%	Uchel	<p>Mae maint y gofynion buddsoddi cyfalaf yn sylweddol a byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu costau benthycu.</p> <p>Mae amrywiadau a chynnydd mewn cyfraddau llog yn achosi pwysau ariannol ychwanegol.</p> <p>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni TGCh.</p> <p>Costau uwch ar gyfer prosiectau cyfalaf.</p>	<p>Cyngor allanol gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys.</p> <p>Mae'r Strategaeth Gyfalaf, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'u halinio.</p> <p>Bydd gofynion buddsoddi cyfalaf yn parhau i gael eu hadolygu'n weithredol gan fyrddau a phartion perthnasol.</p> <p>Monitro'r holl brosiectau cyfalaf yn rheolaidd, yn lleol ac yn genedlaethol.</p> <p>Aseiad cadarn a blaenoriaethu gofynion buddsoddi cyfalaf trwy lywodraethu priodol.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
Grant Penodol	-12.2%	Uchel	<p>Ni ellir cynnal gwasanaethau hanfodol a gefnogir gan grantiau penodol, gan achosi effeithiau sylweddol ar ddarpariaeth weithredol a sefydliadol.</p> <p>Beichiau ariannol ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i golli/lleihau cyllid grant.</p> <p>Dylid defnyddio grantiau yn unol â thelerau ac amodau'r grant.</p> <p>Gall darparwyr grantiau roi'r gorau i dalu grant heb fawr o rybudd.</p>	<p>Mae sylwadau yn parhau i gael eu gwneud ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â'r ystod o grantiau penodol sy'n cefnogi plismona craidd gan bwysleisio'r angen am sicrwydd tymor hwy.</p> <p>Mae'r tybiaethau mewn perthynas â'r holl grantiau penodol yn cael eu hystyried yn flynyddol ac fel mater o drefn fel rhan o fonitro ariannol.</p> <p>Dylid recriwtio swyddi a ariennir gan grantiau dros dro am gyfnod y grant, lle bynnag y bo modd, gyda Grŵp Rheoli'r Sefydliad yn craffu ar yr holl newidiadau i'r swyddi hyn a'u hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Pobl.</p> <p>Mae holl delerau'r grant wedi'u hawdurdodi gan y Prif Swyddog Cyllid.</p> <p>Mae cynlluniau ymadael cynhwysfawr yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer pob gweithgaredd penodol a gefnogir gan grantiau allanol.</p> <p>Mae gwasanaethau a gomisiynir a ategir gan grantiau penodol yn cael eu hawdurdodi gan y Comisiynydd a'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid.</p>
Incwm Arall	-6.8%	Canolig	<p>Mae'r targedau incwm yn cael eu tangyflawni o ganlyniad i lefelau gweithgaredd is na'r disgwyl.</p>	<p>Mae'r Grŵp Cyllid a Chaffael Strategol yn ystyried cyfleoedd i wneud y mwyaf o incwm, gyda deiliaid cyllidebau yn cael eu hannog yn weithredol i ddatblygu cyfleoedd.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
				Caiff incwm ei adolygu a'i fonitro fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol.
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	-1.3%	Uchel	<p>Ni ellir bodloni pwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb effaith andwyol.</p> <p>Pwysau chwyddiant uwch na'r rhai a dybiwyd.</p> <p>Llai o wytnwch ariannol wrth i gronfeydd wrth gefn leihau.</p>	<p>Adolygiad blynyddol ac ystyriaeth o'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn, sy'n amlinellu'r dull a'r trefniadau.</p> <p>Cronfa weithredol wrth gefn i liniaru cyfnodau brig mewn digwyddiadau difrifol a mawr.</p> <p>Ystyrir bod cronfeydd wrth gefn penodol eraill yn briodol i liniaru pwysau untro.</p> <p>Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol yn parhau i adolygu gofynion tymor canolig, cronfeydd wrth gefn a materion ariannu.</p> <p>Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n rheolaidd drwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol.</p>

## Atodiad C – Aseiad Risg o Gyllidebau Materol



Maes cyllideb	% o gostau net	Lefel risg	Risg a nodwyd	Ffactor lliniarol
Cyfalaf	Amherthn asol	Uchel	<p>Mae maint, cost uchel a chymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o orwario cyllidebau, mynd y tu hwnt i derfynau amser a pheidio â chyflawni amcanion yr achos busnes gwreiddiol.</p> <p>Straen sylweddol yn amodau'r farchnad o ganlyniad i ddigwyddiadau'r byd a'r dirwedd economaidd.</p> <p>Oedi parhaus a chostau cynyddol ar gyfer rhaglenni TGCh cenedlaethol.</p>	<p>Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro drwy drefniadau llywodraethu ffurfiol.</p> <p>Canolbwyntiwyd yn sylweddol drwy'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth, y Grŵp CATC ac yn y Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh a Fflyd i adolygu gofynion seilwaith yn feirniadol dros gyfnod o ddeng mlynedd.</p> <p>Bu cryfhau parhaus mewn perthynas â chynigion prosiect ac achosion busnes a bydd y gwaith hwn yn parhau o ddifrif, i sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau'n cael eu hystyried yn llawn, a'r opsiynau'n cael eu harfarnu, gyda buddion busnes yn cael eu nodi'n glir.</p> <p>Monitro'r holl brosiectau cyfalaf lleol a chenedlaethol yn rheolaidd.</p>

---

## **STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN**

### **CRONFEYDD WRTH GEFN, BALANSAU A DARPARIAETHAU**

#### **1 Cyflwyniad**

- 1.1. Mae'r gofyniad am arian wrth gefn yn cael ei gydnabod mewn statud. Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i gwrdd â gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllidebol.
- 1.2. Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn nodi y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (y Comisiynydd) sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gallent gael eu defnyddio gan y Prif Gwnstabl) a darpariaethau mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Dylai hyn roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus a'r gofyniad i gyflawni gweithrediadau plismona eithriadol neu annisgwyl.
- 1.3. Mae cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reolaeth ariannol. Maent yn helpu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ymdopi â phwysau ariannol anrhagweladwy a chynllunio ar gyfer ymrwymadau gwariant yn y dyfodol.
- 1.4. Bydd yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu dal gan y Comisiynydd a'u rheoli i gydbwysu blaenoriaethau ariannu a gwariant ac i reoli risgiau. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig.

#### **2. Diffiniadau**

- 2.1. Mae cronfeydd wrth gefn a balansau yn wahanol i ddarpariaethau o safbwynt cyfrifyddu. Yn achos cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (yn hytrach na chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio) a darpariaethau, dylai'r ddau swm a gynrychiolir ar y fantolen gael eu cyfateb gan falansau arian parod ffisegol, oni bai bod benthyca mewnol wedi digwydd.
- 2.2. **Cronfeydd Defnyddiadwy** – mae'r rhain yn falansau sy'n cael eu dal yn gyffredinol at dri diben penodol ac sy'n cael eu categorio fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:
  - Balans gweithredol i helpu i liniaru effaith llif arian anwastad – cronfeydd wrth gefn cyffredinol.
  - Cronfa wrth gefn i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl – cronfeydd wrth gefn cyffredinol.
  - Dull o gronni arian i fodloni gofynion hysbys neu a ragwelir – cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- 2.3. **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** – balansau yw'r rhain sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar gyfer mentrau a dibenion penodol.
- 2.4. **Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Neilltuo** – balansau yw'r rhain sy'n cael eu dal gan y Comisiynydd ar ran trydydd partion ac felly ni ellir eu defnyddio heb gyfarwyddyd penodol.

- 2.5. **Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio** – nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol a chânt eu dal at ddibenion cyfrifyddu.
- 2.6. **Darpariaethau** – yn ofynnol ar gyfer unrhyw rwymedigaethau ansicr o ran amseru neu swm yr aethpwyd iddynt.

### **3. Trefniadau Llywodraethu**

- 3.1. Y gofynion llywodraethu lleiaf mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau yw:
- Bod gan y Comisiynydd strategaeth gadarn ar lefel a natur y cronfeydd wrth gefn a'r balansau sydd eu hangen arno a fydd yn cael ei hystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio;
  - Dylai'r lefelau gofynnol o gronfeydd wrth gefn a balansau gael eu hadlewyrchu yn y gyllideb flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
  - Bod y Comisiynydd yn monitro ac yn cynnal lefel y cronfeydd wrth gefn a'r balansau o fewn yr ystod a bennir gan ei bolisi cytunedig, gyda chynghor gan y Prif Swyddog Cyllid a fydd yn sicrhau bod protocolau clir ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio;
  - Bod y Comisiynydd yn cadw cronfeydd wrth gefn digonol fel y gellir bodloni pwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan alw heb effaith andwyol ar gyflawni'r blaenoriaethau allweddol;
  - Bod strategaeth y Comisiynydd ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau a chaiff ei hadrodd yn gywir ac yn glir ar yr un pryd â gosod y gyllideb a'r praesept. Caiff lefel y balansau ei hadolygu a'i rheoli i sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn gadarn ac yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei amcanion hirdymor;
  - Lle eir y tu hwnt i'r lefelau targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau, mae costau cyfle cynnal y lefelau hyn wedi'u pennu, o gymharu â'r budd a gronwyd.
- 3.2. Dylai rheoliadau ariannol a Chynllun Caniatâd y cytunwyd arnynt yn lleol wneud y canlynol:
- Cynnwys manylion llawn am sut y bydd y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn a balansau yn gweithredu'n lleol;
  - Sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl ar gyfer blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol;
  - Gwneud darpariaeth, lle bo'n briodol, i gyllidebau gael eu cario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall.



## **Cyfrifoldebau Statudol**

- 3.3. Mae "Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl" yn nodi'r pum egwyddor sy'n diffinio'r gweithgareddau a'r ymddygiadau craidd sy'n perthyn i rôl y Prif Swyddog Cyllid a'r trefniadau sefydliadol sydd eu hangen i'w cefnogi.
- 3.4. Ar gyfer pob egwyddor, mae'r datganiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol o fewn sefydliad i sicrhau y gall prif swyddogion cyllid weithredu'n effeithiol a chyflawni eu dyletswyddau craidd.
- 3.5. Y trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn a balansau, ac sy'n gyfrifoldeb y prif swyddog cyllid yw:
  - Sicrhau y rhoddir cyngor ar lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau yn unol â chanllawiau arferion da;
  - Adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd ariannol wrth gefn pan ystyrir y gyllideb a gosodir y praesept, fel sy'n ofynnol yn ôl adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chanllawiau CIPFA.
- 3.6. Dylid ymgymryd â'r ddau mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid (Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl).
- 3.7. Mae hefyd amrywiaeth o fesurau diogelu ar waith sy'n gwrthsefyll unrhyw ymgais gan y Comisiynydd i orymrwymo'n ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
  - Y gofyniad cyllideb fantoledig;
  - Pwerau adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 prif swyddogion cyllid, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prif swyddog cyllid adrodd os oes, neu'n debygol o fod, gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytwys;
  - Mae cyfrifoldeb yr archwilydd allanol i adolygu ac adrodd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygiad o lefelau'r cronfeydd wrth gefn, gan ystyried ei wybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr archwilwyr yw pennu lefel optimwm neu leiafswm y cronfeydd wrth gefn ar gyfer sefydliadau unigol.

## **5. Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gronfeydd Wrth Gefn yr Heddlu**

- 5.1 Ar 31 Mawrth 2018, cyhoeddodd y Gweinidog â chyfrifoldeb am Blismona a'r Gwasanaeth Tân ganllawiau newydd ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh) ei chyhoeddi o ran cronfeydd wrth gefn yr heddlu.
- 5.2 Un o'r gofynion allweddol yw y dylai'r wybodaeth am bob cronfa wrth gefn nodi'n glir faint o'r cyllid sy'n perthyn i bob un o'r tri chategori canlynol:
  - Cyllid ar gyfer gwariant arfaethedig ar brosiectau a rhaglenni dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig presennol.
  - Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol y tu hwnt i'r cyfnod cynllunio presennol.

- Cronfa wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag anghenion gwariant eraill, a gedwir yn unol ag egwyddorion cadarn rheolaeth ariannol dda.
- 5.3 Amlinellodd y Gweinidog hefyd y byddai lefelau cyllid grant yn y dyfodol yn ystyried cyhoeddi'r wybodaeth hon yn dryloyw ar draws y gwasanaeth.

## **6. Asesu Lefel Priodol y Cronfeydd Wrth Gefn**

- 6.1 Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod lefel y cronfeydd wrth gefn yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol ac mae'n atebol i drethdalwyr am y penderfyniadau a wneir. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) ddyletswydd i roi'r cyngor sydd ei angen ar y Comisiynydd i wneud penderfyniadau da.
- 6.2 Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal yn ddarbodus. Maent yn galluogi'r sefydliad i ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn llif arian a digwyddiadau costus annisgwyl a thrwy hynny helpu i'w ddiogelu rhag gorrario'r gyllideb flynyddol, pe bai digwyddiadau o'r fath yn digwydd. Gellir cynnal cronfeydd wrth gefn at ddibenion penodol hefyd lle mae'n debygol y bydd gofyniad gwariant yn codi yn y dyfodol.
- 6.3 Mae'r ffaith bod y cyhoedd yn derbyn y praesept yn rhannol ddibynnol ar y ddealltwriaeth bod y praesept yn cael ei wario ar blismona ac mai dim ond swm rhesymol a darbodus o unrhyw orariannu sy'n cael ei storio fel cronfa wrth gefn gyffredinol. I'r gwrthwyneb, pan fo gwariant nas rhagwelwyd yn codi, mae'n debygol y byddai'r cyhoedd yn disgwyl i'r sefydliad fod â digon o adnoddau i dalu'r gost heb orfod gorrario.
- 6.4 Er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, dylai'r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) gynnwys asesiad cyfredol o'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol.
- 6.5 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig y mae'n rhaid eu cymryd wrth baratoi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol benodol.
- 6.6 Dylai proses asesu lefel ofynnol cronfeydd wrth gefn gynnwys cynnal dadansoddiad o'r fantolen yn flynyddol a rhagamcanu eitemau allweddol y fantolen. Mae'r rhagamcaniad hwn yn cynnwys rhagolygon o lefelau cronfeydd wrth gefn a balansau dros gyfnod o dair blynedd i gwmpasu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf.
- 6.7 Wrth asesu lefel y cronfeydd wrth gefn, rhoddir ystyriaeth ddyledus hefyd i drefniadau cymorth Llywodraeth y DU:
- Cynllun Cymorth Ariannol Brys Llywodraeth Cymru i helpu heddluoedd sy'n wynebu baich ariannol o ganlyniad i ddarparu gwaith lleddfau effeithiau a chyflawni gwaith ar unwaith mewn ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr. Mae'r cynllun yn amodol ar drothwy sy'n cael ei osod ar 0.2% o'r gyllideb refeniw.
  - Grant Arbennig y Swyddfa Gartref i dalu costau ychwanegol a fyddai'n

codi o blismona digwyddiadau annisgwyl ac eithriadol yn eu hardaloedd. Os bydd yn cael ei gymeradwyo, disgwylir i heddluoedd dalu costau ychwanegol y digwyddiad hyd at 1% o'r gyllideb refeniw.

- 6.8 Dylai strategaeth cronfeydd a balansau effeithiol ystyried dull y sefydliad o reoli'r trysorlys, cynlluniau gwariant cyfalaf a'r angen am fenthyca allanol, yn erbyn y defnydd o falansau a chronfeydd wrth gefn.
- 6.9 Mae canllawiau CIPFA yn awgrymu, yn ogystal â gofynion llif arian, y dylid ystyried y ffactorau canlynol:

<b>Rhagdybiaethau Cyllideb</b>	<b>Sefyllfa a Rheolaeth Ariannol</b>
Trin chwyddiant a chyfraddau llog	Sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliadau (lefel benthyca, dyled heb ei thalu, cyfraddau casglu treth gyngor ac ati)
Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf	Hanes llwyddiannus y sefydliad o ran rheoli cyllidebau ac arian, gan gynnwys cadernid y cynlluniau tymor canolig
Triniaeth pwysau a arweinir gan alw	Gallu'r sefydliad i reoli pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn
Trin arbedion effeithlonrwydd/enil lion cynhyrchiant a gynlluniwyd	Cryfder yr wybodaeth ariannol threfniadau adrodd
Y risgiau ariannol sy'n gynhenid i unrhyw bartneriaethau ariannu newydd sylweddol, trefniadau contract allanol mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr	Gweithdrefnau trosglwyddo a diwedd blwyddyn y sefydliad mewn perthynas â thanwariant/gorwariant yn y gyllideb ar lefel sefydliadol ac adrannol
Argaeledd cronfeydd eraill i ddelio â phrif gynlluniau wrth gefn a digonolrwydd darpariaethau	Pa mor ddigonol yw trefniadau yswiriant y sefydliad ar gyfer risgiau mawr nas rhagwelwyd

- 6.10 Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau bod

gweithgareddau plismona yn cael eu hariannu'n barhaus (gan gynnwys y gofyniad i gyflawni gweithrediadau eithriadol neu annisgwyl). Dylai'r gyllideb flynyddol gynnwys swm realistig o arian wrth gefn gweithredol i fod ar gael i'r Prif Gwnstabl i fodloni'r blaenoriaethau gweithredol, heb fod angen cymeradwyaeth ychwanegol.

- 6.11 Bydd y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y gyllideb refeniw flynyddol yn ddigonol i ariannu anghenion gweithredol y gellir eu rhagweld, drwy gyflwyno achos busnes fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses gosod cyllideb flynyddol i'r Prif Swyddog Cyllid (y Comisiynydd) a'r Comisiynydd, er mwyn i eitemau gwariant untro gael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- 6.12 Dylai'r achos busnes gynnwys ystyriaeth o lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau mawr a gofynion gweithredol eraill, faint o gronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer eu defnyddio.
- 6.13 Bydd cymeradwyo achosion busnes ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn yn amodol ar y terfynau awdurdodi a nodir yn y rheoliadau ariannol, i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd.

## **7. Cronfeydd wrth gefn cyffredinol**

- 7.1 Mae "*Nodyn Canllaw ar Gronfeydd Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol*" Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn nodi bod angen cronfa gyffredinol wrth gefn i weithredu fel "*balans gweithredol i helpu i liniaru effaith llif arian anwastad ac osgoi benthyca dros dro diangen – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.*" Mae angen cronfa gyffredinol wrth gefn hefyd i weithredu fel "*cynllun wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl – mae hyn hefyd yn rhan o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn.*"
- 7.2 Er nad yw CIPFA yn pennu isafswm neu lefel optimaidd cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ei ganllawiau cyffredinol yw sefydlu cronfa wrth gefn sy'n cynrychioli "*adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian.*"
- 7.3 Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un yn unig o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried y rhagdybiaethau ariannol allweddol sy'n sail i'r gyllideb, ochr yn ochr ag ystyried trefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad.

Bydd y Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol yn cael ei chadw ar £5.512 miliwn a fydd yn darparu gwydnwch ariannol i liniaru beichiau anghyffredin ac annisgwyl.

## **8. Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd gan gynnwys Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Neilltuo**

- 8.1 Mae'r cod cyfrifyddu cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i ddiben, defnydd a sail trafodion y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gael eu nodi'n glir. Bydd adolygiad o ddiben a lefel y cronfeydd wrth gefn yn cael ei gynnal yn flynyddol yn ystod proses pennu'r gyllideb a bydd manylion y defnydd o gronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y nodyn perthnasol i'r datganiad o gyfrifon.
- 8.2 Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu categoreiddio naill ai fel cronfeydd "defnyddiadwy" neu gronfeydd "na ellir eu defnyddio". Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i ariannu gwariant. Nid yw cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn cael eu cefnogi gan adnoddau ac felly nid oes ganddynt falansau arian parod cyfatebol.
- 8.3 Mae'n bolisi gan y Comisiynydd i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo i ariannu pryniannau anghylchol a lliniaru cyfnodau brig mewn proffiliau gwariant i leihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau'r gofyniad ariannu cyfalaf, os yw'n briodol, a fydd yn ei dro yn lleihau'r isafswm darpariaeth refeniw a godir ar y cyfrif refeniw yn flynyddol.
- 8.4 Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu hasesu'n flynyddol fel rhan o'r broses CATC ond hefyd yn ystod y flwyddyn ac yn ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i'r gofyniad parhaus am yr holl gronfeydd wrth gefn y gellir eu hailddyrranu fel y bo'n briodol. Bydd lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd felly yn amrywio'n flynyddol ond bydd bob amser modd ei gyfiawnhau a bydd yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw lefelau'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn rhy uchel nac yn rhy isel. Pe bai'r Comisiynydd yn barnu bod lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ganddo yn uwch a thu hwnt i'r lefelau sy'n rhesymol ofynnol ac a glustnodwyd yn benodol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gall y Comisiynydd ddychwelyd cronfeydd wrth gefn i'r cyhoedd. Mae hyn i'w gyflawni trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn gyntaf i ariannu buddsoddiadau untro.
- 8.5 Mae yna hefyd nifer o gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio ar hyn o bryd sy'n cynnwys:
- **Cronfa Ailbrisiu Wrth Gefn** – Mae'r Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol. Gostyngir y balans pan fydd asedau ag enillion cronedig yn cael eu hailbrisiu am i lawr neu eu lleihau, eu defnyddio trwy ddibrisiant, neu eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu;
  - **Cyfrif Addasu Cyfalaf** – Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol;
  - **Cyfrif Absenoldebau Cronedig** – Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar falans y gronfa gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar falans y gronfa gyffredinol gael ei

niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r cyfrif neu ohono;

- **Cronfa Bensiynau Wrth Gefn** – Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol.

## **9 Fframwaith Adrodd**

9.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd ymddiriedol i drethdalwyr lleol a rhaid iddo fod yn fodlon bod y penderfyniadau a wneir ar falansau a chronfeydd wrth gefn yn cynrychioli stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

9.2 Bydd lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu llywio gan gyngor a barn y Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd). Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ddod i'w benderfyniad, bydd y Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd) yn adrodd ar y ffactorau a ddylanwadodd ar ei farn ac yn sicrhau bod y cyngor a roddir yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Fel isafswm, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys datganiad fydd yn trafod y canlynol:

- manylu ar lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol ac unrhyw symudiadau ar y gronfa;
- digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, mewn perthynas â gwariant ac amcangyfrif o ddarpariaethau mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- sut mae cronfeydd wrth gefn wedi newid dros amser;
- yr adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan gynnwys amcangyfrifon o'r balansau diwedd blwyddyn. Bydd y datganiad yn rhestru'r gwahanol gronfeydd wrth gefn, eu pwrpas, pryd y cânt eu defnyddio a lefel briodol;
- asesiad o'r risg y bydd digwyddiadau mawr (gweithredol ac anweithredol) yn digwydd, a adlewyrchir yn y gyllideb a'r CATC.

9.3 Bydd yr adroddiad hwn yn Cael ei ddarparu'n flynyddol, yn seiliedig ar amcangyfrifon, i'r Comisiynydd cyn cymeradwyo praesept y dreth gyngor, gyda sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn hefyd yn cael ei hystyried yn flynyddol fel rhan o gymeradwyaeth y comisiynwyr i'r datganiad o gyfrifon.

9.4 Fel yr amlinellwyd uchod, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau penodol ar gronfeydd cyllid wrth gefn yr heddlu ym mis Ionawr 2018 sy'n ceisio mwy o dryloywder ar draws y gwasanaeth i ddangos cynlluniau defnydd clir. Mae'r fframwaith adrodd a nodir uchod yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn.

## **10 "Cost Cyfle" Dal Cronfeydd Wrth Gefn**

10.1 Mae'r archwilydd allanol yn annog datganiad o fewn y polisi cronfeydd wrth gefn ar gost cyfle cadw cronfeydd wrth gefn. Mae "Cost Cyfle" yn derm theori economaidd, sy'n golygu os ydych chi'n gwario rhywbeth ar un peth na allwch chi ei wario ar rywbeth arall.

10.2 O'i gymhwyso i'r cronfeydd wrth gefn, mae hyn yn golygu, os cedwir cronfeydd wrth gefn sy'n rhy uchel, yna mae sefydliad yn colli'r cyfle i ostwng

y dreth gyngor. Fodd bynnag, nid yw'r ddamcaniaeth hon yn addas iawn yn ymarferol lle gellir capio lefelau cynnydd yn y dreth gyngor.

- 10.3 Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, mae'r Comisiynydd yn ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau untro. Ystyrir bod hyn yn ddefnydd mwy cynaliadwy o gronfeydd 'dros ben' ac yn lleihau'r effaith ar braesept y dreth gyngor. Wrth i gronfeydd wrth gefn leihau, mae'r cyfle i wneud hyn yn lleihau.
- 10.4 Mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r Comisiynydd ar gronfeydd wrth gefn yn cael eu cyfleu'n glir i drethdalwyr lleol er mwyn hyrwyddo atebolrwydd.

## **11 Darpariaethau**

- 11.1 Mae angen darpariaethau ar gyfer unrhyw rwymedigaethau ansicr o ran amseru neu swm yr aethpwyd iddynt. Mae angen cydnabod darpariaethau pan:
- mae gan y Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
  - mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;
  - gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.
- 11.2 Ystyrir bod trosglwyddo buddion economaidd neu 'ddigwyddiad arall' yn debygol os yw'r digwyddiad yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd. Os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni, ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaeth.
- 11.3 Bydd y gofyniad am ddarpariaethau'n cael ei asesu'n rheolaidd.

## Atodiad E – Strategaeth

Reserve & Capital Reserves	Description	Home Office Classification	Closing Balance 2024/25	Closing Balance 2025/26	Closing Balance 2026/27	Closing Balance 2027/28	Closing Balance 2028/29	Closing Balance 2029/30
General Reserves	In accordance with CIPFAs Guidance Note on Local Authority Reserves and Balances, the Commissioner also maintains a General Reserve to act as a working balance to help cushion the impact of uneven cash flows and avoid unnecessary temporary borrowing, and	C	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704	-5,511,704
<b>Total General Reserve</b>			<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>	<b>-5,511,704</b>
Sexual Assault Referral Centre (SARC) Reserve	To mitigate anticipated costs arising from the regionalisation project for Sexual Assault Referral	A	-53,572	0	0	0	0	0
Insurance and Litigation Reserve	To assist in mitigating the financial impacts of changes	C	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574	-410,574
Budget Mitigation Reserve	Reserve to support one-off cost pressures	A	-556,458	-101,632	-0	-0	-0	-0
Forensic Alliance - Reserve	Reserve to support one-off cost pressures	A	-137,618	0	0	0	0	0
Police Education Qualifications Framework (PEQF)	Reserve to support peak in costs from PEQF programme	A	-85,814	0	0	0	0	0
Chief Constable Operational Fund	Reserve to mitigating against the consequential costs of notable peaks in operational activity.	C	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755	-545,755
Driver Retraining Scheme Reserve - Chief Constable	Reserve to support activities in relation to road and community safety initiatives.	A	-340,804	0	0	0	0	0
Revenue Transformational Projects Reserve	Reserve to fund activities seeking to deliver organisational transformational projects.	A	-252,625	0	0	0	0	0
Police Race Action Reserve	Reserve to fund a Police Race Action Plan Co-ordinator position to take forward this piece of work	A	-76,790	-36,897	0	0	0	0
Innovation Reserve (RPA)	Reserve to enhance the delivery of RPA, continuous development, and Power BI dashboard development.	A	-640,381	-390,381	-140,381	0	0	0
People Services and Organisational Development Reserve	Reserve to fund changes within the People Services Department. This includes appointing a Head of Training/Talent, Wellbeing Lead, and Counselling Support to manage the wider recruitment and retention	A	-125,680	0	0	0	0	0
Disciplinary Hearing Reserve	Reserve to fund a part time post to manage the workloads of disciplinary hearings.	A	-42,375	0	0	0	0	0
<b>PCC Reserves - Force</b>			<b>-3,268,445</b>	<b>-1,485,239</b>	<b>-1,096,710</b>	<b>-956,329</b>	<b>-956,329</b>	<b>-956,329</b>



## Atodiad E – Strategaeth

Reserve & Capital Reserves	Description	Home Office Classification	Closing Balance 2024/25	Closing Balance 2025/26	Closing Balance 2026/27	Closing Balance 2027/28	Closing Balance 2028/29	Closing Balance 2029/30
Commissioner's Fund	Reserve to support the Police & Crime Plan priorities	A	-167,733	-42,733	0	0	0	0
Forfeiture Reserve	Money seized under Section 27 Misuse of Drugs Act 1971 and following forfeiture at Court is transferred to the Forfeiture Reserve for use by the Commissioner. The reserves are utilised to fund operations targeting drug related crime and drug abuse.	A	-100,733	-100,733	-45,832	-6,691	-6,691	-6,691
Proceeds of Crime Act Reserve	Funds are allocated as a result of confiscation orders arising from proceeds of crime. The reserves are utilised to support operational activities which assist in bringing criminals to justice.	B	-427,591	-433,591	-439,591	-445,353	-451,353	-457,353
PCC Innovation Funding Reserve	To deliver innovation projects in line with the Commissioners priorities e.g. Rural Crime initiatives/pilot projects.	A	-1,000,000	-750,000	-500,000	-250,000	0	0
Sale of Found Property Reserve	The Sale of Found Property Fund is made up of monies received by the Commissioner from the sale of found property. It is current policy to provide annual donations to local charities.	A	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424	-19,424
Driver Retraining Scheme Reserve - Commissioner	The Sale of Found Property Fund is made up of monies received by the Commissioner from the sale of found property. It is current policy to provide annual donations to local charities.	A	-773,116	-504,203	-239,344	-218,057	-117,629	-17,201
Drug Intervention Prog Reserve	This reserve will be utilised to support drug testing.	A	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740	-10,740
<b>PCC Reserves - OPCC/ Commissioning</b>			<b>-2,499,337</b>	<b>-1,861,424</b>	<b>-1,254,931</b>	<b>-950,265</b>	<b>-605,837</b>	<b>-511,409</b>
Other Earmarked Capital Reserves	To support the capital programme	A	-5,145,567	-1,519,567	-0	-0	-0	-812,000
Capital Reserve - CCTV	To support the capital programme	A	-1,081,830	-331,830	0	0	0	0
<b>PCC Reserves - Capital</b>			<b>-6,227,397</b>	<b>-1,851,397</b>	<b>-0</b>	<b>-0</b>	<b>-0</b>	<b>-812,000</b>
<b>Total Usable Reserves</b>			<b>-17,506,885</b>	<b>-10,709,765</b>	<b>-7,863,346</b>	<b>-7,418,299</b>	<b>-7,073,871</b>	<b>-7,791,443</b>

Home Office Police Finance Reserve	Classifications
Funding for planned expenditure on projects and programmes over the period of the current medium financial plan	A
Funding beyond the current planning period for specific projects and programmes	B
A general contingency or resource to meet other expenditure needs held in accordance with sound principles of good financial management	C

*Classifications as outlined in the Home Office guidance on Police Finance Reserves which was issued January 2018*



Comisiynydd Heddlu a Throseddau  
Dyfed-Powys  
Police and Crime Commissioner



### Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

#### 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi yn cael eu gwneud yn unol â'r canlyniadau dymunol ac yn ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- 1.2 Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i gynhyrchu blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (y Comisiynydd). Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo a monitro gwariant cyfalaf, yn amlinellu sut y rheolir risgiau cysylltiedig ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- 1.3 Manylir ar y blaenoriaethau ar gyfer plismona yn yr ardal leol yn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae'r ddogfen hon yn cael ei llunio gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau'n ystyried barn pobl leol a phartneriaid, yn ogystal â blaenoriaethau'r Comisiynydd fel y cynrychiolydd etholedig. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddau newydd ym mis Ionawr 2025, a bydd y blaenoriaethau canlynol yn sail i bob agwedd ar gyflawniad gweithredol a sefydliadol:
  - **Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth**
  - **Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed**
  - **Cefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol**
- 1.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried y Gofynion Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau ac mae wedi datblygu cynllun cyflawni i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae ei gyflwyniad gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi datblygu tair blaenoriaeth ar gyfer yr heddlu a fydd hefyd yn cefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddau:
  - Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu;
  - Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn ddigroeso i'r rhai sy'n delio cyffuriau;
  - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid.
- 1.5 Mae'r strategaeth gyfalaf yn arf i gefnogi cynllunio a gweithio corfforaethol ar draws y ddwy gorfforaeth undyn gan helpu i sicrhau bod asedau'n cael eu defnyddio a'u rheoli'n dda. Mae'r strategaeth gyfalaf yn dangos sut rydym yn blaenoriaethu, monitro, darparu a gwerthuso ein rhaglen gyfalaf gan ddefnyddio egwyddorion

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

sylfaenol methodoleg y prosiect.

- 2 Yn ddaearyddol, ardal Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr sy'n cwmpasu dros hanner ehangdir Cymru. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â phlisma ardal wledig yn bennaf, sy'n cynnwys dau borthladd sylweddol, y gosodiadau mawr yn Aberdaugleddau a diwydiant twristiaeth bywiog, yn effeithio'n arbennig arno. Mae asedau cyfalaf, boed yn orsafoedd heddlu, tai heddlu, mastiau radio, cerbydau neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac offer gweithredol arall yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau plisma ar draws yr ardal ac o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

### 2 Partneriaethau Allweddol

- 2.1 Wrth gyflawni pob elfen o'r strategaeth, mae'r Comisiynydd yn bwriadu rhoi ystyriaeth briodol i'r agenda cydweithio parhaus a bydd yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â heddluoedd cyfagos ac awdurdodau cyfansoddol eraill wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin. Mae'r strategaeth gyfalaf hon yn ystyried yr angen parhaus i fuddsoddi yn y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn, gan gydweithio â phartneriaid yn y dyfodol.

### 3. Cynaliadwyedd Ariannol

- 3.1 Ers blynyddoedd lawer mae Heddlu Dyfed-Powys wedi elwa ar lefelau sylweddol o gronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd wedi'u hategu gan werthiant adeiladau gweithredol neu dai heddlu.
- 3.2 Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi bod yn sail i fuddsoddiad cyfalaf yn hanesyddol, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sefyllfa'n symud o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i sefyllfa o gyllido naill ai drwy ariannu refeniw uniongyrchol neu fenthyca. Mae hyn felly yn ychwanegu pwysau ar y gyllideb refeniw ac o ganlyniad, i braesept y dreth gyngor. Rhaid nodi hefyd ein bod mewn cyfnod parhaus o bwysau refeniw, cynnydd yn y galw ac ansicrwydd ariannol.
- 3.3 Y dull strategol felly yw buddsoddi mewn seilwaith craidd nawr, a fydd nid yn unig yn cynnig gwelliannau cyffredinol i wasanaethau i'r cyhoedd, ond hefyd yn gwneud y mwyaf o arbedion refeniw i'r dyfodol, trwy ddefnyddio personél yr heddlu yn fwy effeithlon a symudol, wedi'i alluogi gan well systemau a seilwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu craidd arall, er enghraifft, fflyd cerbydau cysylltiedig ac asedau adeiladau.
- 3.4 Bydd buddsoddiad cyfalaf hefyd yn ystyried ac yn cael ei ddylanwadu gan weledigaethau cenedlaethol ar gyfer plisma, y gofyniad plisma strategol a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.
- 3.5 Bydd yr holl gynigion prosiect ac achosion busnes ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn canolbwyntio'n glir iawn ar wireddu buddion busnes, o safbwynt ariannol a hefyd o safbwynt anariannol, a fydd yn darparu sylfaen gadarn i lywio penderfyniadau hollbwysig.

### 4 Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Datgarboneiddio

- 4.1 Mae Llywodraeth y DU wedi pennu amserlen heriol i'r DU fod yn sero net / carbon niwtral erbyn 2050 (*Net Zero Strategy: Building Back Greener 2021*). Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r heddlu wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd a gwneud cynnydd cynnar o ran lleihau allyriadau carbon. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu strategaeth gynaliadwyedd sy'n cael ei rhoi ar waith ar draws Plismona yng Nghymru fel rhaglen gydweithredol.
- 4.2 Fel rhan o ddull Cymru Gyfan, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae ei ran yn y cyd-destun strategol hwn sy'n nodi'r uchelgais ar gyfer datgarboneiddio ac ymrwymiad i wasanaeth heddlu cynaliadwy, hirdymor yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni carbon sero net bydd angen trawsnewid y systemau sy'n rhan o asgwrn cefn ein gweithrediadau, gan gynnwys trafndiaeth, defnydd ynni, caffael nwyddau a gwasanaethau a'r amgylchedd adeiledig.
- 4.3 Mae polisi heddlu hefyd wedi'i gymeradwyo i ategu'r strategaeth Cymru gyfan ehangach. Mae hyn yn ymrwymo Heddlu Dyfed-Powys i ddod yn heddlu cynaliadwy – ei nod yw darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bob un o'r ardaloedd plismona lleol drwy ddarparu lle diogel i fyw a gweithio ynddo, sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Sefydliadol Strategol:
- Sefydlu gwaelodlin ôl troed carbon;
  - Nodi potensial lliniaru;
  - Datblygu cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio;
  - Datblygu cynlluniau ar gyfer nodau cynaliadwy;
  - Monitro cynnydd;
  - Mesur buddion.
- 4.4 Gan ddefnyddio tair congflaen cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), mae Heddlu Dyfed-Powys yn anelu at adeiladu llwyfan cadarn ar gyfer cyflawni ei ganlyniadau gwrthrychol.
- 4.5 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol iawn o'i rwymedigaethau mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol a bydd yr ystyriaethau hyn yn rhan annatod o'r holl gynigion buddsoddi cyfalaf.

### 5 Rhaglen Gyfalaf

- 5.1 Mae asedau'n hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithlon a dylid eu rheoli a'u cynnal yn dda. Mae strategaethau ar gyfer rheoli ystadau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a newid hen gerbydau am rai newydd yn sail i'r strategaeth gyfalaf, wrth ddarparu'r manylion ar gyfer hirhoedledd a'r cylchoedd adnewyddu optimwm ar gyfer yr eitemau hyn.
- 5.2 Mae'r rhaglen gyfalaf a'r cyllid sy'n cwmpasu'r sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 hyd at 2029/30 wedi'u crynhoi isod:

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

**Tabl 1 – Rhaglen Gyfalaf 2024/25 – 2029/30**

Rhaglen Gyfalaf	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tir ac adeiladau	10,816	17,032	13,431	3,600	2,800	2,175	49,854
Cerbydau	2,701	1,891	1,710	1,787	1,987	1,951	12,027
TG a gwariant strategol arall	3,071	5,253	4,785	3,728	3,385	2,559	22,781
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>16,588</b>	<b>24,176</b>	<b>19,926</b>	<b>9,114</b>	<b>8,172</b>	<b>6,685</b>	<b>84,661</b>
Cyllid grant	(106)	-	-	-	-	-	(106)
Benthyca	(9,782)	(16,788)	(14,881)	(4,361)	(3,600)	(2,925)	(52,337)
Cyfraniadau o'r cyfrif refeniw	(2,718)	(2,718)	(3,143)	(3,933)	(4,522)	(4,522)	(21,556)
Derbynebion cyfalaf	(1,084)	(294)	(50)	(820)	(50)	(50)	(2,348)
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(2,898)	(4,376)	(1,852)	-	-	812	(8,314)
<b>Cyllid cyfalaf</b>	<b>(16,588)</b>	<b>(24,176)</b>	<b>(19,926)</b>	<b>(9,114)</b>	<b>(8,172)</b>	<b>(6,685)</b>	<b>(84,661)</b>

5.3 Mae gwaith wedi parhau drwy'r Bwrdd Cyllid Strategol a'r CATC i ystyried gofynion ariannol a buddsoddi dros gyfnod hwy. Er ei bod yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ac ansicrwydd, mae'r strategaeth gyfalaf hon yn cynnwys rhaglen gyfalaf, a ddangosir yn Atodiad G, sy'n cwmpasu cyfnod dangosol o deng mlynedd. Bydd y rhaglen hon yn cael ei hailystyried wrth i eglurder ymddangos ac yn flynyddol, fel rhan o broses ffurfiol gosod y gyllideb a'r praesept.

## 6 Ystadau

6.1 Mae strategaeth ystadau gan y Comisiynydd sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad clir ynghylch gofynion strategol a gweithredol ystadau Heddlu Dyfed-Powys yn y dyfodol ac sy'n rhoi eglurder o ran dyraniad cyllideb a gofynion buddsoddi yn y dyfodol.

6.2 Nod y strategaeth hon yw:

- Creu ystâd effeithlon, addas i'r diben a chynaliadwy sy'n darparu gwerth am arian ac yn hwyluso gweithio hyblyg yn unol â'r Cynllun Heddlu a Throsedd;
- Darparu ystâd sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch i swyddogion a staff a gwybodaeth;
- Darparu gwasanaeth gweladwy a hygyrch sy'n galluogi gweithio aml-asiantaeth ac yn hyrwyddo plismona gweladwy.

6.3 Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Buddsoddi yn y portffolio, yn ôl yr angen, i gynnal effeithiolrwydd gweithredol llawn;
- Gwerthu eiddo gwag a segur;
- Cydgrynhoi a chydweithio ag aelodau byrddau gwasanaethau lleol a phartneriaid;
- Cyflwyno cyfleuster newydd Aberhonddu i ddarparu cyfleuster plismona a dalfa cydweithredol yn ne Powys;

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

- Darparu eglurder ar y cynllun buddsoddi datgarboneiddio sydd ei angen yn y dyfodol i gyrraedd targedau 2030/2050.
- 6.4 Mae trefniadau llywodraethu o amgylch ystadau yn parhau i gael eu hadolygu ac maent wedi parhau i ddarparu craffu cadarn yn ystod 2024/25. Mae hyn wedi sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli'n well ac mae'r cysylltiad cynhenid rhwng gofynion gweithredol a darpariaeth ystadau wedi'u halinio'n well i gefnogi gwasanaethau plismona.
- 6.5 Bydd yr holl fuddsoddiadau a phenderfyniadau arfaethedig yn cael eu hasesu i ystyried y meini prawf canlynol:
- Lleoliad: yn weithredol addas i'r diben;
  - Statws wynebu'r cyhoedd – wynebu cwsmeriaid;
  - Cyflwr cyffredinol yr eiddo a'r baich ariannol;
  - Lle mae cynhyrchu ynni neu leihau ynni yn yrrwr allweddol, asesir adenillion ar fuddsoddiad.
- 6.6 Mae'r Grŵp Ystadau Strategol yn parhau i ddefnyddio meini prawf asesu risg prosiect i gynorthwyo gyda blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn unol â meini prawf fforddiadwyedd ariannol:
- Risg i effeithiolrwydd gweithredol (gan gynnwys gweithio callach);
  - Risg o beidio â bodloni gofyniad deddfwriaethol neu statudol gan gynnwys achrediad y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni (ISO);
  - Risg i adeiladwaith/system adeiladau, sy'n cynyddu costau gyda goblygiadau hirdymor;
  - Risg i enw da'r heddlu ac enw'r comisiynydd (gan gynnwys trefniadau partneriaeth);
  - Risg i iechyd a diogelwch;
  - Risg i ddiogelwch y safle.
  - Budd amgylcheddol/cynaliadwyedd i'r sefydliad (newydd yn y flwyddyn 24/25)
- 6.7 Mae gwaith uwchraddio sylweddol wedi'i alinio â'r arolygon cyflwr hanesyddol a'r cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni o fewn y cyfnod diwethaf. Ceisiwyd cyllid grant lle bo'n bosibl i gyflawni cynlluniau o'r fath, ond mae argaeledd a cheisiadau llwyddiannus yn isel iawn ar draws plismona oherwydd y cyllid cyfyngedig a maint y gwaith sydd ei angen yn genedlaethol. Mae'r ymagwedd hon ar gyfer cyfleoedd ariannu sy'n cyd-fynd â mentrau cydweithredol yn parhau i gael ei ymchwilio.
- 6.8 Mae'r arolwg cyflwr blaenorol, meincnodi, a chofnodi troseddau/dadansoddiad amseroedd ymateb wedi helpu i lywio'r strategaeth ystadau wrth benderfynu pa eiddo i'w cadw a lle mae angen cynllunio symudiadau a newidiadau llety yn y dyfodol i fodloni gofynion gweithredol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i ddarparu eglurder ar y lleoliadau gweithredu gorau posibl ar gyfer canolfannau plismona ac mae wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyfleoedd cydweithio yn y dyfodol. Mae strategaeth ystadau Sir Benfro wedi bod yn faes ffocws allweddol sydd wedi ein galluogi i nodi lleoliadau newydd sydd wedi symud ymlaen i'r cam cyflawni ar gyfer dau leoliad yn ystod y flwyddyn.
- 6.9 Oherwydd yr adroddiad cyflwr hanesyddol ar gyfer y cyfleuster presennol yn Aberhonddu, mae darpariaeth o

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

£8.5 miliwn wedi'i chynnwys ac mae dyluniad cychwynnol manwl a chytundeb gydag aelod o'r bwrdd gwasanaethau lleol ar gyfer adeilad newydd posibl ochr yn ochr ag adeilad trydan presennol yn mynd rhagddo. Mae penawdau telerau wedi'u cytuno ar gyfer perchnogaeth yr eiddo yn amodol ar gynllunio, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud i ddarparu cyfleuster cadarn sy'n addas i'r diben yn weithredol. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd amseriad cyflawni'r cynllun yn cyd-fynd â'r broses gynllunio ar draws blynnyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27 yn dibynnu ar amserlenni cynllunio/adeiladu.

- 6.10 Mae'r gofyniad am gyfleuster hyfforddi arfau saethu i gefnogi Cyd-uned Arfau Saethu heddluoedd de Cymru yn parhau. Barnwyd nad yw'r maes arfau saethu presennol yn addas i'r diben ac mae angen cyfleuster newydd i ddiwallu'r anghenion hyfforddi helaeth iawn a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer swyddogion arfau saethu. Mae'r cynllun newydd, sy'n costio tua £59.3 miliwn gyda £15.8 miliwn yn gyfran gyfatebol gan Heddlu Dyfed-Powys, yn dod yn ei flaen yn dda gyda gwaith paratoi'r pridd a strwythurau yn cael ei gyflawni ond bythefnos yn hwyrach na'r cynllun hyd yma. Mae llywodraethu cadarn ar bob lefel yn parhau gyda Bwrdd Platinwm a gadeirir gan ein Comisiynydd.
- 6.11 Yn ogystal â'r datblygiadau mawr hyn, bydd rhaglen asesu risg barhaus ar gyfer gwaith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio. Mae blaenoriaethu gwaith yn cael ei adolygu ar sail ffactorau risg sy'n cyd-fynd â chyflwr yr adeiladwaith a'r meddiannydd, gofynion deddfwriaethol ac ystyriaethau parhad busnes, sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac amserlenni. Mae arolygon cyflwr wedi'u cynnal yn flaenorol ar draws yr ystad gyfan gan bennu lefel y buddsoddiad sydd ei angen ym mhob lleoliad yn ôl pob elfen is-adeiledd.
- 6.12 Mae'n werth nodi hefyd bod gosod paneli solar ffotofoltäig wedi'u darparu ar draws pob un o'r safleoedd pencadlys rhanbarthol fydd yn darparu gwydnwch a llai o gostau rhedeg/ôl troed carbon am flynyddoedd i ddod. Ategir hyn hefyd gan amrywiaeth o ddatrysiadau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd megis goleuadau LED ym mhencadlys y rhanbarth a'r holl atebion gwresogi trydan ar waith lle mae gwell insiwleiddio ac elfennau ymagwedd gwneuthuriad yn gyntaf eisoes wedi'u cyflawni. Mae astudiaeth dichonoldeb ar gyfer fferm solar ym Mhencadlys yr Heddlu yn mynd rhagddo'n dda a'n nod yw cael costau ac argymhellion y Grid Cenedlaethol yn fuan.
- 6.13 Mae'r gyllideb gyfalaf yn ategu cyllideb refeniw ganolog ar gyfer gwaith adeiladu mawr cylchol ac wedi'i gynllunio, sydd wedi'i raglennu ar sail risg a strategaethau ar gyfer y dyfodol ar gyfer pob adeilad. Mae adnoddau refeniw hefyd yn cael eu cadw a'u rheoli'n lleol ar gyfer atgyweiriadau ar raddfa lai a mentrau/rhaglenni cynnal a chadw. Cafwyd pwysau yn y maes hwn oherwydd methiant sydyn offer neu gyfarpar yr ydym yn ei reoli yn cyd-fynd yn agos â phwysau ariannol. Wedi'i alinio i'r buddsoddiad hwn mae blaenoriaethau o fewn y rhaglen gyfalaf i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gostyngiadau mewn gwariant refeniw o fewn yr ystad lle bo modd.
- 6.14 Mae pwysau ariannol sylweddol ar gyfleustodau yn parhau i gael sylw, gyda chyfleoedd cynhyrchu incwm a mentrau arbed pellach yn cael eu hymchwilio i liniaru cymaint o gost â phosibl i'r sefydliad.
- 6.15 Mae'r sefydliad yn parhau i ymgorffori gwaith datgarboneiddio'r ystad wedi'i alinio

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

â ffyrdd ystwyth ac effeithlon o weithio. Bydd gan y dull hwn oblygiadau tymor hwy pellach ar gyfer yr ystad ac ar gyfer TGCh, a all fod angen rhywfaint o fuddsoddiad ymlaen llaw i hwyluso effeithlonrwydd tymor hwy. Mae asesiadau o'r rhain, lle bo angen, wedi'u cynnwys gyda'r rhaglen gyfalaf, wedi'u halinio â'r posibilrwydd o ehangu'r incwm a gynhrychir drwy brydlesi trydydd parti ar safleoedd adeiladau a thyrau.

- 6.16 Sefydlwyd Grŵp Cynaliadwyedd yn ystod 2019 gyda tharged i gyflawni gweithrediad sero net erbyn 2050. Mae'r gwaith hwn wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda strategaeth a chronfa adnoddau Cymru gyfan yn cael eu defnyddio i ddarparu dull a chyfeiriad unedig cenedlaethol, wedi'u halinio â mentrau a chyfeiriad y Grŵp Ystadau Heddlu Cenedlaethol a Bluelight Commercial. Mae'r flaenraglen gyfalaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer nifer o fentrau, a fydd, yn ogystal ag ystyried ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwy, hefyd yn ceisio cyflawni arbedion ariannol. Mae mesur allyriadau nwyon ôl troed carbon /cynhesu byd-eang yn effeithiol a chyson yn faes canolbwyntio hollbwysig ar gyfer yr holl weithrediad yn y flwyddyn i ddod, ynghyd ag asesu'r effaith hon ar holl benderfyniadau buddsoddi'r heddlu ac ystadau. Bydd cymhwyso offeryn Adrodd Carbon Cymru Gyfan yn gadarn yn y cyfnod sydd i ddod yn ffurfioli'r broses ac yn darparu dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 6.17 Mae darpariaeth gwasanaeth rheoli cyfleusterau yn gweithio gyda phartion eraill yn y sector cyhoeddus ar gyfer tendro contractau gwasanaeth penodol, wedi dod â sbardun pellach i waith caffael eleni. Mae gwybodaeth reoli fanwl wedi'i halinio â chyflwyno ac adrodd ar gydymffurfedd statudol gadarn wedi ein galluogi i ddangos gwerth a thrylwyrdd yn y ffordd y caiff yr ystad ei rheoli a'i chynnal gan ddarparu sicrwydd llywodraethu'r swyddogaeth a sicrwydd ar gyfer buddsoddiad lle bo angen.

## 7 Fflyd

- 7.1 Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r galw am fflyd drwy delemateg. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cyfansoddiad y fflyd yn parhau i gyfateb i'r galw a'r gofyniad gweithredol esblygol trwy'r Grŵp Defnyddwyr Fflyd a'r Grŵp Rheoli Fflyd Strategol yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol a osodwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Chymdeithas Genedlaethol Rheolwyr Fflyd yr Heddlu (NAPFM).
- 7.2 Mae'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd yn adlewyrchu'n llawn y gofynion ar gyfer prynu cerbydau newydd, yn seiliedig ar ystyriaethau gwerth am arian o gymharu prynu cerbydau newydd a chostau gwasanaethu. Mae data telemateg wedi'i ddefnyddio, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, o ran monitro'r defnydd o gerbydau ac mae addasiadau i'r galw am gerbydau mewn rhai ardaloedd yn cael eu hasesu'n barhaus gan y fflyd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran cynaliadwyedd ac mae wedi buddsoddi mewn cerbydau trydan a seilwaith gwefru. Cyflawnwyd targed cychwynnol o 18.25% ar gyfer cerbydau trydan a hybrid a osodwyd ar gyfer 2024/25, gyda fflyd gyfredol yn 19.7% trydan. Fel rhan o'n newid i gerbydau trydan, Dyfed-Powys yw'r heddlu cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cerbydau trydan llawn ar y bit, gyda chwe cherbyd arall yn cyrraedd erbyn mis Mawrth 2025.



## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

- 7.3 Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar y cyd â gwasanaethau Bluelight a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i gwmpasu a chynllunio'r gofynion, yn enwedig mewn perthynas â niwtraliaeth carbon a rhoi'r gorau i gerbydau diesel yn raddol. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi ysgrifennu "Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru Gyfan yr Heddlu" sy'n gosod yr amcanion ar gyfer meysydd cerbydau a fflyd holl heddluoedd Cymru. Mae amserlen i'r polisi, ac yn 2023 bydd 20% o gerbydau anweithredol yn rhai trydan, erbyn 2024/25 mae 50% o gerbydau newydd a gaffaelir i fod yn ULEV ac o 2026 ymlaen mae'r holl gerbydau anweithredol i fod yn rhai allyriadau isel iawn (hybrid a/neu drydan). Dylai'r cynnydd mewn cerbydau trydan/hybrid hefyd arwain at ostyngiad mewn costau cynnal a chadw a thanwydd. Oherwydd problemau amlwg o fewn plismona a thechnoleg a seilwaith cerbydau trydan, bydd Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn parhau i archwilio opsiynau ynghylch datrysiadau tanwydd amgen megis hydrogen a thanwydd synthetig ac yn ceisio dod o hyd i ddatrysiad a rennir gyda chanllawiau gan yr NPCC a NAPFM i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cyrraedd ei nodau lleihau ôl troed carbon, yn ogystal â sicrhau y gallwn gyrraedd ein targedau plismona rheng flaen.
- 7.4 Mae grŵp ffocws wedi'i roi ar waith i fonitro ymddygiad ac arddulliau gyrwyr gan ddefnyddio telemateg. Nod y grŵp yw gwneud gweithwyr yn atebol a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i leihau cyfraddau damweiniau, costau tanwydd, costau teiars a chostau cynnal a chadw.
- 7.5 Mae'r heddlu'n parhau i fanteisio ar gydweithio trwy system rheoli fflyd a rennir ar draws de Cymru, yn ogystal â bodloni gofynion gwasanaethu asiantaethau partner. Bydd Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn parhau i gydweithio â NAPFM (Cymdeithas Genedlaethol y Rheolwyr Fflyd) i asesu technolegau newydd yn barhaus a chysylltu â heddluoedd eraill yn genedlaethol.

## 8 Technoleg Gwybodaeth

- 8.1 Mae'r Strategaeth Ddigidol TGCh newydd ar gyfer y cyfnod 2024 i 2030 yn adeiladu ar y llwyddiannau a'r seiliau sydd wedi'u gosod yn eu lle drwy'r strategaeth flaenorol, ac yn nodi'n glir y dyheadau digidol a'r seilwaith ategol sydd eu hangen ar gyfer y chwe blynedd nesaf. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau'r CHTH ac amcanion cynllun cyflawni cysylltiedig y Prif Gwnstabl. fMae hefyd yn ymgorffori nodau Strategaeth Genedlaethol DDAT (Digidol, Data a Thechnoleg) yr heddlu, a'r nodau a nodir yn Strategaeth Seiber Llywodraeth y DU. Ers lansio Strategaeth Ddigidol TGCh newydd yr heddlu yn 2024 mae'r ffocws wedi bod ar gyflawni'r cynllun a nodir yn y strategaeth.
- 8.2 Yn 2024 rydym wedi cyflwyno'r Grŵp Asesu Syniadau Digidol (DIAG) i ddarparu un sianel ar gyfer cyflwyno syniadau digidol ac i ddarparu dull cyson o asesu a darparu llywodraethu clir a chryf. Gall unrhyw swyddog neu aelod o staff gyflwyno syniad digidol i'r grŵp, yna mae'n dilyn proses cam wrth gam o'i asesu a'i sgorio yn erbyn matrices penderfyniad sydd wedyn yn cael ei gymeradwyo neu beidio gan grŵp o randdeiliaid o adrannau allweddol, megis TGCh, rheoli gwybodaeth a pherfformiad. Mae'r grŵp hefyd yn penderfynu beth yw'r datrysiad platform technoleg ddigidol mwyaf priodol – naill ai i greu templed yn Niche, proses awtomeiddio prosesau robotig (RPA), Power Apps neu ddangosfwrdd Power BI. Mae'r grŵp yn gweithredu'n dda, ac mae llif rheolaidd o syniadau'n cael eu cyflwyno.

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

- 8.3 Mae awtomeiddio yn faes o ddiddordeb mawr ar draws yr heddlu. Ystyrir bod awtomeiddio yn ei wahanol ffurfiau yn ddull realistig a phrofedig o sicrhau arbedion a chynyddu capasiti adnoddau. Hyd yn hyn, mae RPA wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i awtomeiddio prosesau yn yr Hyb Bregusrwydd. Ers i Niche fynd yn fyw bu'n rhaid ailfodelu'r broses, mae'r broses newydd yn profi'n llwyddiannus iawn gyda chyfradd llwyddiant o 96%. Bydd yn canolbwyntio nesaf ar dair proses arall yn ymwneud â meysydd busnes ar wahân, cyllid, fetio a thrwyddedu arfau saethu. Yn yr un modd, rydym wedi sefydlu'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer maes 'Power Apps' a 'Power Automate' Microsoft i sicrhau bod llywodraethu a rheolaethau priodol ar waith. Mae nifer o geisiadau wedi dod i law gan y busnes lle rydym naill ai wedi llwyddo i ecsbloetio ac addasu apiau cenedlaethol presennol neu wedi datblygu ein rhai ein hunain. Enghreifftiau o apiau sydd ar gael yw'r Aide Memoire Search a'r Crime Outcome Assistant.
- 8.4 Yn 2024 rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Defnyddwyr TG gyda'r aelodau'n cynnwys swyddogion a staff o bob rhan o'r heddlu. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar roi llais i'n cymuned o ddefnyddwyr ac i ni gael clywed yn uniongyrchol am unrhyw faterion neu rwystredigaethau y gallent fod yn eu profi, mae hefyd yn gyfle gwych i ni fel adran rannu'r hyn sydd ar y gweill, arferion da a negeseuon allweddol.
- 8.5 Disgwylir i'n cytundeb Microsoft Enterprise gael ei adnewyddu ym mis Ebrill 2025, ac i'r perwyl hwn rydym wedi ymuno â gwasanaeth cydgasglu Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer y caffael hwn. Yn y cyfamser mae Microsoft wedi rhyddhau fframwaith prisio newydd, SPA24 (Trefniant Partneriaeth Strategol 2024). Bydd cost y contract yn cynyddu oherwydd y twf mewn defnyddwyr, gweinyddion ychwanegol ar gyfer y datrysiaid CMS (System Rheoli Cyswllt) a chynnydd cyffredinol mewn prisiau.
- 8.6 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried nifer o brosiectau TGCh strategol lleol, yn ogystal â nifer o brosiectau ail-gaffael sy'n ymwneud â thechnolegau ac atebion TGCh sydd wedi cyrraedd diwedd contract neu ddiwedd oes offer hanfodol. Y prosiectau cyfalaf TGCh allweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod 2025/26 yw:
- 8.6.1 Daeth cam 1 y System Rheoli Cyswllt newydd i rym ym mis Tachwedd 2024, ac mae cam 1 yn cynnwys teleffoni brys, System Rheoli Cyfathrebu Integredig (ICCS). Bydd cam 2 yn gweld elfen CRM (System Rheoli Cyswllt) yn cael ei rhoi ar waith, a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni ddiwedd 2025. Bydd y system rheoli cyswllt newydd yn integreiddio â systemau Niche a STORM (System Gofnodi Digwyddiadau a Defnydd o Adnoddau).
- 8.6.2 Mae'r buddsoddiad parhaus yn ein RMS Niche strategol yn parhau gyda:
- Bydd modiwlau ychwanegol – megis "Ar Goll o Gartref" yn cael eu gweithredu yn 2026, bydd gwaith datblygu yn dechrau ym mis Mai 2025 cyn belled â bod arbenigwr pwnc yn ei le erbyn hynny – dim cost ychwanegol gan ei fod wedi'i gynnwys yn y drwydded.
  - Rhagwelir y bydd FfAD (Ffeil Achos Digidol) yn cael ei gynnwys yn uwchraddiad Niche 2026. Mae disgwyl i Heddlu De Cymru fel yr heddlu arweiniol fynd yn fyw yn ystod haf/hydref 2025 – ar yr amod bod y profion

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

yn parhau'n llwyddiannus. Mae gweithgor Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin FfAD wedi'i sefydlu a bydd yn dechrau ym mis Ionawr 2025 gyda'r bwriad o fod ar gael i'r modiwl FfAD yn yr camau datblygu a chyn-gynhyrchu o fis Gorffennaf 2025 ymlaen.

### 8.6.3 Cymhwysiad Data Symudol Pronto.

Mae'r heddlu yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad parhaus PRONTO:  
Diweddariadau allweddol 2024:

Aeth Stopiadau Traffig Adran 163 yn fyw ym mis Hydref 2024 – roedd hyn yn sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â ffurflen ddata flynyddol y Swyddfa Gartref.

Offer eBit ar gyfer sgrinio troseddau ymosodiadau cyffredin a threfn gyhoeddus – aeth adran 4 a 4a yn fyw ym mis Hydref 2024.

2025 Diweddariadau allweddol arfaethedig:

Newidiadau CRASH 10 yn cael eu datblygu – cynllun i fynd yn fyw ym mis Ionawr 2025 – bydd hyn yn sicrhau bod ein data gwrthdrawiadau yn parhau i gael eu hanfon yn llwyddiannus o PRONTO i CRASH ar gyfer rheoli data gwrthdrawiadau.

Cam 2 sgrinio troseddau eBit – difrod troseddol yn cael ei ddatblygu ym mis Chwefror 2025

Adolygu'r newidiadau uwchraddio Niche i sicrhau bod PRONTO yn parhau i fod yn gydnaws â'r fersiwn ddiweddaraf o Niche – cynllun uwchraddio Niche i fynd yn fyw ym mis Mai 2025.

Yn ddiweddarach yn 2025 eBit cam3 – edrych ar ladrata siopa, asesu risg cam-drin domestig a phecon cymorth stelcio a sgrinio a ffurflen iechyd meddwl.

8.6.4 Mae gwaith wedi'i wneud fel rhan o ail-fuddsoddiad y Comisiynydd mewn darpariaeth teledu cylch cyfyng ar draws yr heddlu. Mae contract newydd ar gyfer cefnogi a chynnal a chadw system teledu cylch cyfyng manau cyhoeddus yr heddlu wedi'i ddyfarnu a dechreuodd ym mis Medi 2024. Mae gwaith wedi dechrau gyda'r contractwr newydd yn cynnal rownd gyntaf o gynnal a chadw ataliol cynlluniedig a fydd yn adolygu'r seilwaith presennol, yn adrodd ar statws yr offer a ddefnyddir ac yn cynhyrchu cynllun ar gyfer gosod offer newydd wrth i offer gyrraedd diwedd y cyfnod y gellir ei ddefnyddio. Cafodd y rhwydwaith diwifr newydd ei gynnwys yn y contract newydd a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd y buddsoddiad parhaus hwn mewn teledu cylch cyfyng yn sicrhau bod yr ateb yn parhau i fod yn ddiogel ac yn weithredol effeithiol.

8.6.5 Mae angen gwelliannau pellach i'r Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r heddlu yn buddsoddi mewn caledwedd ychwanegol i ddarparu'r haen amgryptio sy'n cynnwys dyfeisiau yn y pencadlys a phob gorsaf. Mae'r offer yn y pencadlys yn dod i ben ei gyfnod defnyddiol yn 2025/26 a bydd angen rhoi'r offer adrannol y mae angen ei newid yn ei le yn 2027/28 i sicrhau parhad gwasanaeth.

8.6.6 Tystiolaeth Fideo Digidol – cyflawnwyd gweithrediad yr offer cyfweld newydd Axon Digital yn llwyddiannus yn 2024.

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

- 8.6.7 Rhwydwaith Cymunedol Gorfodi'r Gyfraith (LECN) – gyda chyflwyniad LECN yn lle Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Plismona (PSNFP), mae offer PSNFP a ddarperir gan Vodafone wedi'i ddadgomisiynu yn gynharach na'r disgwyl.
- 8.6.8 Mae telefoni corfforaethol yn cael ei gwmpasu'n bennaf gan naill ai gwasanaeth llais MS Teams neu derfynellau data symudol. Mae angen ffonau desg mewn rhai ardaloedd ar draws yr heddlu, megis yn y dalffeydd. Am y rheswm hwn, bydd trwydded dyfais a rennir Microsoft Teams yn cael ei phrynu ynghyd â ffonau sy'n gallu galluogi Teams. Bydd y buddsoddiad mewn dyfeisiau yn cael ei ariannu o'r gyllideb gyfalaf a'r trwyddedau o'r gyllideb refeniw.
- 8.6.9 O ran copïau wrth gefn M365, er bod data M365 yn cael ei ailadrodd sawl gwaith a bod rheolaethau ar waith fel atal colli data, nid yw hyn yn gwarantu yn erbyn colli data / llygredd. Mae Microsoft yn datgan mai dyletswydd y sefydliad yw gwneud copi wrth gefn o'i ddata ei hun. Mae'r gwaith o gaffael datrysiad wrth gefn M365 sy'n ddigon diogel ar fin cael ei gwblhau a dylai fod ar waith yn gynnar yn 2025.
- 8.6.10 Llinellau BT – Gyda gweithrediad cylchedau SIP newydd a BT yn cyhoeddi diwedd gwasanaethau telefoni analog bydd yr adran TGCh yn tynnu llinellau ffôn analog o'r ystad.
- 8.6.11 Yn 2025 bydd yn rhaid i'r heddlu symud i Windows 11 cyn mis Hydref gan na fydd system Windows 10 yn cael ei gefnogi mwyach. Nid yw rhai gliniaduron yn cefnogi Windows 11 a bydd angen eu newid – bydd y gyllideb safonol amnewid gliniaduron yn ddigon i fodloni'r gofyniad hwn.
- 8.6.12 Mae cronfa wrth gefn o derfynellau data symudol wedi'i brynu – y bwriad yw lleihau'r gwariant yn 2024/25.
- 8.6.13 VMWare – Daw Cytundeb Trwydded Menter VMware (ELA) BlueLight Commercial (BLC) cyfredol i ben ym mis Rhagfyr 2024. Mae cytundeb newydd yn cael ei reoli gan BLC. Prynwyd VMware gan Broadcom ym mis Tachwedd 2023 ac mae bellach yn gweithredu fel un sefydliad. Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau i'r cynhyrchion sydd ar gael yn y portffolio. Mae VMware bellach ond yn cynnig trwyddedau tanysgrifio mewn set o gynhyrchion sydd wedi'u lleihau'n sylweddol ac wedi'u symleiddio. Darparwyd prisiau gan BLC sy'n gweld cynnydd sylweddol dros yr hyn a dalwyd gan yr heddlu yn flaenorol.
- 8.6.14 Mae'r strategaeth gyfalaf i'r dyfodol yn ystyried rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Mae nifer o gynlluniau'n cael eu datblygu'n genedlaethol gan gynnwys y canlynol:
- 8.6.14.1 Mae rhaglen Cronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol (NLED) wedi mabwysiadu dull newydd o gyflwyno dull newydd yn lle Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Maent yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar gynnyrch sy'n profi'n llwyddiannus iawn ac y mae'r heddluoedd yn ei hoffi'n fawr. Mae'r heddlu wedi mabwysiadu'r holl gynhyrchion sydd ar gael hyd yn hyn. Mae'r modiwl eiddo wedi mynd yn fyw yn 2024 gyda hwb sylweddol yn

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

2025 i gwblhau a chyflwyno'r modiwl person.

- 8.6.14.2 Mae Rheolaeth Mynediad Hunaniaeth Genedlaethol (NIAM) bellach yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mynediad i Gronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol. Mae'r heddlu ar hyn o bryd yn gweithio ar y gofyniad Rheoli Mynediad Seiliedig ar Rôl y mae angen iddo fod yn ei le ar gyfer Cronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol yn y dyfodol. Yn gynnar yn 2025 y bwriad yw datblygu mecanwaith yn fewnol i ganiatáu rheolaeth awtomataidd ar y broses hon.
- 8.6.14.3 Cyswllt Cyhoeddus Digidol – Mae gan Single Online Home fap trywydd gallu manwl ar gyfer y dyfodol sydd wedi'i gynllunio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a fydd yn gofyn am gefnogaeth barhaus gan y sefydliad i sicrhau bod ein gwefan gyhoeddus yn datblygu yn unol â'r rhaglen genedlaethol ac yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf.
- 8.6.14.4 Gwasanaeth Adnabod Rhifau Cerbydau Awtomatig Cenedlaethol: mae llawer o newid yn digwydd ar lefel genedlaethol ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos.
- 8.6.14.5 Mae'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol bellach wedi dod i ben ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo o dan dri llinyn:
- Mae'r gwaith parhaus o reoli M365 Blueprint ac adnewyddu dyluniad yn cael ei wneud ar ran plismona gan wasanaeth digidol yr heddlu. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o hyrwyddo'r defnydd o ymarferoldeb llawn Microsoft Teams – gyda'r nod o fabwysiadu ei set nodweddion gyfoethog yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys dulliau cydymffurfio syml ar gyfer gofyn am westai a thîm. Mae tîm y prosiect yn cynorthwyo gyda symud dogfennau a ffeiliau ar y safle drosodd i SharePoint ar-lein – mae'n cael ei wneud ar sail adrannol – gyda'r bwriad o ychwanegu dulliau a fydd yn rhoi ffordd syml i staff osod labeli cadw priodol wedi'u cyfeirio'n genedlaethol.
  - Rheoli Hunaniaeth a Mynediad – Mae Rheoli Hunaniaeth a Mynediad bellach wedi'i wreiddio ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent i gynorthwyo gyda chydweithio ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect Connect wedi'i sefydlu sy'n nodi cwmpas a dyheadau clir ar gyfer y prosiect hwn ac mae'n cael ei ysgogi gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar gyfer cydweithio.
  - Canolfan Fonitro Genedlaethol – Mae'r Ganolfan Fonitro Genedlaethol wedi bod ar waith ers peth amser ac mae'n gweithio'n dda. Fel gwelliant i'r gwasanaeth rydym wedi symud i ddefnyddio Microsoft Sentinel, platfform rheoli gwybodaeth a rheoli digwyddiadau yn y cwmwl – mae'r heddlu'n cael ei hysbysu am faterion a nodwyd a throsglwyddir y materion i'r heddlu i fynd i'r afael â nhw.
- 8.6.14.6 Mae Rhaglen Cyfathrebiadau Symudol y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn mynd trwy raglen arall i'w hailosod gydag ail-lotio yn digwydd ar gyfer rhai gwasanaethau allweddol. Dyddiad ailddechrau prosiect presennol ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yw 2025 a bwriedir ei roi ar waith rhwng 2028 a 2030. Mae'n anodd cael unrhyw hyder yn y rhaglen ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at yr angen i ystyried (ar lefel genedlaethol) cynladwyedd Airwave a'r ffordd orau o gadw rhwydwaith Airwave yn addas i'r diben tan 2026 a thu hwnt. Mae hyn yn golygu y byddwn yn parhau i fod angen radios Airwave a therfynellau data symudol hyd y gellir rhagweld.

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

Mae'r heddlu wedi prynu dwy flynedd o gefnogaeth estynedig ar gyfer y dyfeisiau presennol yn hytrach na phrynu dyfeisiau newydd, mae'r opsiwn hwn yn gost sylweddol is. Trwy ymestyn y gefnogaeth mae'n caniatáu i'r heddlu ymdopi â'r asedau presennol ac aros am eglurder gan y rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys o ran amserlenni cyflawni a pha ddyfeisiau fydd ar gael i adnewyddu'r offer Airwave.

- 8.6.14.7 System Penderfyniadau a Rheoli Achosion Deïnamig – mae ymarfer caffael ar y gweill i gaffael (ar gyfer plismona) ateb TGCh rhyngweithredol cenedlaethol, gan ddarparu gallu cydgysylltiedig a chyson i gofnodi camau gweithredu a gwybodaeth weithredol, i lywio penderfyniadau ar y lefel uchaf, a chefnogi rheoli achosion o un pen i'r llall. Mae'r cynlluniau presennol yn dangos bod y cynnyrch yn annhebygol o fod yn barod i'w gyflwyno i heddluoedd tan ganol 2027.

## 9 Gofynion Cyfalaf ac Adnoddau

- 9.1 Ers tynnu cyllid cyfalaf y llywodraeth ganolog yn ôl yn 2023/4, mae'r erydiad hwn wedi achosi baich ychwanegol ar gyllidebau refeniw, rhaid dod o hyd i gyllid cyfalaf drwy leihau cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cynyddu cyfraniadau uniongyrchol o refeniw a benthyca darbodus, sy'n dod â beichiau ychwanegol hirdymor ar y gyllideb refeniw i ariannu darpariaethau llog a lleiafswm darpariaeth refeniw.
- 9.2 Yn ogystal â'r amrywiaeth o ofynion buddsoddi ar gyfer seilwaith lleol a rhanbarthol hollbwysig, mae hefyd beichiau ariannol yn deillio o nifer o brosiectau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cenedlaethol gorfodol, sydd yn bennaf y tu hwnt i reolaeth Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r prosiectau hyn yn parhau i achosi pryder o ran oedi a chynnydd mewn costau, gyda llawer o drafod yn parhau rhwng Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (APCC), Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref. Gwnaeth adroddiad Cyflwr Plismona Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar gyfer 2021 hefyd sylwadau beirniadol penodol.
- 9.3 Fel rhan o'i drefniadau cynllunio ariannol a gwasanaeth integredig, mae'r Comisiynydd yn amcangyfrif lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd dilynol er mwyn llunio rhaglen gyfalaf.
- 9.4 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi blaenoriaethu buddsoddiad yn y rhaglen gyfalaf tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant anorfod a thuag at feysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol a rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 i 2033/34 gwerth cyfanswm o £119.552 miliwn.
- 9.5 Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r ffaith bod cyllid grant cyfalaf yn dod i ben, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys taflwybr cynyddol o gyfraniadau refeniw i gyfalaf gyda benthyca darbodus allanol i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith hanfodol.
- 9.6 Defnyddir lefel broffiliedig y buddsoddiad cyfalaf ac adnoddau allanol i asesu'r angen am fenthyca tymor byr a thymor hir. Mae'r strategaeth hefyd yn bwydo i mewn i'r ystyriaethau y mae'r Comisiynydd yn eu gwneud yn flynyddol wrth osod lefelau a dangosyddion benthyca darbodus, cynaliadwy a fforddiadwy.

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

- 9.7 Gall awdurdodau lleol, gan gynnwys yr heddlu, osod eu lefelau benthyca eu hunain yn seiliedig ar eu hangen cyfalaf a'u gallu i dalu am y benthyca. Bydd y lefelau'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r dangosyddion a'r ffactorau a nodir yn y cod darbodus. Nid yw costau benthyca yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth y DU, felly mae angen i Heddlu Dyfed-Powys sicrhau y gall ariannu'r costau ad-dalu. Mae Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw yr awdurdod yn nodi agwedd ddarbodus tuag at y swm a neilltuwyd ar gyfer ad-dalu dyled. Mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân o dan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gaiff ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r cod yn nodi'n glir na ddylai'r awdurdod fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol.
- 9.8 Yn ogystal â'u rhaglen gyfalaf eu hunain, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau adnoddau cyfalaf a refeniw ychwanegol i hybu amcanion partneriaeth, trawsnewidiol a chynaliadwyedd lle bynnag a phryd bynnag y bo modd. Ymdrinnir â'r rhain drwy brosesau cyflenwol.

### 10 Trefniadau Llywodraethu

- 10.1 Fel yr amlinellwyd, mae'r rhaglen gyfalaf wedi'i blaenoriaethu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, sy'n gwerthuso gofynion yn erbyn blaenoriaethau strategol. Mae'r prosesau'n cydnabod maint a chymhlethdod amrywiol prosiectau cyfalaf ac yn ymgorffori dull cymesur o werthuso, monitro a gwerthuso prosiectau cyfalaf.
- 10.2 Mae'r Comisiynydd yn rheoli ei strategaeth gyfalaf yn weithredol drwy'r Bwrdd Plismona, sy'n goruchwyllo'r prosiectau newid mawr ar gyfer cyfalaf a refeniw. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Cyllid a Strategaeth yn cefnogi cyflawni ac yn monitro risgiau rhaglenni penodol. Mae gwaith gweithredu manwl yn cael ei neilltuo i unigolion allweddol a'i oruchwyllo gan Grwpiau Ystadau Strategol, TGCh Strategol a Defnyddwyr Cerbydau Strategol neu mewn byrddau prosiect penodol, gan gynnwys y Grŵp Adeiladu Cyfalaf, a sefydlir i oruchwyllo a llywodraethu cynlluniau cyfalaf mawr.
- 10.3 Rheolir prosiectau mawr yn unol ag arferion gorau rheoli prosiect o ran cydymffurfio â methodoleg prosiect PRINCE2®. Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu rhwng rheoli buddion ar brosiectau allweddol, cynllunio effeithlonrwydd a gwybodaeth am gostau.
- 10.4 Mae ffurflen cynnig prosiect wedi'i datblygu i gasglu ystyriaethau prosiect, risgiau, costau, amserlenni a buddion busnes mewn modd cyson ar draws y sefydliad. Mae grŵp prosiectau a chyllid wedi'i sefydlu i adolygu'r holl geisiadau am gyllid a fydd yn cael eu huwchgwyfeirio i'r Grŵp Newid a Thrawsnewid i'w hystyried.
- 10.5 Mae cynigion y prosiect cyfalaf yn cael eu hystyried a'u blaenoriaethu gan gyfeirio at achos busnes ac yn cael eu hystyried yn erbyn y ffactorau a ganlyn:
- Pwysigrwydd strategol – sut mae'r cais yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiynydd a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach;
  - Y canlyniadau a gyflawnir a'r manteision a'r effeithiau penodol;
  - Cynaliadwyedd ariannol – a yw costau yn realistig a lefel goblygiadau refeniw yn y dyfodol;

## Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth

---

- Cynaliadwyedd amgylcheddol;
  - Pa opsiynau sydd wedi cael eu hystyried;
  - Pa ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael;
  - I ba raddau y mae'r cynigion yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth.
- 10.6 Rhoddir ystyriaeth arbennig i gostau refeniw parhaus sy'n deillio o brosiectau cyfalaf o fewn y broses arfarnu. Mae pob cynnig cyfalaf posibl yn nodi costau refeniw parhaus ac yn ystyried sut y gellir eu bodloni. Mae costau refeniw sy'n deillio o gynlluniau cyfalaf gan gynnwys unrhyw ofynion benthyca darbodus, wedi'u cynnwys yn y cynllun ariannol tymor canolog.
- 10.7 Yna maent yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar bedwar categori, a restrir isod yn nhrefn blaenoriaeth:
- Anochel (atebolrwydd statudol, cytundebol neu arteithiol);
  - Blaenoriaeth gorfforaethol (yn ymwneud yn uniongyrchol â'r nodau corfforaethol a blaenoriaethau ar gyfer gwella);
  - Blaenoriaeth gwasanaeth (cwrdd â'r blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd);
  - Arall (ad-dalu, buddsoddi i ddiogelu, sbarduno cyllid allanol, ac ati.).
- 10.8 Dim ond os nodir adnoddau ychwanegol neu danwariant ar y rhaglen gyfalaf gymeradwy yn ystod y flwyddyn y gellir ystyried a chyflawni prosiectau blaenoriaeth is na ellir eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- 10.9 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau cyfalaf fel rhan o adroddiadau ariannol i'r Bwrdd Cyllid a Strategaeth a'r Bwrdd Plismona. Mae prosiectau ac adroddiadau penodol hefyd yn cael eu hystyried gan y grwpiau llywodraethu priodol, sy'n eistedd o dan y byrddau hyn h.y. Grŵp Ystadau Strategol, Grŵp Adeiladu Cyfalaf, Grŵp TGCh Strategol a Grŵp Defnyddwyr Fflyd Strategol, gyda risgiau ac adroddiadau amlygu yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r strwythur llywodraethu fel y bo'n briodol.
- 10.10 Yn dilyn cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf, nodir rheolwr prosiect a chynrychiolydd defnyddwyr ar gyfer pob prosiect cyfalaf. Mae'r rheolwr prosiect yn gyfrifol am reoli gweithrediad y prosiect a chyflawni ei amcanion. Ar gyfer pob prosiect o fewn y rhaglen gyfalaf, nodir swyddog fel noddwr prosiect.
- 10.11 Mae cynrychiolydd y defnyddwyr yn gyfrifol am gynrychioli defnyddwyr a chwsmeriaid ac am ddiffinio'r gofynion ansawdd. Mae'r ddwy rôl yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol methodoleg rheoli prosiect PRINCE2®. Mae'r rheolwr prosiect yn cynhyrchu cynllun prosiect i'w gymeradwyo. Adroddir ar gynnydd mewn perthynas â cynllun y prosiect i fwrdd rheoli'r rhaglen a noddwr y prosiect.
- 10.12 Unwaith y bydd prosiectau wedi'u cwblhau, mae'r rheolwr prosiect yn cwblhau adolygiad ôl-weithredu ar gyfer y prosiectau cyfalaf mawr. Mae hyn yn cynnwys nodi ar ba gam y bydd yr adolygiad ôl-brosiect yn cael ei gynnal. Mae'r adroddiad ôl-weithredu yn cael ei adolygu gan y Grŵp Newid a Thrawsnewid a'i uwchgyfeirio i'r Bwrdd Plismona, os oes angen.
- 10.13 Er mwyn gwerthuso gwir lwyddiant a chanlyniadau prosiectau cyfalaf, cynhelir adolygiad ôl-brosiect hefyd. Mae dyfnder yr adolygiad hwn yn gymesur â maint y prosiect a'r buddion a nodir yn y dogfennau cychwyn prosiect cychwynol.
- 10.14 Mae'r adolygiad hwn mewn gwirionedd yn wiriad o berfformiad yn erbyn y



## **Atodiad F – Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth**

---

cynnig gwreiddiol. Mae'n canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnwyd, i ba raddau y mae'r buddion a hawlir yn cael eu gwireddu, y costau gwirioneddol, yn referniw a chyfalaf, ac effaith cyllid arall a gweithio mewn partneriaeth. Yna gall Heddlu Dyfed-Powys ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau a nodir wrth weithredu'r prosiect.

- 10.15 Caiff llwyddiant parhaus prosiectau ei fonitro drwy nifer o fecanweithiau megis adborth swyddogion, ymgynghoriad cyhoeddus ac adborth cwsmeriaid.

### **Gwaredu Asedau**

- 10.16 Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod yr angen i waredu asedau dros ben neu anaddas i helpu i gyflawni eu nodau corfforaethol a chyflawni eu rhaglen gyfalaf ac mae'r broses fanwl ar gyfer gwaredu asedau wedi'i chynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae nifer o eiddo eisoes wedi'u gwerthu a bydd cynlluniau i farchnata eiddo pellach yn cael eu gwneud ar y cyd â chyflawni'r Strategaeth Ystadau yn unol â chyfrifoldebau ehangach y comisiynwyr.

## **11 Casgliad**

- 11.1 Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon yn ystyried pob agwedd ar reoli cyfalaf, yn nodi'r dulliau ar gyfer asesu prosiectau cyfalaf ac asedau ac yn amlinellu'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2029/2030, gyda rhagolygon ehangach hyd at 2033/2034. Dylid darllen y strategaeth ar y cyd â'r Strategaethau Ystadau, TGCh a Fflyd manwl, Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n ymdrin â gofynion Cod Darbodus CIPFA.

## Atodiad G – Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2033/34



Rhaglen Gyfalaf	24/25 £'000	25/26 £'000	26/27 £'000	27/28 £'000	28/29 £'000	29/30 £'000	30/31 £'000	31/32 £'000	32/33 £'000	33/34 £'000	Cyfanswm £'000
Tir ac adeiladau	10,816	17,032	13,431	3,600	2,800	2,175	2,075	4,566	2,075	2,075	60,645
Cerbydau	2,701	1,891	1,710	1,787	1,987	1,951	2,040	2,133	2,230	2,333	20,763
TG a gwariant strategol arall	3,071	5,253	4,785	3,728	3,385	2,559	4,008	3,330	4,562	3,464	38,145
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>16,588</b>	<b>24,176</b>	<b>19,926</b>	<b>9,114</b>	<b>8,172</b>	<b>6,685</b>	<b>8,123</b>	<b>10,029</b>	<b>8,867</b>	<b>7,872</b>	<b>119,552</b>
Cyllid grant	(106)	-	-	-	-	-	-	-	-	-	(106)
Benthyca	(9,782)	(16,788)	(14,881)	(4,361)	(3,600)	(2,925)	(4,125)	(5,316)	(3,406)	(3,406)	(68,590)
Cyfraniadau o'r cyfrif refeniw	(2,718)	(2,718)	(3,143)	(3,933)	(4,522)	(4,522)	(4,522)	(4,663)	(4,599)	(4,416)	(39,756)
Derbynebion cyfalaf	(1,084)	(294)	(50)	(820)	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)	(50)	(2,548)
Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(2,898)	(4,376)	(1,852)	-	-	812	574	-	(812)	-	(8,552)
	-	<b>(16,588)</b>	<b>(19,926)</b>	<b>(9,114)</b>	<b>(8,172)</b>	<b>(6,685)</b>	<b>(8,123)</b>	<b>(10,029)</b>	<b>(8,867)</b>	<b>(7,872)</b>	<b>(119,552)</b>